

LLEWYRCH O'R LLECHI

Cyf. LUF20095

CWESTIYNAU PORTH

Rhan 1: Cwestiynau cychwynnol

1.1. Beth yw enw cyfreithiol y sefydliad yr ymgeisydd arweiniol?

Cyngor Gwynedd

1.2. Ble fydd eich cynnig yn cael ei gyflwyno?

Cymru

1.3. Dewiswch eich awdurdod lleol

Gwynedd

1.4. Nodwch enw eich cynnig

Llewyrch o'r Llechi: ffyniant i'r dyfodol o'n gorffennol diwydiannol

1.5. Ydy eich cynnig yn cynnwys unrhyw prosiectau a gyflwynwyd yn flaenorol yn rownd 1?

Nac ydy

1.6. Manylion cyswllt rheolwr y cynnig

Enw llawn

Hannah Joyce

Swydd

Uwch Swyddog Adfywio Strategol

Rhif ffôn

01341424448

Cyfeiriad e-bost

hannahjoyce@gwynedd.llyw.cymru

Cyfeiriad post

Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

1.7. Manylion cyswllt Uwch Swyddog Cyfrifol**Enw llawn**

Sioned Williams

Swydd

Pennaeth Economi a Chymuned

Rhif ffôn

01286679547

Cyfeiriad e-bost

sionedewilliams@gwynedd.llyw.cymru

1.8. Manylion cyswllt Prif Swyddog Cyllid**Enw llawn**

Dewi Morgan

Rhif ffôn

01286679684

Cyfeiriad e-bost

dewiaeronmorgan@gwynedd.llyw.cymru

1.9. Manylion cyswllt Arweinydd Awdurdod Lleol

Enw llawn

Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn

Swydd

Arweinydd Cyngor Gwynedd

Rhif ffôn

01286679267

Cyfeiriad e-bost

cyngorydd.dyfrigsiencyn@gwynedd.llyw.cymru

1.10. Nodwch enw unrhyw gwmnïau ymgynghori sydd wedi bod yn rhan o baratoi'r cynnig

DCA Consultancy

1.11. Nodwch gyfanswm y grant y gofynnir amdano gan y Gronfa Ffyniant Bro.

£18830189.00

1.12. Themâu buddsoddi

Adfywio a chanol trefi

0%

Diwylliannol

100%

Trafnidiaeth

0%

Adran 2: Meini prawf cymhwyster a meini prawf y porth

2.1. Ba lwfans cynnig ydych yn ei ddefnyddio?

Lwfans etholaeth gyfan

2.2. Sawl prosiect sy'n ffurfio rhan o'ch cynnig?

3

2.3. Ydych chi'n cyflwyno cynnig ar y cyd?

Na

2.4. Ydych chi'n cyflwyno cynnig diwylliannol mawr?

Na

2.5. Datganiad o werth y grant

Yr wyf yn cyflwyno cynnig fel ymgeisydd unigol a gallaf gadarnhau nad yw'r cynnig yn ei gyfanrwydd yn fwy na gwerth grant o £20 miliwn.

2.6. Meini prawf y porth: costau, cynllunio a gwneud taliadau

Gallaf gadarnhau y bydd rhywfaint o wariant cyllid grant y Gronfa Ffyniant Bro yn cael ei wneud yn y flwyddyn ariannol 2022/23

2.7. Llyfr gwaith Costau a Chynllunio

LUF_Package_Bid_Costings__Planning_Workbook_V2.00.xlsx

Rhan 3: Crynodeb o'r Cynnig

3.1. Enw'r cynnig

Llewyrch o'r Llechi: Ffyniant i'r Dyfodol o'n Gorffennol Diwydiannol

3.2. Nodwch ddisgrifiad byr o'ch cynnig

Bwriad y prosiect hwn yw cysylltu cymunedau sydd wedi'u lleoli yn Nhirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru drwy ddiwylliant sy'n cael ei rannu a naratif cyffredin, drwy wella llesiant y boblogaeth leol yn ogystal â chreu cynnig o safon byd-eang i ymwelwyr mewn tri Hwb Llechi. Gan weithio gyda partneriaid, byddwn yn cyd-greu profiadau fydd yn canolbwyntio ar ein cryfderau diwylliannol ac yn dod a'n treftadaeth yn fyw. Bydd y prosiect yn diogelu ac yn aildefnyddio adeiladau hanesyddol, yn creu mannau diwylliannol bywiog, yn gwella mynediad i'n tirwedd treftadaeth a chymunedau unigryw, oll wedi'i ategu gan ddiwylliant Cymreig nodedig a balchder lleol cynhenid.

3.3. Rhowch drosolwg manylach o'ch cynnig

Mae'r Prosiect Llewyrch o'r Llechi wedi'i leoli yng Ngwynedd, Gogledd Cymru, ac mae'n adeiladu ar y dynodiad Safle Treftadaeth y Byd (STyB) diweddar (2021) a ddyfarnwyd gan UNESCO i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Bydd y prosiect yn cyfrannu at weledigaeth y STyB i ddefnyddio diwylliant a threftadaeth fel sbardun ar gyfer datblygiad economaidd a chynhwysiant cymdeithasol.

Mae'r STyB wedi'i ddynodi'n dirwedd ddiwylliannol gan UNESCO, sef tirwedd sy'n coleddu amrywiaeth o agweddau ar y rhyngweithio rhwng pobl a'r amgylchedd naturiol. Mae'n cynnwys chwe Darn Cydrannol, pob un ag asedau treftadaeth penodol ac amrywiol, ond sydd ar y cyd wedi cyfrannu at ddynodiad pwysig y STyB.

Er mwyn cyfleu gwerth rhyngwladol eithriadol y STyB, datblygwyd model hwb, sbocsen, sbocsen, a thrwy'r cynnig hwn byddwn yn gweithredu cam cyntaf yr hybiau treftadaeth ar draws y STyB. Bydd pecyn y cynnig yn cynnwys tair ardal, pob un yn datblygu cynnig ansawdd-uchel i ymwelwyr, gan greu mannau diwylliannol bywiog, gwella isadeiledd a chysylltedd lleol, dehongli arloesol ac yn ail-bwrpasu asedau segur hanesyddol i greu mannau fydd yn eiddo i'r gymuned. Wrth galon y datblygiad ceir uchelgais i gynyddu balchder a hyder lleol drwy ailgysylltu pobl â'u diwylliant a threftadaeth cyfoethog, gan sicrhau bod y tirwedd llechi yn parhau'n lle i fyw, gweithio ac ymweld â hi yn y dyfodol.

Am ragor o wybodaeth, gweler prosbectws y prosiect (atodiad 1)

Elfen 1: Hwb Dinorwig

Creu prif hwb STyB drwy wella'r cynnig i ymwelwyr yn yr Amgueddfa Lechi Cenedlaethol drwy uwchraddio'r gofod arddangos ac addysg a chyflwyno dehongli arloesol.

Bydd yr hwb hefyd yn cynnwys ail-bwrpasu adeiladau hanesyddol ym Mharc Padarn, sef y parc cyhoeddus sy'n amgylchynu'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol a sy'n rhan o'r dirwedd llechi hanesyddol. Bydd hyn yn cynnwys creu gofod gwirfoddoli a chanolfan blymio newydd, ynghyd â man arddangos er mwyn dychwelyd injan hanesyddol Chwarel Dinorwig i'w safle gwreiddiol. Yn ogystal, gwneir gwelliannau sylweddol i'r isadeiledd ymwelwyr yn y parc, gan gynnwys gwell toiledau cyhoeddus, gosod pwyntiau gwefru EV, manau cadw a golchi beiciau a maes parcio. Bwriedir buddsoddi yn y cysylltedd rhwng yr hwb a'r Chwarel, drwy wella llwybrau cyhoeddus, mynediad i'r anabl, ac agor llwybrau nad ydynt yn addas i'w defnyddio gan y cyhoedd ar hyn o bryd.

Elfen 2: Hwb Ogwen

Creu hwb yn nhref Bethesda. Bydd y prosiect yn adnewyddu eiddo gwag ar y stryd fawr i'w ddefnyddio fel gofod aml-bwrpas, gan gynnwys canolfan dreftadaeth a dehongli pwrpasol, unedau i fusnesau bach, gofod ar gyfer addysg a hyfforddiant, caffi cynnyrch lleol a hwb trafniadaeth gwyrdd ar gyfer Dyffryn Ogwen (i'r Wyddfa). Yn ogystal, bwriedir buddsoddi yn Neuadd Ogwen, canolfan diwylliannol a chelfyddydau ar gyfer y Dyffryn, er mwyn gwella gwedd yr adeilad i'w galluogi i gynnal digwyddiadau gyda'r nos a digwyddiadau mwy.

Bydd llwybr seiclo newydd yn cael ei greu rhwng Bethesda a Chwarel y Penrhyn, safle atyniadau poblogaidd Zip World. Bydd y llwybr yn gwella mynediad i'r tirwedd llechi, ac yn ei dro yn gwella dealltwriaeth, ynghyd â iechyd a lles ymysg defnyddwyr; bydd hefyd yn galluogi ymwelwyr Zip World i ymweld â'r dref, gan annog mwy o wario lleol - rhywbeth nad yw'n digwydd yn ddigonol ar hyn o bryd er gwaethaf ymdrechion lefel-isel megis gosod arwyddion.

Elfen 3: Hwb Ffestiniog

Creu hwb yn nhref Blaenau Ffestiniog, a adnabuwyd ar un adeg fel 'Dinas Llechi'. Bydd y prosiect yn aildefnyddio dwy adeilad wag yng nghanol y dref o dan berchnogaeth gymunedol, i greu dau uned ar gyfer micro-fusnesau ynghyd â gofod aml-bwrpas at ddibenion y celfyddydau, hyfforddiant a chreadigol. Yn ogystal bwriedir buddsoddi yn adeilad Aelwyd yr Urdd a fydd yn canolbwyntio ar weithgareddau i bobl ifanc, gan gynnwys manau creadigol, dehongli arloesol, digwyddiadau, gwasanaethau hyfforddiant ac eiriolaeth.

Bydd llwybr seiclo a cherdded newydd yn cael ei greu rhwng y dref a Chwarel Llechwedd. Mae'r Chwarel yn gartref i nifer o atyniadau treftadaeth ac antur, a bydd creu'r llwybr newydd yn hwyluso mynediad i bobl at y tirwedd llechi, yn gwella dealltwriaeth a gwerthfawrogiad, ac yn cyfrannu at iechyd a lles y

boblogaeth leol, yn ogystal ag annog ymwelwyr i ymweld â'r dref, gan ymestyn y budd economaidd.

Bydd Cyngor Gwynedd yn ymgymryd â nifer o ymyraethau isadeiledd a chyhoeddus ar raddfa fechan yn y tri hwb er mwyn sicrhau bod stori'r llechi yn amlwg ym mhob cyrchfan. Bydd yr ymyraethau (e.e. dodrefn stryd, raciau beics, arwyddion) a phrosiectau cyhoeddus (e.e. nodweddion porth, gwaith celf, dehongli) oll yn defnyddio dylanwad y dirwedd lechi i uno'r prosiect trwy gyfrwng celf, barddoniaeth a rhyddiaith sydd wedi'u dylanwadu gan y tirwedd, er mwyn creu ymyraethau pwrpasol o ansawdd uchel. Bydd Cyngor Gwynedd hefyd yn ymgymryd â gwaith cadwraeth i strwythurau ac asedau hanesyddol sydd wedi'u lleoli yn ymyl y llwybrau cysylltiol newydd, ac yn eu dehongli. Bydd hyn arwain at gynyddu dealltwriaeth ymysg defnyddwyr y llwybrau o'r STyB a swyddogaeth y strwythurau unigol yn y diwydiant.

3.4. Nodwch ddisgrifiad byr o'r ardal ble gwneir y buddsoddiad

Mae STyB Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn cynnwys chwe Darn Cydrannol, ac mae wedi'i leoli yn sir Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri. Mae Gwynedd yn sir yng ngogledd-orllewin Cymru, mae ganddi'r boblogaeth fwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, gyda dros 75% o'r boblogaeth yn y dyffrynnoedd llechi yn siarad Cymraeg. Mae Gwynedd yn sir sydd hefyd yn ddibynnol iawn ar dwristiaeth ac amaethyddiaeth, er bod ganddi orffennol arwyddocaol yn y diwydiant llechi; Gwynedd oedd yn gyfrifol am ddarparu toeau i'r byd yn ystod y chwyldro diwydiannol, gyda'r diwydiant yn cyflogi dros 16,000 o bobl ar ei anterth. Mae'r diwydiant llechi yn parhau i fod yn gyflogwr arwyddocaol yn yr ardal, er nad i'r un graddau ag yn ystod anterth y diwydiant yn y 18fed ganrif.

Mae Prosiect Llewyrch o'r Llechi yn becyn o brosiectau sy'n cynnwys tair ardal ddaearyddol benodol.

Dinorwig: mae aneddiadau Deiniolen, Dinorwig a Chlwt-y-bont yn gymunedau chwarelyddol hanesyddol, wedi'u lleoli yn agos at Lanberis a'r Wyddfa. Mae gan yr ardal boblogaeth o 11,665, ac mae'n dibynnu'n helaeth ar dwristiaeth a'r sector awyr agored. Bellach, defnyddir Chwarel Dinorwig fel gorsaf hydrodrydan weithredol, y mwyaf o'i math yn Ewrop, ac yn gyflenwr ynni allweddol i'r grid cenedlaethol.

Ogwen: Bethesda yw'r prif anheddiad yn Nyffryn Ogwen, a'r ail anheddiad mwyaf yn y STyB. Fe'i sefydlwyd yn wreiddiol gan chwarelwyr a'u teuluoedd oedd yn well ganddynt beidio â byw ar dir perchennog y chwarel. Lleolir Bethesda yn Nyffryn Ogwen, ardal boblogaidd gydag ymwelwyr a phobl sy'n ymddiddori yn yr awyr agored gyda'i leoliad ar gyrion yr Wyddfa, Eryri a chadwyni eraill o fynyddoedd. Chwarel y Penrhyn yw'r chwarel weithredol fwyaf yng Ngwynedd ac mae'n parhau i gyflogi tua 300 o unigolion. Mae Bethesda yn enwog hefyd fel canolfan gelfyddydol, cerddorol a diwylliannol, sydd wedi bod yn gartref i artistiaid enwog, a llawer ohonynt wedi defnyddio'r

dirwedd lechi fel ysbrydoliaeth yn eu gwaith.

Blaenau Ffestiniog: tref ddiwydiannol Fictoraidd wedi'i chadw mewn cyflwr da, a adnabuwyd ar un adeg fel 'Dinas Llechi', a'r anheddiad mwyaf yn y STyB. Blaenau Ffestiniog yw'r prif dref ar gyfer y boblogaeth wasgaredig yn ardal amaethyddol Bro Ffestiniog sy'n amgylchynu'r dref, gyda phoblogaeth o 6491. Mae chwaredli gweithredol yn parhau yn yr ardal, ond y brif sector economaidd yw'r diwydiant twristiaeth, gyda phrif atyniadau megis Rheilffordd Ffestiniog, Zip World a Llechwedd, yn ogystal ag gweithgareddau awyr agored megis cerdded mynyddoedd, llwybrau beicio lawr allt a physgota.

3.5. Uwchlwytho Map (dewisol)

Project Maps.pdf

3.6. Ydy eich cynnig yn cynnwys unrhyw brosiectau trafndiaeth?

Nac ydy

3.7. Nodwch wybodaeth am y lleoliad

3.7.1. *Lleoliad 1*

Nodwch god post y lleoliad

LL55 4TY

Nodwch gyfeirnod grid y lleoliad

SH 58544602257

Canran y cynnig sydd i'w fuddsoddi yn y lleoliad

62%

Uwchlwytho Ffeil GIS ar gyfer y lleoliad (dewisol)

3.7.2. *Lleoliad 2*

Nodwch god post y lleoliad

LL57 3AN

Nodwch gyfeirnod grid y lleoliad

SH 6224555793

Canran y cynnig sydd i'w fuddsoddi yn y lleoliad

18%

Uwchlwytho Ffeil GIS ar gyfer y lleoliad (dewisol)

3.7.3. *Lleoliad 3*

Nodwch god post y lleoliad

LL41 3ES

Nodwch gyfeirnod grid y lleoliad

SH7019645870

Canran y cynnig sydd i'w fuddsoddi yn y lleoliad

20%

Uwchlwytho Ffeil GIS ar gyfer y lleoliad (dewisol)

3.8. Dewiswch yr etholaethau a gynhwysir yn y cynnig

3.8.1. *Etholaeth 1*

Enw'r Etholaeth

Arfon

Amcangyfrifwch ganran y cynnig a fuddsoddir yn yr etholaeth hon

80%

3.8.2. *Etholaeth 2*

Enw'r Etholaeth

Dwyfor Meirionnydd

Amcangyfrifwch ganran y cynnig a fuddsoddir yn yr etholaeth hon

20%

3.9. Dewiswch yr awdurdodau lleol a gynhwysir yn y cynnig

3.9.1. *Awdurdod Lleol 1*

Enw'r awdurdod lleol

Gwynedd

Amcangyfrifwch ganran y cynnig a fuddsoddir yn yr awdurdod lleol hwn

100%

3.10. Is-gategoriâu sy'n berthnasol i'ch buddsoddiad

3.10.1. Dewiswch un neu ragor o is-gategoriâu sy'n berthnasol i'ch buddsoddiad

Y Celfyddydau a Diwylliant
Economi Ymwelwyr
Adeiladau a safleoedd treftadaeth
Diwylliannol arall

3.10.2 Disgrifiwch yr is-gategori diwylliannol arall

Lles / addysg a hyfforddiant

3.11. Darparwch fanylion unrhyw geisiadau a wnaed i gynlluniau ariannu eraill ar gyfer y cynnig hwn sy'n disgwyl am benderfyniad

Gweler Atodiad 2 (Tabl arian Cyfatebol) am fanylion yr arian cyfatebol sydd wedi'i sicrhau ac yn aros am benderfyniad ar gyfer y prosiect.

Mae angen cyfanswm o £7,915,967 o arian cyfatebol ar gyfer y prosiect, mae 21% wedi'i sicrhau, a bydd y 79% sy'n weddill i'w benderfynu yn ystod cyfnod asesu'r cais LUF.

Gweler atodiad 3 (Tystiolaeth o Arian Cyfatebol) am fanylion yr ymrwymadau arian cyfatebol unigol.

3.12. Nodwch rif TAW eich sefydliad os yn berthnasol

636600941

RHAN 4: Cydraddoldeb

4.1. Gwahoddir ymgeiswyr i amlinellu sut y bydd eu cynnig yn hyrwyddo perthnasau iach yn y gymuned, yn helpu i leihau gwahaniaethau ymysg gwahanol grwpiau, neu'n cryfhau integreiddio ar draws y gymuned leol.

Mae cydraddoldeb yn flaenoriaeth i unrhyw ddatblygiad a wneir gan Gyngor Gwynedd. Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i hyrwyddo cydraddoldeb ac mae wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb rhywedd, cysylltiadau hiliol da a mynd i'r afael â chamwahaniaethu ar sail oedran ac anabledd. Ymhellach, rhaid i'r holl waith fod ar gael i bawb waeth beth fo'u hanabledd corfforol, nam synhwyrol, anabledd dysgu, problem iechyd meddwl neu unrhyw nam arall i geisio sicrhau bod modd i'r holl ymwelwyr fwynhau profiad o ansawdd uchel.

Mae gan Gyngor Gwynedd Ymgynghorydd Cydraddoldeb dynodedig yn y Gwasanaeth Corfforaethol sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â Strategaeth Cydraddoldeb y Cyngor.

Datblygir y Rhaglen yn unol â Pholisi Cyfle Cyfartal Cyngor Gwynedd. Bydd yn ofynnol i unrhyw gyrff trydydd parti a benodir gydymffurfio â'r polisi hwn.

Datblygir y Rhaglen hefyd yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd. Bydd yn ofynnol i unrhyw gyrff trydydd parti a benodir eu bod yn cydymffurfio â'r polisi hwn.

Mae'r cyfleoedd sy'n arbennig o berthnasol i'r Rhaglen o safbwynt hyrwyddo cyfle cyfartal wedi'u hadnabod fel a ganlyn:

Cyfleoedd cyflogaeth a chaffael: Bydd cyfleoedd cyflogaeth a chaffael sy'n deillio o'r Rhaglen ar gael i bob unigolyn, gan gynnwys y rheini â nodweddion a warchodir yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Cyhoeddusrwydd: Bydd yr holl ddeunyddiau cyhoeddus a gynhyrchir gan y Rhaglen yn ddwyieithog yn unol â Pholisïau Iaith Gymraeg a Cyfle Cyfartal Cyngor Gwynedd. Rhoddir ystyriaeth lawn i hygyrchedd y deunyddiau, yn unol â safonau a ddeddfwriaeth cydnabyddedig (e.e. y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (DDA)). Sicrhau bod unrhyw waith adeiladu gwelliannau ffisegol yn unol â'r DDA a gofynion eraill. Sicrhau bod yr deunyddiau a gynhyrchir ar gael mewn ffurfiau hygyrch.

Ymgysylltu/Ymgynghori: Bydd yr holl gyfarfodydd cyhoeddus a/neu wasanaethau cyhoeddus yn destun egwyddorion Polisiïau Iaith Gymraeg a Chyfle Cyfartal Cyngor Gwynedd. Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth i faterion hygyrchedd wrth gynnal gweithgareddau o'r fath.

Cymalau Cymdeithasol / Manteision Cymunedol: Lle'n bosib, bydd y rhaglen yn gweithio gyda chontractwyr i gynnwys cymal cymdeithasol / cynllun buddion cymdeithasol er mwyn cyflawni buddion cymdeithasol. Bydd y Rhaglen yn cynnwys nifer o gytundebau adeiladu mawr a rhagwelir y bydd

cyfleoedd i archwilio cymalau cymdeithasol yn y fframwaith caffael. Lle'n berthnasol, defnyddir Cynllunydd Llwybrau Caffael Llywodraeth Cymru.

Datganiadau Dylunio a Mynediad: yn cael eu llunio ar gyfer datblygiadau i ddangos bod ystyriaeth wedi'i roi i faterion mynediad o'r cychwyn, drwy'r holl gamau datblygu hyd at weithrediad rheolaeth yr Adeilad.

Datganiadau Mynediad: Bydd y rhain yn cael eu paratoi a'u marchnata ar gyfer eiddo newydd / gwelliannau a ddatblygir fel rhan o'r prosiect er mwyn darparu datganiadau ysgrifenedig clir, cywir ac onest o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau a gynigir.

RHAN 5: Rheoli Cymorthdaliadau a Dadansoddi Cymorth Gwladwriaethol

5.1. A yw'r cymorth ariannol yn cael ei ddarparu gan 'awdurdod cyhoeddus' ac a yw'r cymorth yn cynnwys cyfraniad ariannol (neu mewn nwyddau) fel grant, benthyciad neu warant?

Ydyw

5.2. A yw'r mesur cymorth yn rhoi mantais economaidd i un neu fwy o ffactorau economaidd?

Ydyw

Darparwch ragor o wybodaeth i gefnogi eich ateb

Mae tair elfen i brosiect Llewyrch o'r Llechi. Bydd y gefnogaeth yn galluogi Amgueddfa Genedlaethol Cymru i ail-ddatblygu rhan o Safle Treftadaeth y Byd ac i gael budd o'r effaith y gallai hyn ei gael ar y gweithgareddau economaidd a gynhelir yno.

Bydd hefyd yn galluogi adnewyddu eiddo y gellir eu defnyddio i ddibenion economaidd fel caffis ac unedau busnes ym Methesda a Blaenau Ffestiniog

5.3. A yw'r mesur cefnogol yn benodol, fel ei fod o fudd, fel mater o ffaith neu gyfraith, i rai ffactorau economaidd dros eraill o ran cynhyrchu rhai nwyddau neu wasanaethau?

Ydyw

Darparwch ragor o wybodaeth i gefnogi eich ateb

Darperir cymorth penodol i weithredwyr Amgueddfa Lechi Cymru a phrosiectau ym Methesda a Blaenau Ffestiniog. Mae'n bosib hefyd y bydd

buddion damweiniol i ddefnyddwyr unedau busnes ym Methesda a Blaenau Ffestiniog.

5.4. Oes posibilrwydd i'r mesur cefnogol achosi niwed neu afluniad i'r gystadleuaeth, masnach neu'r buddsoddiad?

Oes

Darparwch ragor o wybodaeth i gefnogi eich ateb

Bydd y gefnogaeth yn galluogi datblygiad yr eiddo a darpariaeth gweithgareddau a chyfleusterau mae gweithredwyr economaidd eraill yn ei ddarparu. Felly, gallai fod posibilrwydd i beri afluniad i'r gystadleuaeth, masnach neu'r buddsoddiad

5.5. Egwyddor amcan polisi cyhoeddus - Dangoswch isod sut mae eich bid yn cwrdd â'r egwyddor hon

Amcan polisi cyhoeddus Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru (fel a gytunwyd gan Lywodraeth y DU ac UNESCO) drwy ei ddynodiad fel Safle Treftadaeth y Byd yw:
"amddiffyn, cadw, gwella a chyfleu Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru er mwyn atgyfnerthu hynodrwydd diwylliannol a chryfhau'r iaith Gymraeg, a dod yn sbardun pwysig i adfywio economaidd a chynhwysiad cymdeithasol"

Bydd prosiect Llewyrch o'r Llechi yn defnyddio datblygiad cynaliadwy ac amddiffyn asedau hanesyddol a diwylliannol pwysig a chryfhau'r Gymraeg i ymdrin â thrafferthion yn yr ardal, gan ddefnyddio treftadaeth, diwylliant ac adfywio i annog adfywio economaidd. Mae cymunedau a chanolfannau Dinorwig, Ogwen a Ffestiniog yn gymunedau difreintiedig, yn dioddef o ddirywiad economaidd yn dilyn colli'r diwydiant llechi. Mae Blaenau Ffestiniog yn gyn ardal Cymunedau'n Gyntaf, rhaglen gan Lywodraeth Cymru oedd Cymunedau'n Gyntaf a'i nod oedd lleihau tlodi. Roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar y gymuned gan gefnogi'r bobl mwyaf difreintiedig yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru gan anelu i gyfrannu at liniaru tlodi parhaus. Mae'r tair ardal ymysg y 50% o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD). Mae statws economaidd y tair ardal i'w gweld yn y lefelau cymharol uchel o amddifadedd incwm (Ffestiniog 16%, Ogwen 14%, Peris 11%) o'i gymharu â chyfartaledd y sir o 13%. Bydd y prosiect yn mynd i'r afael gyda lefelau incwm isel yn y rhanbarth, yn enwedig Ffestiniog ar £23,300, sef yr isaf yng Ngwynedd, a hefyd diffyg swyddi gwerth uchel yn yr ardal, eto, gyda Ffestiniog yr isaf ar 5.7% ar gyfartaledd mewn cymhariaeth gyda 11.1% ar gyfartaledd i Wynedd, a chyfartaledd o 13.6% yng Nghymru.

Y rhesymeg dros yr ymyriadau yw cyfrannu tuag at fodloni'r amcan a gytunwyd drwy adfywio cymunedau yn STyB.

Y canlyniadau a ddymunir o'r ymyriadau yw gwella mwynderau ymwelwyr, rhoi ail-fywyd i adeiladau gwag, meithrin gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o dreftadaeth a diwylliant, gwella dehongli ac isadeiledd a chreu cysylltiadau ffisegol fydd yn gwella iechyd a llesiant.

5.6. Egwyddor cymesur a chyfyngedig - Dangoswch isod sut mae eich bid yn cwrdd â'r egwyddor

Datblygwyd y cynllun i ymateb i'r polisi, cafodd ei ddatblygu gan ddefnyddio egwyddorion rheoli prosiect cydnabyddedig gan gynnwys craffu opsiynau a chostau manwl i sicrhau bod y cyfraniad yn gymesur â'r angen. Mae angen i'r gweithgareddau a nodwyd ddigwydd er mwyn dilyn yr amcan a gytunwyd ac ni fedrai ddigwydd yn absenoldeb y cymhorthdal.

Cynhaliwyd dadansoddiad o brosiectau addas yn ardal Safle Treftadaeth y Byd gan y Tîm Prosiect, a gofynnwyd i'r partneriaid allanol roi gwybod i'r tîm prosiect am unrhyw gynigion, prosiectau a dyheadau sy'n gysylltiedig gyda Safle Treftadaeth y Byd fel rhan o ffurfio Cynllun Datblygu ac Ariannu Cynaliadwy ar ôl arysgrifio, roedd y wybodaeth yma yn ffurfio'r sail i benderfynu pa brosiectau oedd yn bodloni amcan y polisi a rhoddwyd blaenoriaeth iddynt wrth ffurfio pecyn bid. Ystyriwyd mai'r elfennau a ddewiswyd oedd y rhai mwyaf aeddfed, ac yn rai fyddai'n rhoi'r manteision cymdeithasol ac economaidd mwyaf i'r ardal drwy fuddsoddi gan hefyd gwrdd â gofynion pecyn diwylliannol.

Lefel y cymhorthdal i'r bid cyffredinol yw 70%, mae'r cyfraniadau cymhorthdal unigol i elfennau yn amrywio, gyda sefydliadau trydydd sector yn gofyn am yr uchafswm lefel o gymhorthdal (90%), a sefydliadau sector cyhoeddus yn gofyn am lefel is o gymhorthdal. Mae hyn yn adlewyrchu natur y trydydd sector, lle mae yn anoddach ymrwymo i fuddsoddiad newydd. Mae pob cais am gymhorthdal yn gymesur ag elfen y prosiect. Mae lefel y cymhorthdal i bob elfen wedi eu hasesu gan y tîm prosiect a daethpwyd i'r casgliad er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir, bod angen lefel uwch o gymhorthdal i bartneriaid trydydd sector.

Amgueddfa Lechi Cymru - cost y prosiect £12,383,000 - cyfraniad y Gronfa Ffyniant Bro (LUF) £6,200,000 (50%).

Yr Hen Bost (Bethesda) – cost y prosiect £1,603,000 – cyfraniad LUF £1,442,700 (90%).

Neuadd Ogwen (Bethesda) – cost y prosiect £342,435 – cyfraniad LUF £308,192 (90%)

Gwelliannau Canol y Dref (Blaenau Ffestiniog) – cost y prosiect £1,250,608 – cyfraniad LUF £1,125,547 (90%)

5.7. Egwyddor newid ymddygiad economaidd - Isod, dangoswch sut mae eich bid yn cwrdd â'r egwyddor hon

Mae angen y lefel yma o ymyriadau fel a nodwyd yn yr ymateb egwyddor cymesur a chyfyngedig yn flaenorol.

Bydd y cymhorthdal yn galluogi buddiolwyr i gynnig gwasanaethau a chyfleusterau newydd yn eu cymunedau i bobl leol ac ymwelwyr, byddant yn gallu cwrdd â gofynion lleol ac yn cyfrannu at amcan cyffredinol STyB gan gyflawni'r amcan polisi cyhoeddus a ddisgrifiwyd uchod.

Nid yw'r lefel yma o ariannu ar gael yn lleol ac felly mae hynny yn golygu na fydd y gweithgareddau yn gallu digwydd heb y cymhorthdal. Mae diwydrwydd dyladwy wedi ei gynnal gyda phartneriaid mentrau cymdeithasol gan gynnwys asesiad o'r sefyllfa ariannol cyfredol, gwirio credyd ac asesiad proffesiynol aelod o Dîm Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd o hyfywedd ariannol y fenter. Mae'r ymarfer yma'n cadarnhau nad oes gan bartneriaid y gallu ariannol i ariannu'r prosiect eu hunain nac i godi arian o ffynonellau eraill heb dderbyn y cymhorthdal, ond eu bod hefyd mewn sefyllfa ariannol sefydlog ac yn sefydliadau hyfyw sy'n gallu rheoli'r buddsoddiad gan fedru cynnal asedau yn y dyfodol, wedi cwblhau'r prosiect.

5.8. Digolledu costau a ariennir fel arall gan yr egwyddor buddiolwr - Isod dangoswch sut mae eich bid yn cwrdd â'r egwyddor hon

Mae'r gweithgareddau sydd wedi eu cynnwys yn y bid yma i gyd yn newydd ac yn weithgareddau ychwanegol i rai bob dydd partneriaid, byddai'r buddsoddiad yn ychwanegol i'r ymrwymadau presennol. Fel yr eglurwyd uchod, ni ellid ariannu'r gweithgareddau ychwanegol heb y cymhorthdal.

5.9. Egwyddor polisi offeryn priodol - Isod, dangoswch sut mae eich bid yn cwrdd â'r egwyddor hon

Ni ellid cyflawni amcanion y polisi heb y cymhorthdal yma, nid oes unrhyw grantiau eraill ar gael ar y raddfa yma i gyflawni amcan y polisi. Ni fyddai swm y benthyciad sydd ei angen i ariannu'r amcanion polisi yma ar gael ac os fyddent, ni fyddai'r buddiolwr yn gallu cael mynediad atynt. Mae'r buddiolwyr wedi craffu'r opsiynau ar gyfer eu prosiectau unigol ac nid oes grantiau ariannu eraill ar gael i gwrdd â'u nodau. Edrychwyd ar drefniadau ariannu amgen, ond nid yw'r partneriaid trydydd sector yn gallu cael mynediad i ariannu addas i gwblhau'r gweithgaredd o gronfeydd cyhoeddus eraill. Nid yw benthyciadau masnachol yn hyfyw i sefydliadau trydydd sector, ac mae gan fenthyciadau arbenigol (e.e. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) ofynion amcanion penodol sydd ddim yn cyd-fynd â nodau'r prosiect yma. Ceisiwyd arian grant amgen i elfennau unigol, ond mae sefydliadau un ai eisoes wedi derbyn arian i brosiectau eraill (e.e., Neuadd Ogwen gan Gronfa Rhaglen Cymunedau, Cyfleusterau a Gweithgareddau, Partneriaeth Ogwen o Gronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru) a ddim yn gallu ail-ymgeisio, neu mae'r cronfeydd sydd ar gael yn rhy fach, neu gydag amcanion gwahanol sydd ddim yn addas i'r prosiect yma.

5.10. Egwyddor cystadleuaeth a buddsoddi - Dangoswch isod sut mae eich bid yn cwrdd â'r egwyddor hon

Mae'r cymhorthdal yn benodol i ddatblygu a hyrwyddo Safle Treftadaeth y Byd, Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, ni fydd ganddo effaith negyddol ar gystadleuaeth gan ei fod yn safle dynodedig unigol gyda nodweddion penodol sy'n golygu cyflwyniad y statws. Fel a ddangosir yn yr ymateb ddarparwyd ar gyfer yr egwyddor Cymesur a Chyfyngedig, cynhaliwyd dadansoddiad wedi ei fesur i adnabod yr elfennau i'w cynnwys yn y pecyn bid.

5.11. Egwyddor effeithiau positif net - Isod dangoswch sut mae eich bid yn cwrdd â'r egwyddor hon

Bydd yr holl amcanion polisi yn cael eu cyflawni drwy'r elfennau unigol. Fel a amlinellwyd yn yr ymateb egwyddor cystadleuaeth a buddsoddi, darperir y cymhorthdal i'r datblygu safle unigol gyda nodweddion penodol. Nid oes unrhyw botensial i effeithiau negyddol ar fasnach neu fuddsoddi.

5.12. Fyddwch chi'n dosbarthu'r arian fel cymhorthdal posib i drydydd partïon?

Byddwn

5.13. Uwchlwythwch y datganiad cydymffurfio a lofnodwyd gan eich Prif Swyddog Cyllid

Dogfen datganiad cydymffurfio

Proforma 5 .pdf

RHAN 6: Addas yn Strategol

6.1. Oes Aelod Seneddol wedi rhoi cefnogaeth ffurfiol a blaenoriaeth i gefnogi'r bid yma?

Oes

6.2. Enw Llawn yr Aelod Seneddol

Liz Saville-Roberts

6.3. Etholaeth yr Aelod Seneddol

Dwyfor Meirionnydd

Uwchlwythwch proforma 6

Cefnogaeth AS.pdf

6.4. Disgrifiwch pa waith ymgysylltu yr ydych wedi ei gynnal gyda rhanddeiliaid perthnasol lleol. Sut mae hyn wedi cyfarwyddo eich bid a pha gefnogaeth ydych chi wedi ei chael ganddynt?

Mae cymunedau yn greiddiol i STyB, maent wedi bod yn rhan o datblygiad yr enwebiad ar gyfer arysgrifio, ac mae ganddynt lais ffurfiol o fewn strwythur rheoli STyB. Gweledigaeth STyB yw defnyddio treftadaeth a diwylliant fel sbardun ar gyfer budd economaidd a chynhwysiad cymdeithasol, ac mae'r weledigaeth yma'n ganolog i'r holl weithgareddau. Rheolir STyB gan Fwrdd Partneriaeth sydd wedi arwyddo Memorandwm o Ddealltwriaeth i gytuno ar goliau cyffredin, mae'r Bwrdd yn cynnwys Llywodraeth Cymru (CADW), Prifysgol Bangor, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Gwynedd, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Amgueddfa Cymru (Amgueddfa Genedlaethol Cymru), Icomos UK a chynrychiolwyr o'r sectorau preifat a chymunedol.

Gellir gweld yr holl dystiolaeth am ymgysylltu yn Atodiad 4, ynghyd â llythyrau sy'n cynnwys un gan yr ail AS lleol yn Atodiad 5.

Er mwyn adnabod blaenoriaethau'r gymuned ar gyfer STyB, lluniwyd Cynlluniau Cyrchfan Cymunedol ar y cyd rhwng partneriaid cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. Mae'r rhain yn ddogfennau byw a ddefnyddir i flaenoriaethu a llywio buddsoddiad i STyB. Caiff holl elfennau y bid yma eu nodi yn y cynlluniau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Cynlluniau Cyrchfan Cymunedol ac maent wedi eu cynnwys yn yr atodiad hwn.

Mae Cynllun Rheoli STyB yn ddogfen strategol a fabwysiadwyd gan Fwrdd y Bartneriaeth a'i chymeradwyo gan UNESCO sy'n amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer rheolaeth gynaliadwy a datblygu STyB 2020-2030. Aeth y Cynllun Rheoli drwy ymgynghoriad cyhoeddus yn 2019 a sicrhodd hyn ei bod yn ddogfen gyda chefnogaeth a pherchnogaeth y rhanddeiliad. Mae holl

elfennau'r bid yma yn cyfrannu tuag at gyflawni nifer o flaenoriaethau yn y Cynllun Rheoli. Cafodd adroddiad yr ymgynghoriad ei gynnwys yn yr atodiad, a gellir gweld y Cynllun Rheoli ar wefan STyB.

Lluniwyd y Cynllun Dehongli mewn ymgynghoriad gyda'r rhanddeiliaid, i adnabod y lleoliadau gorau ar gyfer dehongli, a hefyd i gytuno at y themâu a'r negeseuon allweddol i bob lleoliad er mwyn cyfrannu at stori gyflawn STyB. Mae'r cynllun wedi ei gynnwys yn yr atodiad yma, ac mae hefyd ar gael ar wefan STyB fel rhan o'r dudalen adnoddau cymunedol.

Mae gan STyB raglen ymgysylltu cymunedol, o'r enw LleCHI sydd wedi bodoli ers 2018 gan sicrhau bod pob sector o'r gymdeithas wedi derbyn gwybodaeth, wedi ymgysylltu ac wedi eu cynnwys mewn materion yn gysylltiedig â llechi. Mae'r gwaith ymgysylltu wedi amrywio o sesiynau ysgolion, creu rhwydwaith o Lysgenhadon Ifanc, digwyddiadau rhithiol, ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol, sesiynau galw heibio, mynychu digwyddiadau cymunedol fel ffeiriau, carnifalau a digwyddiadau diwylliannol fel Eisteddfodau, cefnogi perfformiadau a chynnal sesiynau celf a chadwraeth. Rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith ymgysylltu cynhwysol ac eang wrth wneud penderfyniadau am STyB, gan fod perchnogaeth gymunedol, balchder ac uchelgais yn ffactorau allweddol i ddatblygu a rheoli STyB llwyddiannus. O fod wedi cloriannu cam cyntaf y prosiect LleCHI gellir gweld ymgysylltiad cymunedau yn natblygiad y prosiect adfywio sy'n gysylltiedig â STyB. Gellir gweld adroddiad gwerthuso'r prosiect hyd at 2021 yn yr atodiad.

Derbyniwyd llythyrau cefnogi gan nifer o randdeiliaid

Mae partneriaid unigol hefyd wedi cynnal eu hymarferion ymgysylltu eu hunain fel a welir yn yr atodiad gan gynnwys:

Amgueddfa Lechi Cymru : cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus in 2021 ar ddyfodol yr Amgueddfa, roedd y prif ymatebwyr yn dymuno gweld mwy o weithdai a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithdai, arddangosfeydd oedd yn canolbwyntio ar bobl, teithiau tywys, gweithgareddau i blant a defnyddio realiti rhithiol. Roedd hefyd awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau diwylliannol fel cynnal cyngherddau, ffilmiau archif, sesiynau actor, ardal grefftau a dychwelyd injan y Fire Queen i Lanberis. Cafwyd hefyd sawl awgrym am gadw 'Cymreictod' y safle, a sicrhau bod yr asedau hanesyddol yn cael eu cadw. Mae'r prosiect yma'n ymateb i ddyheadau'r gymuned a'r ymwelwyr fu'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad, a bydd yn fodd i ddod â safonau modern a disgwyliadau i'r Amgueddfa.

Partneriaeth Ogwen: cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus manwl yn 2020 i osod gwaelodlin i'r ardal, gosod cyfeiriad i weithgareddau'r fenter a mesur yr effaith ar y gymuned. Mae'r canfyddiadau yn dangos bod 85% o'r ymatebwyr yn credu bod Dyffryn Ogwen yn gyfoethog o ran iaith, diwylliant a

threftadaeth. Dangosodd yr ymgynghoriad mai prif flaenoriaethau Dyffryn Ogwen oedd adfywio'r Stryd Fawr, llwybrau beic/cerdded, cynnyrch lleol, trafndiaeth gwyrdd ac isadeiledd, twristiaeth gynaliadwy a'r celfyddydau, crefftau a digwyddiadau diwylliannol. Mae'r prosiect yn hwyluso gwireddu llawer o'r blaenoriaethau a nodwyd yn yr ymgynghoriad.

Neuadd Ogwen - cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn 2020 drwy ofyn i bobl leol beth yr oeddent yn ei fwynhau am y lleoliad. Mae nifer o'r sylwadau yn nodi'r angen am y lleoliad i gynnal digwyddiadau mwy, ac yn hwyrach yn y nos a dyma beth fydd y buddsoddiad drwy'r Prosiect yma yn ei alluogi.

Trafnidiaeth i Gymru (Cysylltiad Bethesda â Chwarel y Penrhyn) - cafwyd sawl ymgynghoriad cyhoeddus am y cysylltiad rhwng Bethesda a Chwarel y Penrhyn ac maent wedi eu crynhoi yn yr adroddiad dichonoldeb. Mae'r ymgynghoriad yn nodi'r angen i hwyluso symudiad ymwelwyr o Zip World i Fethesda ac i wella llwybrau hamdden i ddefnyddwyr lleol. Bydd y prosiect yn amodol i ymgynghoriadau parhaus yn ystod y cyfnodau dylunio manwl ac adeiladu.

Antur Stiniog - mae dogfen gweledigaeth 2014 yn nodi prif nod y sefydliad sef datblygu Bro Ffestiniog fel cyrchfan a chanolfan i weithgareddau ymwelwyr, diwylliannol, awyr agored a threftadaeth, gan enwi'r blaenoriaethau a ganlyn: cefnogi a sefydlu mentrau masnachol gydag amcanion cymdeithasol o fudd i'r gymuned leol, i ddatblygu a marchnata statws Bro Ffestiniog fel canolfan i dwristiaeth ddiwylliannol a diwydiannol gan ddarparu cyflogaeth o ansawdd uchel a chyfleoedd hyfforddi i bobl o bob oed.

Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (ACGC) (Cysylltiad Blaenau Ffestiniog a Chwarel Llechwedd) - mae ymgynghoriadau gyda'r partneriaid wedi eu cynnal, a bydd y prosiect yn amodol i ymgynghoriadau cyhoeddus yn ystod y cyfnodau dylunio manwl a adeiladu.

Mae'r bid wedi cynnal gwaith ymgysylltu helaeth ar draws ystod eang o randdeiliaid er mwyn siapia'r elfennau i gyflawni anghenion y gymuned er budd ardaloedd unigol, y gymuned ehangach a STyB gyfan.

6.5. Ydy'r bwriad wedi wynebu unrhyw wrthwynebiad?

Cefnogir Prosiect Llewyrch o'r Llechi gan ddau Aelod Seneddol y Sir, Cabinet Cyngor Gwynedd, Bwrdd Adfywio Gwynedd, Bwrdd Partneriaeth STyB Gwynedd a rhanddeiliaid yn STyB.

Ni fu unrhyw wrthwynebiad i unrhyw agweddau o'r bid yn ystod cam datblygu'r prosiect, ac nid ydym yn rhagweld unrhyw wrthwynebiad fel y symudwn i'r cam cyflawni.

Lleisiwyd peth pryder yn ystod proses enwebiad STyB gan berchnogion tir

oedd yn bryderus y byddai'r arysgrifio yn arwain at fwy o gyfyngiadau cynllunio. Rydym yn gallu gweithio gyda'r perchnogion tir i liniaru eu pryderon gan fod y dirwedd eisoes wedi ei gwarchod ar lefel uchel a bydd rheoli datblygiad yn y dyfodol yn cael ei seilio ar bolisiau cynllunio sydd eisoes wedi eu sefydlu. Roedd perchnogion tir a rhanddeiliaid hefyd yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Canllaw Cynllunio Atodol.

Yn ogystal, lleisiwyd peth pryder yn ystod y broses enwebu y byddai dynodiad Treftadaeth Byd yn gallu bod yn fygythiad i'r Gymraeg a diwylliant ein cymunedau. Rydym wedi ymdrin â'r pryderon yma drwy ddatblygu astudiaeth gwaelodlin o'r Gymraeg yn ein cymunedau a hefyd i ddatblygu Cynllun Economi Ymwelwyr Cynaliadwy i'r ardal. Rydym hefyd wrthi yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor i ddatblygu rhaglenni ymchwil ar unrhyw effeithiau y gallai'r arysgrifio ei gael ar ein cymunedau. Trwy ein gwaith gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol rydym yn ceisio dathlu a hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol ac yn y Gymraeg ar draws yr ardal gan mai dyma yw hanfod ein STyB.

Fel a ddangoswyd mewn ymateb i'r cwestiwn blaenorol, mae elfennau'r prosiect yma wedi deillio o ymgynghoriadau manwl gyda rhanddeiliaid, oedd yn cynnwys rhestr eang o randdeiliaid yn y tair ardal hwb a'r STyB ehangach. Mae'r amryfal ymgynghoriadau wedi rhoi sylw i'r meysydd ffocws gan flaenoriaethu ystod o brosiectau fydd yn helpu cyflawni'r newid trawsffurfiol sydd ei angen fel bo'r ardal yn ffynnu mewn ffordd gynaliadwy.

Mae hon yn drafodaeth sy'n parhau gyda'r Awdurdodau Cynllunio Lleol a Cadw (gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru) o ran dylunio a chynladwyedd yr elfennau yng nghyd-destun y dirwedd hanesyddol a gosodiad STyB.

6.6. A oes gennych chi gyfrifoldeb statudol i gyflawni holl agweddau'r bid?

Na

6.7. Pa rannau o'r prosiect sydd gennych gyfrifoldeb statudol amdanynt?

Nid oes unrhyw elfennau o'r prosiect ddaw o dan gyfrifoldeb statudol unrhyw awdurdod, er bod gan Gyngor Gwynedd bwerau statudol i greu llwybrau cyhoeddus newydd, llwybrau ceffyl a chilffyrdd cyfyngedig drwy A25 a A26 Deddf Priffyrdd 1980 a thraciau beicio drwy Ddeddf Traciau Beics 1984 a hefyd bwerau statudol i greu llwybrau caniataol drwy A39 Deddf Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt 1981.

Mae gan Gyngor Gwynedd, yr ymgeisydd arweiniol i'r bid yma, gyfrifoldeb am rai agweddau o'r prosiect hwn; llwybrau beics a cherddwyr, ac am elfennau o isadeiledd a chadwraeth yn y tair cymuned.

Mae partneriaid allanol wedi cytuno i fod yn gyfrifol am gyflawni agweddau eraill o'r prosiect:

Ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru - Amgueddfa Cymru - cytundeb wedi ei dderbyn

Yr Hen Bost – Partneriaeth Ogwen – cytundeb wedi ei dderbyn

Neuadd Ogwen – Cwmni Tabernacl Cyf – cytundeb wedi ei dderbyn

Aelwyd yr Urdd, 22 a 23 Stryd yr Eglwys? – Antur Stiniog – cytundeb wedi ei dderbyn

6.8. Pwy yw'r awdurdod cyfrifol perthnasol?

Cyngor Gwynedd

6.9. Cefnogaeth/caniatâd yr awdurdod cyfrifol perthnasol

A oes gennych gefnogaeth/caniatâd yr awdurdod cyfrifol perthnasol?

Oes

Uwchlwytho proforma (os oes angen)

6.10. Darparu tystiolaeth o'r heriau/rhwysterau lleol i'r twf a'r cyd-destun mae'r bid yn ceisio ymateb iddynt.

Mae'r dyffrynnoedd llechi yn ardaloedd ôl-ddiwydiannol ac ymysg yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Ngwynedd.

Mae'r ardal yn ddibynnol iawn ar y sector twristaidd, ac mae dynodiad STyB yn cynnig cyfle i ymestyn y tymor ymwelwyr traddodiadol, gan ddenu ymwelwyr sy'n gwario mwy ac sy'n aros am fwy o amser, gyda diddordeb arbennig mewn treftadaeth a diwylliant. Bydd y prosiect hwn yn gwella'r hyn a gynigir i'r ymwelydd yn sylweddol ac yn galluogi'r ardal i hyrwyddo ei hun fel cyrchfan drwy'r flwyddyn.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw lwybr hamdden rhwng Bethesda a Chwarel y Penrhyn, a Blaenau Ffestiniog a Chwarel Llechwedd, bydd y prosiect yma yn datblygu cysylltiadau gwyrdd (beiciau a cherddwyr) rhwng y cymunedau a'r asedau hanesyddol/antur gan felly alluogi i'r cyfoeth economaidd gael ei ledaenu ymhellach i'r cymunedau ôl-ddiwydiannol hyn.

Mae'r Stryd Fawr ym Methesda a Blaenau Ffestiniog yn dirywio, gyda sawl eiddo gwag, ac mae'r ddwy fenter gymdeithasol yn gweithio i drawsnewid y

tueddiad yma drwy brynu eiddo a dod o hyd i ddefnydd newydd a phriodol ar eu cyfer. Dangosodd gwaith ymchwil lleol bod angen unedau deori i ficro-fusnesau i annog mentergarwch ac i bobl ifanc aros yn yr ardal i gael cyflogaeth, mae hefyd angen am leoliadau creadigol ac addysgol i ddarparu cyfleoedd i bobl leol. Bydd treftadaeth a diwylliant yn ganolog i'r holl ddatblygiadau, gydag adeiladau yn ymgorffori elfennau dehongli arloesol yn y dyluniad, gyda diwylliant yn tanategu profiadau creadigol ac addysgol yn y safleoedd.

Gweledigaeth STyB yw amddiffyn, cadw, gwella a chyfleu gwerthoedd pwysig yr ardal er mwyn atgyfnerthu hynodrwydd diwylliannol a chryfhau'r iaith Gymraeg, a dod yn sbardun pwysig i adfywio economaidd a chynhwysiad cymdeithasol. Mabwysiadwyd y weledigaeth hon gan Fwrdd y Bartneriaeth, a'r holl randdeiliaid, ac mae yn ganolog i'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â STyB.

Mae Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 yn nodi'r angen i weithredu Treftadaeth Llechi Gwynedd fel blaenoriaeth strategol, ynghyd â pharhau i gyfoethogi bywydau trigolion Gwynedd drwy hyrwyddo dealltwriaeth am ein treftadaeth a'n diwylliant unigryw (atodiad 6). Mae'r Cyngor yn gweld treftadaeth a diwylliant fel rhan greiddiol o'r holl weithgareddau economaidd, ac maent yn nodi'r blaenoriaethau adfywio, a'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â STyB. Mae'r STyB wedi'i ddynodi'n dirwedd ddiwylliannol, sy'n ymgorffori pwysigrwydd diwylliant y rhan yma o Gymru ar lefel fyd-eang.

Nid yw Amgueddfa Lechi Cymru hyd yma wedi gweld unrhyw fuddsoddiad sylweddol ers 1995 pan wnaed peth gwaith dehongli ac adfer. Mae'r Amgueddfa wir angen buddsoddiad i ddod yn bwynt ffocws go iawn i STyB ac i annog ymweliadau ehangach o'r ardal. Yn 2022, bydd yr Amgueddfa yn dathlu ei phen-blwydd yn 50 oed a bydd y prosiect yma yn fuddsoddiad sylweddol i nodi'r garreg filltir bwysig yma gan wneud yr amgueddfa yn berthnasol i gynulleidfaoedd a chymunedau yn yr unfed ganrif ar hugain. Bydd Amgueddfa Cymru yn parhau i weithredu fel amgueddfa achrededig yn dilyn y buddsoddiad gan gynghori a chefnogi prosiectau partneriaid gyda datblygu a chynnal eu canolfannau dehongli (er na fydd y rhain yn amgueddfeydd ac felly ddim o dan yr un rhwymedigaethau statudol).

Mae'r holl elfennau a gynhwyswyd yn y prosiect wedi cael eu nodi fel blaenoriaethau yn y Cynlluniau Cyrchfan Cymunedol a luniwyd ar y cyd rhwng partneriaid STyB, Cyngor Gwynedd a chymunedau lleol, ynghyd â'r gwelliannau isadeiledd cyffredinol a weithredir gan Gyngor Gwynedd.

Mae strwythur rheoli STyB yn sicrhau bod lleisiau'r cymunedau yn cael eu clywed drwy'r holl brosesau, bod ymgysylltu ac ymgynghori parhaus wedi bod yn allweddol i gyflawni'r gyrchfan ac yn parhau i fod yn hanfodol fel mae prosiectau unigol yn datblygu.

Mae gwerthusiad rhaglen gymunedol STyB (LleCHI) yn dangos bod treftadaeth ddiwylliannol wedi bod yn elfen allweddol o weithgareddau hyd yma a bydd yn parhau i gyfarwyddo gweithgareddau yn y dyfodol.

Daw'r prosiect â gwerth ychwanegol sylweddol i'r buddsoddiad blaenorol yn yr ardal gan gynnwys y gwelliannau ERDF £4m ar thema llechi i dir y cyhoedd ym Mlaenau Ffestiniog, y buddsoddiad preifat sylweddol ym Mlaenau Ffestiniog a Bethesda gan Zip World, JW Greaves a Breedon, a buddsoddiad parhaus Cyngor Gwynedd ac Amgueddfa Cymru yn ardal Dinorwig. Bydd hefyd yn ychwanegu gwerth i'r buddsoddiad a wnaed gan bartneriaid trydydd sector o'r bid gan gynnwys y buddsoddiad wnaed gan Antur Stiniog a Phartneriaeth Ogwen i brynu eiddo yng nghanol y dref, a Tabernacl (Bethesda) Cyf i uwchraddio Neuadd Ogwen.

Daw buddsoddiad hefyd â gwerth ychwanegol i arysgrifiad STyB, sy'n deitl byd-enwog sy'n tynnu sylw ac amlygu'r safle, bydd y buddsoddiad yma yn elwa ar y statws byd-eang drwy ddod â'r cyfleusterau yn yr ardaloedd hyn i fod yn unol â disgwyliadau uchel ein cymunedau lleol ac ymwelwyr diwylliannol.

Mae cyflwr cadwraeth presennol rhai o'n hasedau hanesyddol a chymunedol yn wael, a bydd buddsoddi drwy'r gronfa yma yn sicrhau eu bod yn cael eu diogelu i genedlaethau'r dyfodol. Gellir gweld delweddau o rai asedau sydd wedi eu cynnwys yn y bid yma yn Atodiad 7.

6.11. Eglurwch pam fod angen buddsoddiad gan y Llywodraeth (beth yw methiant y farchnad)

Mae'r prosiect yn cynnwys elfennau isadeiledd na ddarperir gan y sector cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys llwybrau troed a llwybrau beic, gwelliannau ar raddfa fach i dir y cyhoedd, gwaith dehongli a chadwraeth. Bydd yr elfennau hyn i gyd yn cyfrannu at gynyddu balchder a hyder lleol, gan gyfrannu at synnwyr unigryw o le sy'n gysylltiedig â STyB llechi. Bu diffyg buddsoddi mewn isadeiledd lleol mewn blynyddoedd diweddar oherwydd toriadau yn y sector cyhoeddus, a'r disgwyliad sy'n gysylltiedig gyda STyB sy'n golygu bod gwahaniaeth enfawr rhwng disgwyliad a realiti.

Mae canolfannau trefi o dan fygythiad enfawr ac maent yn dirywio. Er mwyn annog a hybu eu hadfywiad mae yn hanfodol buddsoddi yn y ffabrig trefol i gynyddu hyder economaidd, cymunedol a defnyddwyr.

Mae'r Prosiect yn targedu cyllid i ddatblygu gwahaniaeth trawsffurfiol yn STyB, i ddatblygu isadeiledd a gwaith tir y cyhoedd fydd yn diogelu a gwella'r amgylchedd lleol, hyrwyddo iechyd a llesiant gan arwain at welliannau estheteg, a gwell mynediad at asedau a phrofiadau diwylliannol a threftadaeth. Rhagwelir y bydd y gwelliannau hyn yn cyfrannu at lwyddiannau adfywio economaidd ehangach yn y tair cymuned.

Eiddo Masnachol - mae'r prosiect yn cynnwys adfer, ymestyn a gwella eiddo Canol Tref gan sefydliadau trydydd sector. Mae tri o'r rhain yn dod ag Eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, mae'r cwbl wedi bod yn wag am gyfnod sylweddol heb unrhyw ddiddordeb masnachol i'w prynu, mae'r prosiectau hyn wedi adnabod defnydd newydd i'r eiddo er mwyn cwrdd â methiannau'r farchnad leol, sef, unedau cychwyn busnes i annog mentergarwch, gan ganolbwyntio ar y sector creadigol a diwylliannol. Er mwyn cynnal y lleoliadau hyn, bydd gan yr adeiladau hefyd swyddogaethau ychwanegol (e.g. caffi, unedau preswyl). Hefyd bydd Canolfan ddehongli newydd yn cael ei chreu ym Methesda, gan wireddu nod STyB i greu model o hybiau ac ymestyniad ohonynt ar draws yr ardal. Yn olaf, bydd un elfen yn gweld uwchraddio'r Ganolfan ddiwylliannol ar stryd fawr Bethesda i gwrdd â'r bwloch yn y farchnad i'r ardal i ddarparu lleoliad i ddigwyddiadau mawr.

Mae'r prosiect hefyd yn cynnwys gwaith ar raddfa fach ar dir y cyhoedd a gwaith isadeiledd fydd yn gweithredu fel galluogwr i fuddsoddiad gan y sector preifat. Mae yn anodd cyflawni'r rhain heb gymhorthdal cyhoeddus ond maent yn galluogi cefnogi cyfleoedd ar gyfer adfywio ehangach. Mae creu cysylltiadau beicio a cherdded newydd rhwng y cymunedau a'r llechi, â buddion iechyd a llesiant a byddant yn cynyddu hygyrchedd i safleoedd adfywio allweddol fel y ddwy ganolfan tref.

Mae graddfa'r buddsoddiad sydd ei angen i gynhyrchu'r 'nwyddau' a amlinellwyd uchod y tu hwnt i allu a rôl y sector preifat, gyda'r sector preifat ddim yn gallu cyflenwi'r mathau yma o 'nwyddau' ar elw. Oherwydd eu statws 'nwyddau cyhoeddus' nid oes unrhyw ffordd glir a theg i'r sector preifat i godi am ddefnyddio'r 'nwyddau' ac ni fyddai'r sector yn gall adennill manteision cadarnhaol sy'n gysylltiedig â chanlyniadau ac effeithiau'r 'nwyddau' hyn, gan arwain at allanoldebau cadarnhaol.

O ystyried graddfa a'r diffyg dychweliad sy'n gysylltiedig gyda'r buddsoddiad yn y bid yma, oni bai bod y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn ymyrryd, bydd tan ddarpariaeth yn parhau o'r nwyddau cyhoeddus hyn a'u hallbynnau a deilliannau cysylltiedig.

6.12. Eglurwch beth yr ydych yn bwriadu buddsoddi ynddo a pham bydd yr ymyriadau arfaethedig yn y bid yn ymdrin â'r heriau a'r rhwystrau hynny.

Dynodwyd STyB yn 2021. Er mwyn cwrdd â disgwyliadau ymwelwyr, ac i gymryd mantais llawn o'r statws er budd trigolion, mae angen buddsoddiad ac ymyrraeth sylweddol. Yn y ddogfen 'An Assessment of the Current and Potential Economic Impact of Heritage' a baratowyd gan Dîm Ymchwil Economaidd TBR a Redbanks Consulting, nodi'r "analysis shows that the most attractive future scenario in economic terms is to invest in a successful WHS bid and the activities and initiatives that would fully exploit the economic

opportunities that arise". Mae Strategaeth Ddehongli STyB (Atodiad 8) wedi datblygu model canolfan ac is-ganolfannau er mwyn trosglwyddo arwyddocâd STyB mor effeithiol ac effeithlon â phosib, sef cam cychwynnol y cynllun a ddatblygwyd gan Gyngor Gwynedd, ac mae'r prosiect yma yn gweld gweithrediad cam cyntaf yr hybiau ffisegol yn ardaloedd allweddol STyB.

Cynhaliwyd ymarfer sgopio i adnabod pa ardaloedd y dylid eu cynnwys yn y prosiect. Roedd Dinorwig yn allweddol fel cartref Amgueddfa Lechi Cymru, sef prif hwb STyB, ac yn adwy i'r hybiau eraill. Bydd Amgueddfa Lechi Cymru yn darparu gwybodaeth gyffredinol ar STyB, a 'stori' pob ardal gan hefyd gyfeirio ymwelwyr i ardaloedd eraill iddynt ddilyn teithiau thematig. Bydd hyn yn gweithredu fel sbardun i ledaenu cyfoeth a nifer yr ymwelwyr a ddaw i ardal Dinorwig i ardaloedd yng Ngwynedd ble mae llai o ymwelwyr.

Dewiswyd Bethesda a Blaenau Ffestiniog i fod yn rhan o gam 1 oherwydd bod eu prosiectau unigol wedi datblygu yn dda gydag uchelgais glir sy'n cyfrannu at y weledigaeth a gytunwyd. Maent hefyd wedi eu lleoli yn strategol yn STyB i sicrhau eu bod yn hawdd eu cyrraedd a'r effaith orau ar y cymunedau llechi. Lleolir Blaenau Ffestiniog yn ne Gwynedd, yn ardal Meirionnydd, a bydd yn gweithredu fel adwy i STyB o dde'r Sir. Lleolir Blaenau Ffestiniog a Bethesda ar lwybrau strategol yng Ngwynedd, ar yr A470 a'r A5, a dyma'r ddau anheddiad mwyaf yn STyB, felly bydd gan y Buddsoddiad yr effaith fwyaf ar nifer fwy o drigolion.

Bydd isadeiledd cydlynol a rhaglen gadwraeth a weithredir gan Gyngor Gwynedd ar draws y tair ardal yn sicrhau undeb a chysondeb gan alluogi ymwelwyr i bob ardal i adnabod brand unigryw ac arddull STyB drwy'r holl gymunedau. Bydd y gwaith yn adeiladu ar dreftadaeth a diwylliant unigryw y dirwedd llechi gan ymgorffori y rhain i'r nodweddion dylunio ac i unrhyw waith dehongli.

Bydd gwella a chreu llwybrau beicio a cherdded yn cyfrannu at gynlluniau iechyd, llesiant a chynlluniau Trafnidiaeth cynaliadwy, gan wneud y tair ardal yn gyrchfan i hamdden a gweithgareddau, gan felly ddenu pobl i STyB.

Trwy'r prosiect yma byddwn yn buddsoddi mewn:

- Ail-ddatblygu safle'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol fel yr hwb allweddol i STyB;
- Asedau cymunedol allweddol i ysgogi adfywio a arweinir gan ddiwylliant a threftadaeth yn ychwanegol at wirfoddoli a datblygu sgiliau ieuenctid ym Methesda a Blaenau Ffestiniog;
- Sefydlu cysylltiadau llesiant ffurfiol rhwng Amgueddfa Lechi Cymru a Chwarel Dinorwig, Bethesda a Chwarel y Penrhyn a Blaenau Ffestiniog a Chwarel Llechwedd;
- Dehongliad arloesol o'n Stori Lechi gydag Arwyddocâd Rhyngwladol;
- Gwelliannau strategol o ansawdd uchel ar dir y cyhoedd;

- Buddsoddi mewn celf gyhoeddus o ansawdd uchel wedi'i ganolbwyntio yn y gymuned ac mewn dehongli.

Uwchlwytho adroddiad Asesu Opsiwn (dewisol)

6.13. Sut fyddwch chi'n cyflawni'r allbynnau a chadarnhewch sut mae'r canlyniadau yn debygol o lifo o'r ymyriadau?

Mae gan y prosiect allbynnau clir sy'n cyd-fynd ag ymdrechion STyB i gyflawni'r weledigaeth a gytunwyd. Yr allbwn cyffredinol fydd newid y canfyddiad o le sydd gan y trigolion, busnesau ac ymwelwyr, rydym yn anelu i gynyddu balchder lleol, dealltwriaeth a pherchnogaeth STyB drwy'r prosiect.

Mae'r elfennau yn cynnwys creu a gwella lleoliadau diwylliannol, sydd yn eu tro yn arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr â lleoliadau diwylliannol, mwy o ddigwyddiadau diwylliannol a mynychwyr, ynghyd â chynnydd yng ngwariant defnyddwyr mewn digwyddiadau diwylliannol (Neuadd Ogwen).

Bydd nifer o asedau treftadaeth yn cael eu gwella, eu hadnewyddu a'u hail bwrpasu drwy'r prosiect, gan sicrhau eu gwarchodaeth a'u cadwraeth hirdymor fel elfennau o STyB.

Bydd cyfleoedd gwirfoddoli yn cael eu creu ar draws y tair ardal mewn amryfal ffyrdd, yn cynnwys sefydlu rhaglen wirfoddoli ym Mharc Padarn i gynorthwyo gyda gwaith gwarchodaeth.

Mae Antur Stiniog a Phartneriaeth Ogwen yn fentrau cymdeithasol sydd wedi hen sefydlu gyda phortffolio o asedau yn y ddwy gymuned ac maent yn gyflogwyr lleol sylweddol, maent hefyd yn cael eu cydnabod fel mentrau arloesol a blaengar ymysg sefydliadau trydydd sector yn genedlaethol. Byddant yn gwella unedau preswyl presennol fel rhan o reolaeth gynaliadwy asedau cymunedol, gyda rhenti yn cael eu defnyddio i gynnal gweithgareddau eraill yn yr adeiladau. Bydd gwaith uwchraddio eiddo yn cynnwys retrofits gwyrdd gan gynnwys paneli haul ar Aelwyd yr Urdd a'r Hen Bost.

Bydd prosiect yr Hen Bost yn gwella Adeilad adfeiliedig ar Stryd Fawr Bethesda, ac Antur Stiniog yn gwella dau adeilad adfeiliedig yn 22 a 23 Stryd yr Eglwys.

Byddwch yn gweld gwelliannau i dir y cyhoedd ac amryfal ymyriadau ar draws y tair ardal, gan ddefnyddio dull cydlynol ar thema llechi i sicrhau gwell dealltwriaeth o gyd-destun diwylliannol a threftadaeth STyB, bydd hyn hefyd yn cynnwys gwella manau gwyrdd i'r cyhoedd eu defnyddio.

Bydd pob ardal yn gweld creu manau addysgol (manau addysg ffurfiol ac anffurfiol a manau hyfforddi), ac elfen o leoliadau yn y gymuned ble fydd manau aml-swyddogaeth ar gael i amrywiaeth o weithgareddau.

Bydd y gwelliannau mynediad ar draws y tair ardal yn cyfrannu at well iechyd meddwl a chorfforol trigolion ac ymwelwyr.

Gellir gweld allbynnau manylach gyda phob elfen o'r prosiectau yn y model Damcaniaeth Newid.

Bydd y Cynllun Monitro a Gwerthuso yn nodi allbynnau a deilliannau'r prosiect fel a welir yn y rhan berthnasol o'r ffurflen hon.

Uwchlwytho Damcaniaeth Newid (dewisol)

Y Model Damcaniaeth Newid.pdf

6.14. Eglurwch sut mae'r prosiectau cydran yn eich pecyn bid yn cyd-fynd â'i gilydd ac yn cynrychioli cyfres resymegol o ymyriadau

Mae'r pecyn bid wedi ei greu yn ofalus i gael y budd mwyaf o statws STyB i gymunedau Gwynedd. Mae'r tri hwb yn ffurfio rhan o'r ymdrech strategol i drosglwyddo stori STyB i drigolion ac ymwelwyr mewn modd cydlynol a diddorol, gan hefyd wella mynediad ffisegol at yr asedau hanesyddol drwy greu llwybrau llesiant. Bydd elfennau'r prosiectau unigol i gyd yn cyfrannu at nod cyffredinol STyB, gyda'r cyfan yn ategu ei gilydd gan gyflwyno allbynnau a chynnyrch tebyg.

6.15. Nodwch sut fydd arian cyhoeddus a phreifat arall yn trosoli fel rhan o'r ymyriad

Mae ariannu cyhoeddus a phreifat yn dal i ac wedi cael ei sicrhau fel rhan o'r prosiect. Mae cais y Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer £18,830,189 yn cyfateb i 70% o gyfanswm y cronfeydd, gyda'r gweddill wedi ei drosoli o ffynonellau eraill.

Mae cefnogaeth uniongyrchol o'r sector cyhoeddus yn deillio o Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd, ac yn cyfateb i £7,019,000 (88%) o'r holl arian.

Mae cefnogaeth anuniongyrchol o'r sector cyhoeddus yn deillio o grantiau a sicrhawyd gan bartneriaid allanol yn cynnwys Croeso Cymru. Bydd y swm sy'n weddill yn cael ei ddarparu gan bartneriaid trydydd sector gan ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain i ariannu elfennau o'u prosiectau, a grantiau fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

6.16. Eglurwch sut mae eich bid yn cyd-fynd gyda ac yn cefnogi'r strategaethau lleol perthnasol a'r amcanion lleol ar gyfer buddsoddi, gwella isadeiledd a thyfiant bro.

LLYWODRAETH CYMRU

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Llywodraeth Cymru (2015): mae gan y prosiect synergeddau cryf gyda nod y bil i gyfrannu at lesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl Cymru. Ceisia'r prosiect hwn gyflawni goliau Cymru ffyniannus, gydnerth, iachach, gydlynol a bywiog.

Rhaglen Lywodraethu (2021-2026): ymrwymadau uchelgeisiol i'w cyflawni dros 5 mlynedd i fynd i'r afael gyda'r heriau bod Cymru yn wynebu ac yn gwella bywydau pobl ar draws Cymru. Mae'r cyfeiriadau sy'n berthnasol i'r prosiect yma yn y strategaeth yn cynnwys:

- Cefnogi'r cais i adnabod tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru fel Safle Treftadaeth y Byd

- Datblygu cynlluniau ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol Cymru (cam 2 o ddatblygiad Amgueddfa Lechi Cymru)

Trawsnewid Trefi (2020) yw agenda ar egwyddor Canolfan Tref yn Gyntaf ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru gyda adfywio canolfan trefi yn ganolog i holl fuddsoddiad sector cyhoeddus. Mae'r prosiect yn cyflawni ar yr egwyddor yma ac yn cyfrannu tuag at sicrhau adfywio a defnydd arloesol o ganolfannau trefi, a gwelliannau tir y cyhoedd yng nghanol trefi.

Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr (2020-2025) :

mae'r prosiect yn unol â'r uchelgeisiau cydnabyddedig ar gyfer y diwydiant twristiaeth i "dyfu twristiaeth sy'n sicrhau budd i bobl a lleoedd gan gynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol, cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol a buddiannau iechyd", ac yn benodol gwneud y mwyaf o'r cyfle unigryw a gynigir gan ddynodiad STyB i dargedu gwahanol farchnadoedd o ymwelwyr i ddod â manteision i'r ardaloedd llechi y tu allan i'r tymor.

Mae Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru (2021) yn cynnwys teithio llesol, ar fws, ar drên, sy'n ategu gweledigaeth Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, i "gael gwared ar rwystrau i dwf economaidd, ffyniant a lles trwy gyflwyno rhwydweithiau trafndiaeth diogel, cynaliadwy, fforddiadwy ac effeithiol"

Mae Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru Llywodraeth Cymru yn gweld diwylliant fel rhan bwysig o bob rhan o bolisi llywodraeth yng Nghymru yn cynnwys datblygu economaidd, twristiaeth, adfywio, perthnasau rhyngwladol, iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, sgiliau, mynd i'r afael â thlodi, cydraddoldeb a'r Gymraeg a gwirfoddoli. Mae STyB a'r prosiect yma yn cyd-fynd yn union gyda'r weledigaeth yn y ddogfen hon.

GOGLEDD CYMRU

Cynllun Twf Gogledd Cymru (2020) :mae'r prosiect yn cyd-fynd gyda chanlyniadau strategol y Cynllun Twf i gyflawni ffyniant twf yn y rhanbarth ac i

greu swyddi o ansawdd gwell i'r gymuned leol. Bydd y sylfeini a ddatblygir drwy'r prosiect yma yn caniatáu ar gyfer twf economaidd.

CYNGOR GWYNEDD

Cynllun Gwynedd (2018-2023) yw cynllun corfforaethol Cyngor Gwynedd. Ymysg blaenoriaethau eraill, mae blaenoriaethau'r Cynllun sy'n berthnasol i'r prosiect yn cynnwys adfywio cymunedau, uchafu potensial ein Tirwedd Llechi, yr angen i ddatblygu Cynllun Twristiaeth Cynaliadwy i'r ardal, Sgiliau a'r Gymraeg. Mae'r prosiect yma yn cwrdd â blaenoriaethau'r Cynllun ac fe'i gwelwyd fel blaenoriaeth i'r Cyngor ers 2013.

Mae Fframwaith Adfywio Gwynedd (2021) wrthi'n cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei offen yn ystod yr haf 2021. Bydd y Fframwaith yn darparu cyfeiriad clir i Fwrdd Adfywio Gwynedd i gyflawni dull traws-adrannol ar gyfer adfywio. Bydd y Fframwaith hefyd yn cynnwys Cynlluniau Ardal. Bydd cynlluniau unigol i dair ardal y prosiect ac mewn ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus eang, byddant yn adnabod blaenoriaethau'r ardal.

Egwyddorion Economi Ymwelwyr Cynaliadwy (2021) Mae Cyngor Gwynedd mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cynnal adolygiad ymgynghori ar weledigaeth newydd i'r economi ymweld yn y Sir. Mae hyn yn cyflwyno'r weledigaeth ddrafft i "economi ymweld er budd a lles trigolion Gwynedd". Mae cymunedau a phobl Gwynedd yn ganolog i'r thema sy'n cefnogi egwyddorion y prosiect yma trwy Ddathlu, Parchu a Gwarchod Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth a Chynnal a Pharchu'r Amgylchedd.

Cynllun Celfyddydau Gwynedd - gyda'r weledigaeth "Cydwethio i gefnogi pobl Gwynedd i gael mynediad, mwynhau a phrofi'r celfyddydau - er mwyn llesiant unigol, cymdeithasol, economaidd a chymunedol". Mae'r prosiect yma yn cyfrannu at y weledigaeth drwy ddarparu lleoliadau newydd ar gyfer gweithgareddau diwylliannol a'r celfyddydau mewn cymunedau, gyda chyfle i weithgareddau ar thema llechi yn gyfle amlwg.

STRATEGAETHAU/POLISIÂU LLEOL

Gwneir cyfeiriadau at strategaethau a pholisïau lleol yn y cwestiwn blaenorol am ymgysylltu lleol ac maent yn cynnwys: - Cynllun Strategaeth Safle Treftadaeth y Byd - Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru 2020-2030 - Cynllun Cyrchfan Cymuned Dinorwig - Cynllun Cyrchfan Cymuned Ogwen - Cynllun Cyrchfan Cymuned Ffestiniog - Cynllun Dehongli Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru Safle Treftadaeth y Byd - 'An Assessment of the Current and Potential Economic Impact of Heritage' a baratowyd gan Dîm Ymchwil Economaidd TBR a Redbanks Consulting

6.17. Eglurwch sut mae eich bid yn cyd-fynd gyda ac yn cefnogi amcanion polisi Llywodraeth y DU

Papur Gwyn Ffyniant Bro (2022) bydd y prosiect yn cyfrannu yn uniongyrchol at y Genhadaeth Ffyniant Bro o adfer ymdeimlad o gymuned, balchder a pherthyn lleol, yn enwedig yn y manau hynny lle maent wedi'u colli: mae'r cymunedau llechi wedi colli eu hunaniaeth ers i'r diwydiant edwino, mae STyB yn gyfle unigryw i ail-gysylltu'r cymunedau hyn gyda'u diwylliant a'u treftadaeth gyfoethog, gan fagu balchder, cadernid a dealltwriaeth ymysg trigolion am gyfraniad pwysig yr ardal i dreftadaeth fyd-eang.

Bydd Cynllun Llywodraeth y DU ar gyfer Cymru (2021) yn cefnogi rhaglen adnewyddu uchelgeisiol fydd yn creu swyddi a ffyniant i'n cymunedau lleol. Mae'r prosiect yma yn benodol yn cyfrannu at Ran 4 o'r strategaeth 'Wales at the heart of a prosperous United Kingdom' ble mae'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn thema allweddol.

Mae Build Better Back : Our Plan for Growth (2021) yn cydnabod yr heriau sydd wedi wynebu'r economi a'r cymunedau yn ystod y 18 mis diwethaf. Mae adfywio cymdeithasol ac economaidd yn ganolog i'r nod o adfer cymunedau. Bydd y buddsoddiad arfaethedig drwy'r prosiect yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer newid ac adfywio yn y dyfodol.

Mae'r Culture White Paper (2016) yn nodi'r angen i osod Safon byd-eang o ran stiwardio Safleoedd Treftadaeth y Byd gan hefyd hyrwyddo Datblygiad cynaliadwy a sicrhau bod ein safleoedd yn cael eu gwarchod. Mae'r prosiect yma yn nodi cyfres o ymyriadau cynaliadwy, mesuradwy i wella cynnig STyB yng Ngwynedd, gan hefyd hwyluso perchnogaeth y gymuned er gwarchod y safle a'i Gwerth Rhyngwladol Eithriadol i genedlaethau'r dyfodol.

Bydd yr holl elfennau yn y prosiect yn ategu polisiau amgylcheddol Llywodraeth y DG a Llywodraeth Cymru a'r symudiad i leihau carbon a chefnogi teithio gwyrdd a chynaliadwy.

Gweler y cwestiwn blaenorol i gyfeirio yn benodol at strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru.

6.18. Cyd-fynd gyda a chefnogaeth i fuddsoddiadau presennol - Ble mae'r ymgeiswyr yn egluro sut mae'r bid yn ategu at neu'n cyd-fynd gyda a chefnogi buddsoddiadau presennol/neu rhai wedi eu cynllunio yn yr un ardal

Mae'r prosiect yn darparu elfen ychwanegol at y prosiectau presennol, a byddant yn galluogi ymyriad llawer mwy fyddai'n digwydd heb gefnogaeth y Gronfa Ffyniant Bro:

- prosiect cydlynu cymunedol LleCHI Cyngor Gwynedd 2018-2022 prosiect Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (£405,000)

- arian cam datblygu Cyngor Gwynedd 2020-2023 Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (£103,000) gyda'r potensial o £1,000,000 arian 2023-2028
- gwelliannau mynediad Parc Padarn drwy Croeso Cymru, Cronfa Pethau Pwysig (£250,000)
- buddsoddiad Llywodraeth Cymru yng nghamau cychwynol llunio llwybrau beicio a cherdded rhwng Bethesda a Chwarel y Penrhyn a Blaenau Ffestiniog a Chwarel Llechwedd. Nid yw'r cyllid ar gyfer ei weithredu wedi ei adnabod.

Yn ogystal, mae'r prosiect yn sbardun ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol:

- Cam 2 ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru i greu Amgueddfa'r Gogledd yn Ninorwig - arian i gael ei ganfod
- Cam 2 o ddatblygiad ffisegol hybiau Llechi ar draws STyB gan Gyngor Gwynedd - arian i gael ei ganfod
- Datblygu canolfan sgiliau traddodiadol yn STyB - lleoliad a chyllid i'w canfod

Newid - Ble fo'n gymwys eglurwch sut mae'r bid yn ategu neu yn cyd-fynd gyda ac yn cefnogi buddsoddiadau presennol a/neu rai a gynllunnir yn yr un ardal

6.19. Cadarnhewch pa Genhadaeth Papur Gwyn Ffyniant Bro mae eich prosiect yn cyfrannu ato - Dewiswch Cenhadaeth Papur Gwyn Ffyniant Bro (tud. 120-21)

Isadeiledd Trafnidiaeth Addysg Sgiliau Iechyd Llesiant Balchder Lle

Newid Dewis Cenhadaeth Papur Gwyn Ffyniant Bro (tud. 120-21)

6.20. Ysgrifennwch frawddeg fer i ddangos sut mae eich bid yn cyfrannu at y Genhadaeth(au)

Bydd llwybrau beicio a cherdded yn cael eu creu drwy'r prosiect fydd yn cyfrannu at genhadaeth isadeiledd trafndiaeth, fydd yn ei dro yn arwain at well iechyd a llesiant.

Bydd y ddarpariaeth addysg a sgiliau yn cael ei gwella ar draws y tair ardal drwy wella lleoliadau ar gyfer yr hyfforddiant a gynhelir, gan hefyd greu cyfleoedd addysg anffurfiol fydd yn annog y rhai nad ydynt yn amlwg yn gysylltiedig ag addysg yn ôl i addysgu.

Mae Balchder Lle yn ganolog i'n bid, ac i STyB yn gyffredinol.

Bwriad y prosiect yw ail-gysylltu pobl gyda eu treftadaeth gyfoethog, cynyddu'r gwerthfawrogiad ymysg cymunedau lleol am ddylanwad sylweddol y gornel hon o Gymru ar weddill y byd, ac i fwy o hyder lleol a balchder wrth ddiogelu ein treftadaeth, diwylliant ac iaith.

ADRAN 7: Yr Achos Economaidd

7.1. Darparwch y dystiolaeth ddiweddaraf i ddangos graddfa ac arwyddocâd problemau a materion lleol

Mae wardiau Bowydd a Rhiw a Diffwys (ardal Blaenau Ffestiniog) a Deiniolen (ardal Dinorwig) wedi'u rhestru yn y 40% o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae wardiau Ogwen 1 ac Ogwen 2 (ardal Ogwen) yn y 50% o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl WIMD 2014

Mae pob ward ymysg y 50% uchaf o wardiau mwyaf difreintiedig Cymru o ran cyflogaeth, iechyd a diogelwch cymunedol (ac mae ward Ogwen 2 ymysg y 10% o wardiau mwyaf difreintiedig Cymru o ran diogelwch cymunedol). Mae pob ward yn y 40% uchaf/gwaethaf o ran incwm.

Mae ward Bowydd a Rhiw ymysg y 10% o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran tai, ac mae Deiniolen ymysg yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran mynediad at Wasanaethau.

Mae gan Bethesda boblogaeth o 8586, mae gan yr ardal % uwch na chyfartaledd y sir o bobl sydd mewn amddifadedd incwm, ac mae'n gyfartal â'r cyfartaledd cenedlaethol o bobl o oed gweithio sydd mewn amddifadedd cyflogaeth.

Mae gan ardal Blaenau Ffestiniog gyfradd farwolaeth gynnar sy'n uwch na chyfartaledd y sir a'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae'n gyfartal â'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y % o bobl sydd mewn amddifadedd incwm, ac amddifadedd cyflogaeth ymysg pobl o oed gweithio. Roedd Blaenau Ffestiniog yn ardal Cymunedau'n Gyntaf, rhaglen gan Lywodraeth Cymru oedd Cymunedau'n Gyntaf a'i nod oedd lleihau tlodi. Roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar y gymuned gan gefnogi'r bobl mwyaf difreintiedig yn ardaloedd fwyaf difreintiedig Cymru gan anelu i gyfrannu at liniaru tlodi parhaus. Ardal Ffestiniog sydd â'r canolrif incwm net aelwydydd isaf yng Ngwynedd, ynghyd â'r canolrif prisiau tai isaf yng Ngwynedd sydd ond yn £95,000 o gymharu â £162,000 ar lefel Cymru.

Yn ogystal, mae COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar gyflogwyr a busnesau ar draws y sir trwy gydol 2020/21. Caeodd amrediad eang o fusnesau yn ystod rhan gyntaf 2020/21 ac effeithiodd hyn yn andwyol ar economi'r sir. Mae nifer y busnesau, lefelau cynhyrchiant (GVA fesul gweithiwr) a gwerth y busnesau wedi gostwng o ganlyniad i hyn. Mae Brexit hefyd wedi peri heriau i nifer o fusnesau, yn enwedig busnesau sy'n ddibynol ar fewnforio ac allforio nwyddau allweddol ac mae amrediad eang o fusnesau yn ei chael yn anodd recriwtio digon o weithwyr.

Mae lefelau cyflog yng Ngwynedd yn parhau yn llawer is na rhannau eraill o Gymru a'r DU ac mae gwerth cynhyrchiant busnesau Gwynedd yn isel o

gymharu ag ardaloedd eraill.

Mae'r diwydiant twristiaeth yn gyflogwr allweddol yng Ngwynedd (gyda gwerth economaidd o bron i £1.35 biliwn a mwy na 18,200 o bobl wedi'u cyflogi yn y sector hwn yn 2019). Fodd bynnag, cafodd yr economi ymwelwyr ei effeithio'n sylweddol gan COVID-19 gyda busnesau ar gau am gyfnodau sylweddol a digwyddiadau'n cael eu canslo. Mae hefyd yn sector sy'n cyflogi ar sail dymhorol yn draddodiadol, ac mae'r cyflogau yn isel o gymharu â sectorau eraill. Golygodd effaith COVID-19 fod gwerth y sector wedi gostwng i oddeutu £575 miliwn yn 2020 a chyflogaeth wedi gostwng i 9,570. Fodd bynnag, wrth i'r cyfyngiadau godi, mae nifer yr ymwelwyr i'r prif gyrchfannau twristiaeth (yn cynnwys y dirwedd llechi) wedi cynyddu'n sylweddol, gan roi cymunedau lleol dan bwysau. Dyma pam fod yr ymyraethau arfaethedig megis y gwell cysylltiadau cerdded a beicio rhwng y cymunedau a'r chwareli, gwell darpariaeth dehongli ac ymyraethau canol trefi yn cefnogi'r economi hamdden ac ymweld wrth iddo adfer (bydd hefyd yn cefnogi ffyniant y ddyffrynnoedd llechi a'r rhanbarth ehangach).

Mae gwybodaeth ystadegol am yr ardal i'w chael yn Atodiad 9.

7.2. Dangoswch sicrwydd ansawdd dadansoddi data a thystiolaeth ar gyfer egluro graddfa ac arwyddocâd problemau a materion lleol

Mae'r data economaidd a gasglwyd i gefnogi'r angen i ymyrryd (a'r cyd-destun lleol) wedi dod o amryw o sefydliadau. Mae'r holl ddata sy'n ymwneud â nodweddion economaidd, amddifadedd ac iechyd Gwynedd a'r dair cymuned wedi dod o dîm Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd, er enghraifft. Casglodd y tîm y data amddifadedd a'r prif ffynhonnell oedd cyfresi data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2014 tra bod ffynonellau data eraill yn cynnwys Swyddfa Ystadegau Gwladol y DU (ONS), a chomisiwn penodol i Ymgynghorwyr Burum fel rhan o ymarfer ymgynghori ArdalNI.

Mae data ONS yn ymwneud â metrigau megis Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) a GVA y pen ar gyfer sir Gwynedd yn ogystal â data o System NOMIS yr ONS (National Online Manpower Information System) sy'n cynnwys ystadegau marchnad lafur y sir.

Defnyddiwyd y data mwyaf cyfredol ac mae'r data o bob un o'r ffynonellau hyn yn cael ei gydnabod gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel y data mwyaf cadarn ym mhob un o'r meysydd penodol hyn.

7.3. Dangoswch fod y data a'r dystiolaeth a gyflenwyd yn briodol i ardal ddylanwad yr ymyraethau

Mae'r data a ddarparwyd yn ddadansoddiad Cymru gyfan o amddifadedd ar y lefel o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, mae'r rhain yn cyd-fynd yn eithaf gyda'r dair ardal lle y dymunwn greu'r hybiau llechi. Daw'r data hefyd o ymgynghoriad cyhoeddus ArdalNI a gynhaliwyd ar draws y sir lle adnabuwyd 13 o ardaloedd gan Gyngor Gwynedd sy'n cyfateb i ddalgylchoedd ysgolion uwchradd ac sy'n defnyddio pecynnau ymchwil mewnol i greu proffiliau ardal. Unwaith eto, mae'r proffiliau hyn yn cyfateb yn weddol i dair ardal yr hybiau llechi arfaethedig.

Pan fo hynny'n bosib, casglwyd data a metrigau cefnogol ar gyfer y dair gymuned, yn cynnwys data ar lefel ward (mae pob hwb wedi'i wneud o nifer o wardiau) neu ar lefel tref/pentref.

Os nag oedd data ar gael ar gyfer yr ardaloedd penodol, defnyddwyd data a metrigau ar gyfer y sir. Yn seiliedig ar ddata ONS ac ONS NOMIS, roedd y metrigau ar gyfer GVA a GVA y pen yn berthnasol i'r sir gyfan ac felly hefyd pob metrig allweddol yn ymwneud a'r farchnad lafur yn y sir (yr olaf o NOMIS)

7.4. Darparwch ddadansoddiad a thystiolaeth o sut bydd y cynnig yn ymdrin gyda phroblemau presennol a'r rhai a ragwelir yn y dyfodol.

Er ei bod wedi'i chadarnhau yn Safle Treftadaeth y Byd ar 28 Gorffennaf 2021, nid yw Tirwedd Llechi Gogledd Cymru yn cyflawni'r effeithiau economaidd a chymdeithasol a ragwelwyd wrth ddatblygu'r enwebiad.

Y prif broblem yw'r ffaith nad oes unrhyw fuddsoddiad sylweddol wedi'i wneud yn ein cymunedau, mewn dehongli nac mewn pobl i ddatlu ein treftadaeth ddiwylliannol unigryw ers sawl blwyddyn, ac nid oes dim i gymryd mantais o'n statws rhyngwladol newydd.

1997 oedd y tro diwethaf i Amgueddfa Lechi Cymru dderbyn buddsoddiad sylweddol. Mae'r arddangosfeydd yn hen ac nid ydynt yn adlewyrchu'r stori Treftadaeth y Byd. Mae'r adeiladau sydd o arwyddocâd hanesyddol angen gwaith cadwraeth ac mae angen i'r cyfleusterau gyfleu statws rhyngwladol y safle fel prif hwb y Dirwedd Llechi.

Mae angen i Barc Padarn adlewyrchu pwysigrwydd yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i gynyddu a hyrwyddo mynediad i'r chwareli a greodd y dirwedd. Ar hyn o bryd, un o'n prif broblemau a heriau yw nad yw'r safle wedi cael ei ddehongli mewn modd gydlynol, ac nid oes mynediad hawdd i'r adeiladau treftadaeth diddorol sydd ar y safle a'r chwarel ei hun. Mae angen i'r Parc ddatblygu rhaglen wirfoddoli i annog perchnogaeth leol o'r safle a meithrin parch a balchder yn y gymuned leol o strwythurau hanesyddol pwysig yr ardal er mwyn gostwng fandaliaeth a thramgwyddo.

Yn Ogwen a Ffestiniog, ein problem allweddol yw nad oes dehongliad o STyB

o fewn pentref Bethesda na thref Blaenau Ffestiniog ar hyn o bryd. Mae'r cymunedau lleol hynod weithgar wedi prynu hen eiddo masnachol a chyfleusterau diwylliannol gyda'r nod o ddatblygu canolfan ddeori busnes ffyniannus a hwb dehongli yn ogystal â gwasanaethau ieuencid a sgiliau gyda ffocws hefyd ar straeon treftadaeth pwysig yr ardaloedd a'u rhan yn STyB. Trwy integreiddio treftadaeth gydag unedau busnes a gweithgareddau ieuencid, gallai'r rhain ddod yn fodolau gweithredol cynaliadwy i gymunedau eraill eu hefelychu o fewn y dirwedd lechi.

Yn Ogwen fel yn Ffestiniog, her arall yw'r diffyg cyswllt rhwng y pentref/tref a'r chwarel a'u creodd. Trwy ddatblygu llwybrau llesiant cynaliadwy, eir i'r afael â'r broblem hon gan arwain at well cysylltedd rhwng safleoedd ac annog ymwelwyr ag atyniadau ar gyrion y cymunedau hyn i aros yn hwy a mentro i'r cymunedau i ddysgu mwy a phrofi eu treftadaeth a'u diwylliant cryf.

Mae ar y tair ardal angen buddsoddiad yn eu treflun a bydd y prosiect hwn yn gweithio gyda'r cymunedau i feithrin balchder lle ac ymdeimlad o le yn y tair ardal. Byddwn yn gweithio gydag artistiaid a phobl greadigol i greu celf gyhoeddus fel porth i STyB yn ogystal â sicrhau bod elfennau sylfaenol y cymunedau (e.e. biniau, toiledau, celfi stryd, isadeiledd digwyddiadau ac ati) o'r safon uchaf. Bydd hyn yn arwain at fwy o gyfleoedd ar gyfer digwyddiadau cymunedol a chynnydd mewn ymdeimlad o falchder yn ein cymunedau.

Mae'r prosiect hwn yn cynnwys tair elfen: 1) Hwb Dinorwig, 2) Hwb Ogwen 3) Hwb Ffestiniog.

Bydd y dair elfen hyn yn dwyn nerth newydd sydd wir ei angen i ddiwylliant a treftadaeth, gweithgarwch economaidd, cysylltedd, tir y cyhoedd a llesiant yn y dair ardal ac yn y rhanbarth ehangach. Yn ogystal â chynhyrchu amrediad o effeithiau cadarnhaol yn unigol, ar y cyd mae'r prosiectau'n alinio'n dda a'i gilydd ac yn rhan annatod o'r dyffrynnoedd llechi, ac adferiad y rhanbarth ehangach yn sgil pandemig COVID-19 yn ogystal â helpu i gyflawni sawl amcan ffyniant bro.

Mae'r modd y bydd y prosiectau hyn yn cyflawni'r amcanion hyn a'r math o fuddion a ddaw yn eu sgil wedi'i amlinellu isod.

Bydd Hwb Dinorwig yn cynhyrchu'r buddion a ganlyn:

- ymweliadau ychwanegol
- cyfranogiad ychwanegol mewn gweithgareddau diwylliannol
- cyfleoedd gwirfoddoli ychwanegol
- cefnogaeth i swyddi ychwanegol
- creu a gwella llwybrau
- adnewyddu ac adfer asedau treftadaeth

Bydd Hwb Ogwen yn cynhyrchu'r buddion a ganlyn:

- ymweliadau ychwanegol
- cyfranogiad ychwanegol mewn gweithgareddau diwylliannol
- cyfleoedd gwirfoddoli ychwanegol
- cefnogaeth i swyddi ychwanegol
- creu a gwella llwybrau
- creu unedau menter

Bydd Hwb Ffestiniog yn cynhyrchu'r buddion a ganlyn:

- ymweliadau ychwanegol
- cyfranogiad ychwanegol mewn gweithgareddau diwylliannol
- cyfleoedd gwirfoddoli ychwanegol
- cefnogaeth i swyddi ychwanegol
- creu a gwella llwybrau
- adnewyddu ac adfer asedau treftadaeth
- creu unedau menter

7.5. Disgrifiwch pa mor gadarn yw'r dadansoddiad a'r dystiolaeth a gyflenwyd fel methodoleg tybiaethau darogan ac allbynnau model

Mae budd economaidd buddsoddi yn STyB wedi cael ei asesu yn y ddogfen 'An Assessment of the Current and Potential Economic Impact of Heritage' a baratowyd gan Dîm Ymchwil Economaidd TBR a Redbanks Consulting.

Mae prif ganfyddiadau'r adroddiad yn nodi:

- Roedd economi treftadaeth Gwynedd yn cyflogi 8,250 o bobl yn 2014. Mae hyn yn cynrychioli 15% o'r holl gyflogaeth yn y sir.
- Cynhyrchodd treftadaeth £515 miliwn o drosiant yn 2014 a £180 miliwn mewn GVA yn 2014 (sy'n cynrychioli 6.2% o gyfanswm GVA Gwynedd).
- Twristiaeth treftadaeth yw'r mwyaf o'r tri segment o fewn yr economi treftadaeth; mae'n cyflogi 6,860 o bobl, yn cynhyrchu trosiant o £417 miliwn a GVA o £135 miliwn.
- Cyfrannodd treftadaeth llechi 710 o swyddi, trosiant o £53.4 miliwn, a GVA o £22 miliwn yn 2014. Mae pwysigrwydd llechi i segment Treftadaeth Craidd yn arwyddocaol: 41% o swyddi, 53% o drosiant, a 55% o GVA. Mae felly'n chwarae rôl o bwysigrwydd sylfaenol wrth danategu Treftadaeth Graidd yng Ngwynedd ac felly treftadaeth yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad yw ond yn gyfrifol am gyfran fechan o dwristiaeth treftadaeth yn y Sir; mae'r dystiolaeth yn awgrymu fod 4.3% o ymweliadau i atyniadau twristiaeth treftadaeth yng Ngwynedd yn rhai i atyniadau sy'n canolbwyntio ar lechi. Dylid gweld hyn fel cyfle, yn hytrach na gwendid, yn enwedig o ran yr effaith y gallai STyB ei gael ar y rhan hon o'r economi twristiaeth

Nodir yr effaith bosib yn y dyfodol fel:

-Ar gyfer prosiectau STyB penodol (e.e. Blaenafon) mae hi wedi bob yn bosib dyblu nifer yr ymwelwyr o fewn pum mlynedd i'r arysgrifiad. Mae sawl safle arall wedi gweld cynnydd blynyddol o 6% o ganlyniad i weithgareddau sydd wedi'u targedu at gynhyrchu nifer yr ymwelwyr. Felly, mae newid niferoedd a phroffil ymwelwr yn bendant yn bosib trwy weithredu STyB a rhaglenni datblygu cysylltiedig yn llwyddiannus.

-Mae lleoliadau sy'n cynnwys Safle Treftadaeth y Byd wedi profi twf economaidd ehangach o rhwng 1% a 3% yn y blynyddoedd yn dilyn arysgrifiad STyB - Prosiectau gyda niferoedd ymwelwyr isel sy'n elwa fwyaf o'r proffil y mae STyB yn ei roi i ddenu ymwelwyr newydd, ac mae'r rhain yn tueddu i fod yn unigolion sy'n gwario mwy.

-Gall yr enwebiad STyB a'r broses arysgrifio gynhyrchu PR sydd sydd werth symiau mawr a gall hyn dynnu sylw ymwelwyr rhyngwladol at bwysigrwydd ac arbenigrwydd safle. Mae gan hyn hefyd y potensial i ysgogi mwy o draffig twristiaeth.

-Gall cyflawni deilliannau rhagorol trwy ddefnyddio STyB helpu i leddfu problemau economaidd-gymdeithasol (yn sylweddol mewn rhai achosion) yn y lleoliadau o amgylch safleoedd STyB. Yn Vigan, gwelwyd lleihad o 46% i 9% mewn cyfraddau tlodi yn ystod y 18 mlynedd ar ôl arysgrifo.

-Mae'n bosib creu stori gydlynol mewn nifer o safleoedd sy'n ymddangos yn anghysylltiedig a gall hyn gael effaith sylweddol wrth ddenu ymwelwyr.

Y prif ganfyddiadau ynghylch yr effaith yn y dyfodol yw:

-Byddai parhad o'r tueddiadau presennol yn gweld y sector yn tyfu cyfanswm o 4% dros yr 16 mlynedd nesaf i 2030. Byddai hyn yn creu 370 o swyddi newydd yn y sector treftadaeth.

-Byddai peidio â buddsoddi mwy mewn treftadaeth yn arwain at dwf ychwanegol ymylol uwchben senario 0, oherwydd effeithiau buddsoddiad presennol a ddaw i'r amlwg yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn fras ond yn dyblu buddion Senario 0, gan greu 605 o swyddi (h.y.7% dros 16 mlynedd).

-Cais STyB llwyddiannus sy'n cael ei ddefnyddio'n llawn yw'r senario mwyaf deniadol o bell ffordd gan ei fod yn cyflawni'r cynnydd mwyaf mewn lefelau cyflogaeth ac yn awgrymu y gallai'r economi treftadaeth gynyddu o dros ddau draean (68%) erbyn 2030. Byddai'r senario hwn yn creu dros 5,750 o swyddi ychwanegol erbyn 2030, trosiant blynyddol ychwanegol o £335 miliwn y flwyddyn, a GVA ychwanegol o £127 miliwn y flwyddyn erbyn 2030.

-Gallai mwy o fuddsoddiad heb STyB gyflawni budd economaidd sylweddol trwy dwf mewn cyflogaeth ac mae'n ymddangos mai hwn yw'r ail ddewis mwyaf deniadol, er mae'r adenillion ar fuddsoddiad yn sylweddol is.

-Bydd paratoi'r enwebiad STyB ynddo ei hun yn darparu enillion economaidd.

Ceir copi o'r Adroddiad llawn yn Atodiad 10.

Mae pob elfen o'r prosiect wedi cael ei foddelu'n ariannol i ragweld costau

gweithredu'r ymyraethau, a'r costau/rhwymedigaethau referniw wrth symud ymlaen ar ôl y buddsoddi cychwynnol.

7.6. Eglurwch sut mae costau economaidd y bid wedi'u cyfrifo, yn cynnwys costau oes gyfan

Fel yr amlinellir yn llyfr gwaith y prosiect, mae costau economaidd y cais wedi'u cyfrifo yn unol â'r canllaw Ffyniant Bro a methodoleg a chanllawiau Llyfr Gwyrdd y Trysorlys.

Mae timau prosiect wedi datblygu costau Achos Ariannol y tri phrosiect y fanwl o ran cynigion penodol y prosiectau, ar brisiau alldro ac yn cynnwys datblygiad briff, datblygiad dyluniad a chaniatáu ar gyfer risg adeiladu annisgwyl. Yn ogystal, mae Cyngor Gwynedd wedi ychwanegu elfen risg gyffredinol ychwanegol i bob prosiect i warchod yn erbyn newidiadau cost cyffredinol dros y cyfnod cyflawni, yn cynnwys newidiadau i gyfraddau chwyddiant y diwydiant adeiladu yn y farchnad anwadal sydd ohoni. Mae hyn yn ymddangos fel eitem linell ar wahân yn y tri dadansoddiad costau prosiect yn nhabl C.

I gyfrifo'r costau economaidd, rydym wedi diystyru/gostwng lwfansau chwyddiant i flwyddyn sylfaen 2022/23 ac wedi gwirio'r gostyngiad dilynol i'r gost economaidd gan ddefnyddio'r datchwyddwr GDP. Felly, y costau economaidd a nodir yw gwir gost gwireddu'r prosiectau ar brisiau 2022/23.

Mae risgiau ac ansicrwydd costau wedi cael eu hystyried drwy gydol gwaith ddatblygu'r tri phe cyn a'u prosiectau cyfansoddol, ac yna yn natblygiad ariannol cyffredinol y cais. Mae prosiectau unigol wedi cael eu hasesu a chostau wedi'u rhagweld ar sail asesiad gofalus o'r risgiau a nodwyd gan ganiatáu ar gyfer risgiau annisgwyl.

Mae Tuedd Optimistiaeth wedi cael ei asesu ar draws pob un o'r tri phe cyn ac rydym wedi caniatáu ar gyfer 11.4%. Mae hyn yn seiliedig ar y terfyn uchaf o 24% TO ar gyfer Adeiladau Safonol, ac mae'r mesurau lliniaru wedi'u crynhoi yn y tabl isod. Mae'r prosiect wedi'i ddsbarthu fel 'safonol' yn hytrach nac 'ansafonol' gan nad yw'n "cynnwys ystyriaethau dylunio arbennig oherwydd cyfyngiadau gwagle, nodweddion safle cymhleth, adeiladau arloesol arbenigol neu fanylebau alldro anarferol". Mae gan Gyngor Gwynedd brofiad helaeth o weithio yn safleoedd a'r amgylchedd hyn a gwelir hyn fel y lefel briodol o gymhlethdod. Mae mesurau lliniaru wedi cael eu defnyddio ar gyfer:

Ffactorau Penodol Cleientiaid
Ffactorau Penodol Prosiectau
Caffael
Amgylchedd
Ffactorau Allanol

Ar gyfer yr holl brosiectau hyn, mae'r prosiectau'n elwa o ddealltwriaeth cleient llawn a manwl ar gyfer yr holl elfennau prosiect a phrofiad helaeth yn yr amgylcheddau hyn, y graddau o fanylion ymarferol sydd eisoes wedi'u cwblhau o ran holl elfennau'r cais, yn cynnwys gwerthusiad opsiynau, hyder yn systemau caffael Cyngor Gwynedd a dadansoddiad marchnad adeiladu manwl diweddar, cymunedau lleol cefnogol a phartneriaid cyflawni prosiect ym mhob un o'r tri lleoliad a'r gefnogaeth gyffredinol a'r gwaith partneriaeth gydag asiantaethau statudol a Llywodraeth Cymru.

7.7. Disgrifiwch sut mae'r manteision economaidd wedi cael eu hamcangyfrif

Mae gwerth diwylliannol a threftadaeth y prosiect wedi cael ei asesu yn seiliedig ar y Dull Cyfalaf Treftadaeth fel yr amlinellir gan DCMS, sy'n ganllaw atodol i'r Llyfr Gwyrdd.

Yr Asedau Diwylliant a Threftadaeth cydnabyddedig ar restr DCMS sydd wedi'u cynnwys yn prosiect hwn yw:

-Yr Amgylchedd Hanesyddol Adeiledig - adeiladau rhestredig, ardaloedd cofrestredig (e.e. Amgueddfa Llechi Cymru, Hafod Owen, Chwarel Llechi Vivian) - Tirweddau ac Archaeoleg - nodweddion hanesyddol yn y dirwedd (e.e. adfeilion, safleoedd archeolegol) - Casgliadau a threftadaeth symudol-casgliadau amgueddfeydd - Perfformiad a lleoliadau perfformiadau - Neuadd Ogwen - Asedau Digidol - ymgysylltu rhithiol a dehongli

Yn ychwanegol i'r asedau a nodir uchod, mae yna asedau annirweddol cryf yn gysylltiedig â'r prosiect hwn, y mwyaf nodedig yw'r iaith Gymraeg, yn ogystal â thraddodiadau, straeon ac arferion lleol. Er nad oes ond gwerth ariannol cyfyngedig i'r rhain, maent yn gwneud cyfraniad sylweddol i fudd y prosiect, a bydd yr asedau ffisegol a ariennir trwy'r prosiect yn sicrhau parhad a datblygiad asedau annwireddol.

Mae cydrannau'r cais hwn yn ymateb i wendidau economaidd yr ardal leol trwy fuddsoddi'n gymesur mewn isadeiledd

Ar lefel cyfrifo buddion unigol y tri phecyn yn benodol, nid yw'r buddion ond wedi'u hadnabod a'u mesur mewn gwerth ariannol pan fo eglurder o ran y budd sydd i'w gyflawni, tystiolaeth o'r cwantwm o fudd sy'n cael ei gyflawni a gwerthoedd addas a chadarn y gellid eu defnyddio i roi gwerth ariannol ar y budd. Mae'r holl fuddion wedi bod yn destun dadleoliad, gollyngiad a bias optimistiaeth ac mae modd mesur hwy oll yn ystod ac ar ôl cyflawni fel rhan o'n cynllun M&E.

Mae manylion y dull hwn wedi'u hamlinellu yn yr atodiad methodoleg economaidd, ond dyma grynodedb fel a ganlyn:

Mae buddion ymweliadau ychwanegol i leoliadau diwylliannol yn sefydlu rhagamcanion sy'n seiliedig ar y cynllun busnes o ran nifer yr ymweliadau, y

patrwm a ragwelir o ran eu tarddiad ac ychwanegiad dros lefelau presennol ymweld, ac mae'n berthnasol i werth economaidd yn seiliedig ar darddiad ymweliadau a data STEAM ar gyfer Gwynedd ar gyfer cyfraniad economaidd pob ymweliad. Gwneir gostyngiad ar gyfer difuddiant (a fyddai'r ymweliad wedi digwydd beth bynnag?) dadleoli a gollyngiad o economi Gwynedd.

Nid yw buddion cyfraniadau diwylliannol ychwanegol a gwirfoddoli wedi'u cynnwys ar gyfer ymweliadau cyffredinol fel yr uchod, er mwyn osgoi eu cyfrif ddwy waith, ond yn hytrach i grwpiau a chyfranogwyr sy'n ymgysylltu mewn gweithgareddau penodol yn y safleoedd ymyrryd - a rhoddir gwerth ariannol ar hyn gan ddefnyddio meincnodau cenedlaethol sefydledig (Fujiwara et al 2013 report for Cabinet Office and DWP in 2013, ONS and NCVO research on volunteering benefits). I'n dibenion ni, rhoddir yr un gwerth ar gyfranogi mewn amgylcheddau naturiol a threftadaeth trwy lwybrau newydd ac atgyweirio.

Rhoddir gwerth ar swyddi ychwanegol uniongyrchol yn unol â Mynegai Cynhyrchiant yr ONS (2019) ar gyfer Gwynedd. Caniateir y rhain yn unig i swyddi uniongyrchol yn y prosiectau, er mwyn peidio â chyfrif buddion economaidd sy'n llifo drwodd i economïau lleol ddwywaith, gaiff eu cyfrif gan y fethodoleg uchod a arweinir gan ymwelwyr.

Mae'r buddion a gyfyd o adfer adeiladau treftadaeth a thirweddau wedi eu hasesu yn erbyn cost amgen gwaith cynnal a chadw ymatebol a'r gwaith diogelwch sy'n gysylltiedig fyddai'n cael eu hachosi pe na byddai'r prosiect yn mynd rhagddo - yn ei dro wedi ei seilio ar arolygon cyflwr wedi eu costio a chost gwaith arfaethedig.

Caiff unedau menter sydd o fudd i fentrau lleol yn cael eu cyfrif ar sail cost amgen darpariaeth o gyfleusterau cyffelyb pe na byddai'r prosiect yn mynd rhagddo.

7.8. Darparwch grynodeb o'r Gwerth am Arian cyffredinol y cynnig

Cafodd gwerth am arian cyffredinol y prosiect ei asesu drwy ddefnyddio'r methodoleg Llyfr Gwyrdd ac yn unol â'r llyfr gwaith - nid oes unrhyw newidiadau manwal wedi eu gwneud i'r allbynnau/canlyniadau na'r BCR (Cymhareb budd-cost addasedig).

Yn gyffredinol, y BCRs i'r tri phrosiect yw:

Hwb Dinorwig - BCR cychwynnol 2.28, addaswyd 2.96

Hwb Ogwen - cychwynnol BCR 2.85, addaswyd 3.41

Hwb Ffestiniog - cychwynnol BCR 2.41, addaswyd 3.02

Defnyddiwyd y mesur canlynol ar draws y tri phrosiect i diffinio'r buddion a ddyrannwyd i'r BCRs cychwynnol ac addasedig:

Mae'r BCRs cychwynnol yn cael eu cyfrif yn ôl y buddion sydd yn gryf a ble mae'r budd yn llifo yn uniongyrchol i fuddiolwyr penodol, neu yn deillio o lwyddiant targedau clir y gellir eu mesur.

Mae BCRs addasedig yn cynnwys gwerthoedd a fewnbynwyd sy'n llifo o lif budd llai unigol, er enghraifft o adfer adeiladau treftadaeth, ac yn nodweddiadol maent yn cael eu prisio gan ddefnyddio methodolegau cost amgen neu buddsoddi i arbed.

Dylid nodi bod llawer o fuddion nad ydynt yn cael eu dal yn y BCRs:

Nid ydym wedi ceisio rhoi gwerth yn y llyfr gwaith i'r newidiadau mewn costau net refeniw hirdymor y gweithrediadau. Ymysg yr ymyriadau a gynlluniwyd bydd rhai yn cynhyrchu arbedion rheolaidd hirdymor oherwydd yr incwm refeniw o'r cynnydd mewn defnydd a thebyg. Mewn gwirionedd costau cylch bywyd yw'r rhain ac er bydd ganddynt werth amlwg o ran oes gyfan, mae'n anodd prisio hyn ar ffurf y llyfr gwaith, ac mewn rhai achosion byddent yn ansicr yn y tymor hwy, felly nid ydym wedi cyfrif y symudiadau cost cylch bywyd i ddibenion y dadansoddiad yma.

Mae amrediad eang o fuddion annirweddol neu rai â gwerth ariannol fel a nodir yn y rhan yma fydd er hynny ag effeithiau hynod o gadarnhaol o safbwynt hyn nid yn unig i gymunedau lleol, ond hefyd i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a deuddeg cenhadaeth Ffyniant Bro Llywodraeth DU. Er mwyn cyfyngu ein buddion â gwerth ariannol i allbynnau a chanlyniadau cyffredinol uniongyrchol a mesuradwy, nid ydym wedi rhoi gwerth i'r effeithiau hyn yn y model.

Uwchlwythwch nodyn eglurhaol (dewisol)

Dull economaidd Cyngor Gwynedd.pdf

7.9. A oes gennych amcangyfrif Cymhareb Budd-Cost (BCR)?

Oes

Cymarebau Budd-Cost

Cymhareb budd-cost gychwynnol

2.41

Cymhareb budd-cost addasedig

3.02

7.10. Disgrifiwch beth yw effeithiau'r bid sydd heb werth ariannol a ddarparu crynodeb o sut mae'r rhain wedi cael eu hasesu

Bydd gan y bid nifer o effeithiau sydd heb werth ariannol wedi'u cynhyrchu gan wahanol elfennau'r pecyn.

Bydd y pecyn yn hybu pa mor ddeniadol yw'r cymunedau llechi fel Hybiau STyB ar gyfer dehongli, diwylliant, treftadaeth a thwristiaeth. Mae gan yr ardal rôl bwysig i'w chwarae yn y cyfnod adfer ar ôl COVID yng Ngwynedd a bydd yr ymyraethau a gynhyrchir yn sgil y Gronfa Ffyniant Bro yn hwyluso mwy o ddatblygiad economaidd yn yr ardal. Bydd hyder lleol yn cynyddu o ystyried effaith bositif y buddsoddiad.

Byddai effeithiau eraill sydd heb werth ariannol yn cynnwys yr hyn a ganlyn:

- Cryfhau'r iaith Gymraeg
- Mwy o falchder mewn cymunedau a hyder yn seiliedig ar dreftadaeth a diwylliant lleol
- Ymwelwyr yn dod i ddeall mwy am werth cyffredinol eithriadol y STyB
- Tir y cyhoedd wedi'i wella yn y dair cymuned llechi
- Gwell cysylltedd i asedau treftadaeth, llwybrau hamdden ac atyniadau twristiaeth
- Sefydlu cysylltiadau beicio/cerdded rhwng cymunedau llechi a chwareli gerllaw ac asedau cysylltiedig
- Galluogi gweithgareddau hamdden 'drwy gydol y flwyddyn' yn dirwedd llechi
- Gwella apêl atyniadau twristiaeth;
- Galluogi'r rhai sydd yn fethedig neu yn anabl i fwynhau mynediad newydd i Chwarel Dinorwig
- Hyrwyddo iechyd a llesiant
- Gwella'r amgylchedd a chynaliadwyedd
- Mwy o hyder ymysg busnesau lleol a chymunedau
- Creu cyfleoedd i ategu at y dirwedd ag arwyddocâd treftadaeth STyB

7.11. Darparwch asesiad o'r risgiau a'r ansicrwydd a fedrai effeithio ar Werth am Arian cyffredinol y bid

Y prif risgiau ac ansicrwydd o ran Gwerth am Arian y prosiect yw:

Bod costau adeiladu yn uwch na chwyddiant sylfaenol yr economi. Ni ddylai hyn ond achosi dirywiad yn y BCR os yw chwyddiant costau adeiladu yn uwch na chwyddiant cyffredinol. Mae hon yn broblem bosib, ond rydym wedi ei lleddfu gan ganiatáu ar gyfer elfennau annisgwyl yn ein rhagdybiaethau chwyddiant a lwfansau risg.

Nid yw deilliannau ac allbynnau yn cyflawni targedau na gwerthoedd a roddir arnynt yn y model. Gall ffactorau allanol e.e. tarfu economaidd neu gymdeithasol achosi newid i'r deilliannau a'r allbynnau a gyflawnir a byddai hyn yn effeithio ar y BCRs os yw'r costau yn unol â'r hyn a gynlluniwyd ar eu cyfer. Rydym wedi ceisio lleddfu hyn mewn sawl modd:

Rydym wedi rhagweld parhad buddion (ar wahân am yr arbedion trwy'r costau

gwahanol a gyflawnir trwy adnewyddu neu ddarparu adeiladau) dros ddeng mlynedd yn unig. Mewn gwirionedd, bydd y parhad yn llawer hwy o ystyried natur ac atyniad unigryw'r asedau yr ydym yn ymyrryd â hwy, ond mae hyn yn amddiffyn yn erbyn newid annisgwyl yn y tymor hwy.

Mae dadansoddiad sensitifrwydd wedi cael ei gynnal, sy'n gwneud tybiaethau am brif diffygion mewn allbwn, e.e. gostyngiad o 20% mewn ymweliadau ychwanegol, 20% o ostyngiad mewn cyfranogi, gostyngiad mewn dangosyddion gwella eiddo. Mae'r BCR cychwynnol yn parhau ar 2.1 neu uwch ym mhob senario (gostyngiad mewn presenoldeb/ymweliadau sydd â'r effaith fwyaf gan leihau'r cychwynnol i 2.12 a'r addasedig i 2.75)

Os caiff POB allbwn ei leihau o 20%, mae'r BCR yn gostwng i 1.88 (cychwynnol) - 2.39 (addasedig) - sy'n parhau i fod yn adenilliad ar fuddsoddiad sydd o fewn yr amrediad canolig/uchel.

Uwchlwythwch Tabl Gwerthuso Cryno i alluogi ystyried ystod eang o effeithiau

Tabl Gwerthuso Cryno 1

Uwchlwythwch y tabl gwerthuso cryno

Tabl Gwerthuso Cryno.pdf

Tystiolaeth ychwanegol i'r achos economaidd

Heb ddewis dim

RHAN 8: Gallu i Gyflawni

- 8.1. Cadarnhau cyfanswm gwerth eich cynnig**
Cyfanswm gwerth y cynnig
£26,746,156
- 8.2. Cadarnhau gwerth y grant cyfalaf yr ydych yn ymgeisio amdano gan Y Gronfa Ffyniant Bro (LUF)**
Gwerth grant cyfalaf
£18,830,189
- 8.3. Cadarnhau gwerth yr arian cyfatebol a sicrhawyd**
£1,690,243
Tystiolaeth o arian cyfatebol (dewisol)
Atodiad 2 - Tabl Arian Cyfatebol.pdf
- 8.4. Os oes angen sicrhau arian cyfatebol o hyd, nodwch y manylion isod os gwelwch yn dda**
Mae'r pecyn arian cyfatebol llawn wedi'i adnabod ar gyfer y cynnig.

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Gwynedd ynghanol gwedd datblygu prosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF) am flwyddyn, a bydd prosiect gweithredu pum mlynedd yn cael ei gyflwyno yn 2023. Mae cyfanswm y cynnig gweithredu ychydig dros £1,000,000 ac mae'r swm hwn wedi cael ei glustnodi ar gyfer Cyngor Gwynedd yn amodol ar gwblhau gwedd datblygu

foddhaol a chyflwyno cais cyflawn. Bydd cyfran o gyllid gweithredu'r NLHF yn mynd tuag at elfennau dehongli ac isadeiledd canol tref y cynnig.

Mae Amgueddfa Cymru wedi cyflwyno cynnig i Lywodraeth Cymru am y swm dros ben sydd ei angen ar gyfer y prosiect i ail-ddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru, a disgwylir penderfyniad ym mis Medi 2022.

Mae Partneriaeth Ogwen ac Antur Stiniog wedi ymrwymo i ddarganfod cyllid grant priodol fel arian cyfatebol ar gyfer eu helfennau unigol, gyda chytundeb y bydd sefydliadau unigol yn gwarantu'r symiau hyn os na lwyddir i dderbyn arian grant.

Mae'r lwfans risg ar gyfer pob elfen wedi'i gyfrifo ar 5%, mae'r holl bartneriaid wedi ymrwymo i warantu'r symiau hyn sy'n gysylltiedig â'u prosiectau unigol petai angen defnyddio'r gyllideb risg.

8.5. Cyfraniad tir - Os ydych yn bwriadu gwneud cyfraniad tir (drwy'r defnydd o dir presennol sy'n eiddo i chi), nodwch fanylion pellach isod

Nid oes unrhyw gyfraniadau tir yn rhan o'r cynnig hwn.

Uwchlwythwch lythyr gan brisiwr annibynnol

8.6. Cadarnhewch a yw eich cyllideb yn cynnwys costau TAW nad oes modd eu hadfer a disgrifiwch beth ydyn nhw, gan ddarparu manylion pellach isod

Amherthnasol

8.7. Disgrifiwch pa weithgaredd meincnodi neu ymchwil yr ydych wedi'i wneud i'ch helpu i bennu'r costau yr ydych wedi'u cynnig yn eich cyllideb

Mae mwyafrif y costiau wedi cael eu sefydlu gan syrfëwr meintiau neu unig-olyn cymwys cyfwerth.

Hwb Dinorwig:

Amgueddfa Lechi Cymru – mae costiau wedi cael eu hamcangyfrif gan *DCA Consultants* (ymgyngoriaeth diwylliant, creadigrwydd ac adfywio), bydd dyluniadau a chostau manwl yn cael eu gwneud yn y cyfnod pan fydd y cais LUF yn cael ei asesu. Mae'r costau hyn yn ffurfio rhan o'r cyfraniad arian cyfatebol.

Parc Padarn - mae costiau wedi cael eu hamcangyfrif ar sail gwaith blaenorol a wnaed gan y Tîm Rheoli Cefn Gwlad, a hefyd ar y wybodaeth a ddarparwyd gan *Chambers Associates Conservation Architects* ar adnewyddu strwythurau hanesyddol.

Gwella cysylltedd - mae costiau yn seiliedig ar waith blaenorol a wnaed gan y Tîm Rheoli Cefn Gwlad.

Hwb Ogwen:

Yr Hen Bost - mae costiau wedi cael eu sefydlu gan benseiri PegWA.

Neuadd Ogwen - mae costiau wedi cael eu sefydlu gan *Wakemans*

Architects fel rhan o brosiect adnewyddu ehangach. Mae dogfennau tendr wedi cael eu llunio ar gyfer yr elfen hon.

Llwybr Bethesda i Chwarel y Penrhyn - mae'r prif gostau wedi cael eu sefydlu fel rhan o'r astudiaeth dichonoldeb a wnaed gan Mott Macdonald ar ran Sustrans. Bydd dyluniad a chostiadau manwl yn cael eu gwneud yn ystod y cyfnod pan fydd y cais LUF yn cael ei asesu. Mae'r costau hyn yn ffurfio rhan o'r cyfraniad arian cyfatebol.

Hwb Ffestiniog:

22 a 23 Stryd yr Eglwys - mae costiadau wedi cael eu sefydlu gan Wakemans Architects.

Aelwyd yr Urdd - mae costiadau wedi cael eu sefydlu gan Wakemans Architects.

Llwybr Blaenau Ffestiniog i Chwarel Llechwedd - mae'r prif gostau wedi cael eu sefydlu fel rhan o'r astudiaeth dichonoldeb a wnaed gan Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy ar ran ACGCC (Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanol-barth Cymru). Bydd dyluniad a chostiadau manwl yn cael eu gwneud yn ystod y cyfnod pan fydd y cais LUF yn cael ei asesu. Mae'r costau hyn yn ffurfio rhan o'r cyfraniad arian cyfatebol.

Isadeiledd a chadwraeth:

Mae costau ar gyfer yr elfennau hyn wedi cael eu hamcangyfrif ar sail profiad blaenorol Cyngor Gwynedd o gyflawni prosiectau tebyg, a hefyd ar gyngor a dderbyniwyd gan bartneriaid yn Cadw sydd â phrofiad helaeth mewn dehongli a chadwraeth treftadaeth.

8.8. Nodwch wybodaeth ar ffiniau a chynlluniau wrth gefn a ganiatawyd a'r rhesymeg tu ôl iddynt

Mae'r cynlluniau cost ar gyfer elfennau o'r cynllun wedi cael eu datblygu'n fanwl ar lefel y prosiect, gyda phob tîm prosiect yn gwneud tybiaethau dar-bodus ynglŷn â risg (gweler isod) a'r cynlluniau wrth gefn a'r ffiniau mewn rhagamcanion sy'n briodol i'r risgiau hynny.

Ar lefel y prosiect, mae cynlluniau wrth gefn wedi cael eu gwneud ar gyfer risgiau, sy'n cynnwys:

- Datblygu dyluniad a manylder
- Amrywiadau tendr adeiladu a natur anrhagweladwy y farchnad adeiladu
- Mynediad safle a gosodiad adeiladu, cynlluniau rhagarweiniol a natur unig-ryw nifer o'r safleoedd
- Amrywiadau i raglen ddisgwyliedig, oedi a newidiadau i raglenni gwaith
- Digwyddiadau annisgwyl ar safle - yn enwedig amod adeiladu treftadaeth, ecoleg ac archaeoleg
- Oedi ac amhariad wedi'i achosi gan amodau'r tywydd a thir a safle eraill
- Amrywiadau mewn symiau contract a gyfyd o newidiadau i waith yn ystod y cyfnod adeiladu

Adlewyrchir y cynlluniau wrth gefn a'r ffiniau yma ar draws manylebau a chostiadau'r prosiect.

Yn ogystal, ar lefel y rhaglen, mae'r Cyngor wedi gwneud cynllun wrth gefn a ffiniau cyffredinol pellach ar draws yr holl brosiectau ar 5% pellach. Mae hyn yn cryfhau ein gallu ymhellach i ymateb i newid, er enghraifft mewn tybiaethau chwyddiant neu ar draws y rhaglen mewn costau anghyffredin.

O ran cynllunio'n ariannol ar gyfer gweithrediadau, mae ffiniau wedi'u hymgorffori mewn cynlluniau busnes ar gyfer prosiectau unigol yn y pecynnau er mwyn sicrhau hyfywedd hirdymor wrth wynebu newid i'r tybiaethau gwreiddiol.

8.9. Disgrifiwch y prif risgiau ariannol a sut fyddant yn cael eu lliniaru

Gellir crynhoi'r risgiau ariannol fel a ganlyn: Gellir gweld mwy o fanylion am fesurau lliniaru a'r camau gweithredu a gymerwyd hyd yma yng Nghofrestr Risg (wedi'i uwchlwytho) y prosiect.

HWB DINORWIG

-Mae cadw strwythurau hanesyddol yn gallu arwain at broblemau a chostau annisgwyl -Mae trafferthion cael caniatâd gofynnol yn arwain at gynyddu costau - Gwrthwynebiadau lleol i waith yn arwain at gostau cynyddol.

Bydd y rhain yn cael eu lliniaru drwy:

-Ymchwiliad trylwyr cyn i'r gwaith ddechrau. Cynllun wrth gefn digonol yn y gyllideb a thrwy'r arolygon cyflwr a wnaed eisoes.

-Ymgysylltu'n gynnar gydag Awdurdodau Cynllunio a Cadw -Ymgysylltu parhaus gyda'r gymuned a rhan-ddeiliaid i sicrhau cefnogaeth a dealltwriaeth

HWB OGWEN

-Prynu tir ar gyfer llwybr beicio/cerddwyr yn costio fwy na'r hyn a amcangyfrifwyd

Bydd hyn yn cael ei lliniaru drwy:

Cyllid digonol ar gyfer prynu tir yn y gyllideb

HWB FFESTINIOG

-Prynu tir ar gyfer llwybr beicio/cerddwyr yn costio fwy na'r hyn a amcangyfrifwyd

Mae'r mesurau lliniaru fel a ganlyn:

Cyllid digonol ar gyfer prynu tir yn y gyllideb

ISADEILEDD A CHADWRAETH

-Mae cadw strwythurau hanesyddol yn gallu arwain at broblemau a chostau annisgwyl

Bydd hyn yn cael ei lliniaru drwy:

-Ymchwiliad trylwyr cyn i'r gwaith ddechrau Cynllun wrth gefn digonol yn y gyllideb Arolygon Cyflwr a wnaed eisoes.

RISGIAU CYFFREDINOL

-Arian cyfatebol

Bydd hyn yn cael ei liniaru drwy:

-Sicrhau bod ymrwymadau arian cyfatebol gan bartneriaid wedi'u sicrhau neu yng nghamau cymeradwyo datblygedig.

Uwchlwythwch gofrestr risg

Cofrestr Risg.xlsx

8.10. Os ydych yn bwriadu dyfarnu cyfran o'r grant LUF i bartner drwy gontract neu is-grant, nodwch isod os gwelwch yn dda

Mae Prosiect Llewyrch o'r Llechi yn becyn o brosiectau sy'n dod â nifer o bartneriaid ynghyd i weithredu elfennau gwahanol.

Hwb Dinorwig:

-Amgueddfa Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NP. Cyllid i ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru, cyllid LUF £6200000. Dull ariannu - cytundeb ariannu.

-Parc Padarn – Cyngor Gwynedd

-Gwella cysylltedd – Cyngor Gwynedd

-Isadeiledd a chadwraeth – Cyngor Gwynedd

Hwb Ogwen:

-Partneriaeth Ogwen, 26 Stryd Fawr, Bethesda, Bangor LL57 3AE. Cyllid i adnewyddu ac ymestyn Yr Hen Bost, cyllid LUF £1,442,700. Dull ariannu - cytundeb ariannu.

-Tabernacl (Bethesda) Cyf, 33 Stryd Fawr, Bethesda, Bangor LL57 3AN.

Cyllid i uwchraddio Neuadd Ogwen, cyllid LUF £237,837. Dull ariannu - cytundeb ariannu

-Cyswllt rhwng Bethesda a Chwarel y Penrhyn – Cyngor Gwynedd

-Isadeiledd a chadwraeth – Cyngor Gwynedd

Hwb Ffestiniog:

-Antur Stiniog, Uned 1-2, Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog LL41 3ES. Cyllid i adnewyddu 22 a 23 Stryd yr Eglwys a chyllid LUF Aelwyd yr Urdd £1125547. Dull ariannu - cytundeb ariannu.

-Cyswllt rhwng Blaenau Ffestiniog a Chwarel Llechwedd – Llywodraeth Cymru -

-Isadeiledd a chadwraeth – Cyngor Gwynedd

Bydd y tâl i'w anfon ymlaen yn cael ei reoli drwy gontract cyfreithiol rhwng Cyngor Gwynedd a'r trydydd parti. Mae gan Gyngor Gwynedd gyfrifoldeb hel-aeth o anfon cyllid ymlaen i bartneriaid allanol wrth gynnal rheolaeth gyffredinol o'r prosiect cyfan. Bydd yr holl delerau ac amodau grant perthnasol yn cael eu trosglwyddo i'r trydydd parti gan Gyngor Gwynedd er mwyn sicrhau y cydymffurfir â thelerau Llywodraeth y DU ar bob lefel o gyflawni'r prosiect.

8.11. Pa strwythur cyfreithiol / llywodraethu yr ydych yn bwriadu ei roi yn ei le gydag unrhyw bartner cynnig sydd â budd ariannol yn y prosiect?

Mae'r hyn a ganlyn yn darparu'r trefniadau llywodraethu a chyfreithiol sydd angen eu sefydlu fel rhan o'r prosiect:

Llywodraethu:

Memorandwm o Ddealltwriaeth Llewyrch o'r Llechi Bydd MoDd yn cael ei ddatblygu a'i gytuno gan bob partner sy'n rhan o'r prosiect i amlinellu ein bwriad i gydweithio ar y prosiect hwn. Ni fydd y MoDd yn ddogfen sy'n rhwymol yn gyfreithiol; fodd bynnag, bydd yn amlinellu ein telerau ymgysylltu a'n disgwyliadau ar bob partner.

Bwrdd Prosiect Llewyrch o'r Llechi Bydd Bwrdd Prosiect yn cael ei sefydlu i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyfathrebu a'i gyflawni'n effeithiol. Bydd y Bwrdd Prosiect yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r prosiect. Cytunir ar Gylch Gorchwyl yn ystod cyfarfod cyntaf y Bwrdd Prosiect. Bydd y Bwrdd yn adrodd i'r Is-grŵp Manteisio ar Dreftadaeth y Byd yn ogystal â'r Bwrdd Partneriaeth Treftadaeth y Byd.

Byrddau Gweithredu Lleol (Hwb Dinorwig, Hwb Ogwen, Hwb Ffestiniog) Bydd pob elfen o'r prosiect yn sicrhau llywodraethu, gweithrediad ariannol a chyfreithiol priodol drwy eu cyfansoddiadau a'u strwythurau eu hunain, yn ogystal â sefydlu grwpiau rheoli prosiect lleol.

Cyfreithiol:

Cytundebau Ariannu Partneriaid Llewyrch o'r Llechi
Cytunir ar Gytundebau / Contractau Ariannu Partneriaid rhwng Cyngor Gwynedd a phartneriaid unigol i adlewyrchu'r cytundeb ariannu rhwng Llywodraeth EM a Chyngor Gwynedd. Bydd y cytundebau hyn yn trosglwyddo'r holl amodau a'r cymalau ariannu a gweithredu perthnasol i drydydd parti sy'n rhan o'r prosiect hwn a bydd yn ddogfen gyfreithiol ffurfiol wedi'i llofnodi a'i selio gan Gyngor Gwynedd a sefydliadau partner.

Gwaith ym Mharc Padarn ac ar y llwybrau troed
Cyngor Gwynedd fydd yn gwbl gyfrifol am gyflawni'r prosiect hwn sydd wedi'i ariannu gan y LUF. Bydd y gwaith hwn yn cael ei graffu a'i fonitro gan Wasanaethau Cyllid a Chyfreithiol y Cyngor.

Prosiectau mewn partneriaeth gyda sefydliad allanol
Bydd Cyngor Gwynedd, fel yr ymgeisydd, yn derbyn telerau ac amodau'r Gronfa Ffyniant Bro (*Levelling Up Fund*) gan Lywodraeth y DU. Bydd Cyngor Gwynedd yn sefydlu cytundeb cyfreithiol gyda phartner allanol fydd yn sicrhau bod y partner allanol yn gyfreithiol gyfrifol am ariannu ac am y telerau ac amodau cysylltiedig.

Bydd hyn yn berthnasol i brosiectau a arweinir gan Amgueddfa Cymru, Partneriaeth Ogwen, Tabernacl (Bethesda) Cyf. ac Antur Stiniog.

Bydd gweithgareddau unigol a arweinir gan bartneriaid yn dilyn y strwythurau llywodraethu a chyfreithiol isod:

Amgueddfa Cymru - adroddir am weithgareddau i'w Tîm Rheoli Prosiect yn yr Amgueddfa yn ogystal â Bwrdd Cyfarwyddwyr Amgueddfa Cymru.

Partneriaeth Ogwen – adroddir am weithgareddau i'w tîm rheoli a'u Bwrdd.

Tabernacl (Bethesda) Cyf. – adroddir am weithgareddau i'r Bwrdd.

Antur Stiniog – adroddir am weithgareddau i'r Tîm Rheoli a'r Bwrdd.

8.12. Crynhowch eich strwythur masnachol, dyraniad risg a strategaeth gaffael sy'n amlinellu'r rhesymeg dros y strategaeth a ddewiswyd a'r opsiynau eraill a gafodd eu hystyried a'u diystyru.

Bydd yr holl weithgareddau caffael yn cael eu gwneud yn unol â Pholisi Caffael Cyngor Gwynedd, ar wahân i ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru fydd yn cael ei weithredu yn unol â chanllawiau caffael Llywodraeth Cymru.

Contractau sydd werth £250,000 a mwy

Bydd y rhain yn cael eu caffael drwy borth ar-lein Llywodraeth Cymru, GwerthwchiGymru ar y farchnad agored, mae manteision defnyddio GwerthwchiGymru yn cynnwys:

- system syml lle gallwch ddogfennu cyfleoedd tendro;
- mynediad i wasanaethau caffael mewn un lle;
- cyfathrebu haws rhwng prynwyr a chyflenwyr;
- cyfrannu at broses dendro fwy tryloyw;
- cyfrannu at fwy o arbedion ac effeithlonrwydd, a;
- darparu amgylchedd diogel ar gyfer y broses gaffael.

Byddant yn cael eu rhannu'n ddau gam; yr holiadur Cyn-cymhwyso (HCC, Cam 1) a'r Tendr (Cam 2). Bydd yr HCC yn cynnwys adran pasio/methu ac adran gwestiynau. Bydd yr adran pasio/methu yn gwerthuso perfformiad y contractwr sydd â diddordeb yn erbyn yr isod ar sail pasio/methu:

- Derbynioldeb Cyflenwr;
- Safle Economaidd/Ariannol;
- Capasiti a Gallu;
- Rheolaeth;
- Cyfleoedd Cyfartal;
- Cynaliadwyedd, ac;
- Iechyd a Diogelwch.

Bydd adran gwestiynau yr HCC yn gofyn i'r contractwr ddangos:

- Profiad perthnasol ac enghreifftiau penodol o gontractio;
- Profiad blaenorol o waith tebyg.

Yna, bydd y contractwyr llwyddiannus yn mynd ymlaen i'r cam Tendro, fydd yn cynnwys elfen Fasnachol ac Ansawdd.

Contractau sydd werth £50,000 a mwy

Mae pryniannau dros £50,000 angen tendr. Ceir 5 math o dendr (agored / cyfyngedig / wedi'i negodi / deialog gystadleuol / Partneriaeth Arloesedd).

Contractau sydd werth £5,000 i £50,000

Ar gyfer caffael sydd werth £5,000 - £50,000, mae angen o leiaf 3 dyfynbris ysgrifenedig cyn cyflwyno gorchymyn / contract ffurfiol

Contractau sydd werth £5,000 neu lai

Ar gyfer gorchymynion / contractau gyda gwerth amcangyfrifedig o £5,000 neu lai, 1 dyfynbris ysgrifenedig gan y cyflenwr yw'r isafswm sy'n ofynnol.

Yn unol â Strategaeth Gaffael Cyngor Gwynedd, gellir defnyddio cytundebau fframwaith hefyd i gaffael elfennau o waith.

Polisi Caffael Cynaliadwy

Bydd y gwaith yn cael ei gaffael yn unol â Pholisi a Chanllawiau Caffael Cynaliadwy Cyngor Gwynedd 2011 a Strategaeth Gaffael 2014-15, a Chynllun Busnes 2018-2023 yr Adran Gaffael. Drwy gaffael a chomisiynu'n effeithiol, mae Cyngor Gwynedd yn sicrhau nwyddau a gwasanaethau mewn modd cynaliadwy sy'n sicrhau gwerth am arian i bobl Gwynedd.

Buddion Cymunedol

Mae'r Cyngor yn credu fod ymagwedd gynaliadwy at gaffael yn hollbwysig er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posib yn lleol o wariant trydydd parti, a bydd yr ymagwedd hon yn cael effaith gadarnhaol am amser maith ar ei gymunedau. Drwy weithredu Polisi Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru, gall Cyngor Gwynedd ymgorffori buddion etifeddol ar gyfer ei gymunedau.

Bydd buddion cymunedol sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r gwaith hefyd yn cael eu hystyried drwy'r weithdrefn gaffael fel rhan o'r asesiad tendro.

8.13. Pwy fydd yn arwain ar gaffael a rheolaeth contractwr ar y cynnig hwn ac eglurwch pa arbenigedd a sgiliau sydd ganddynt mewn rheoli caffael a chontractau o'r natur hon?

Bydd y tîm prosiect creiddiol ar gyfer prosiect Llewyrch o'r Llechi yn cynnwys swyddogion y Cyngor a chynrychiolwyr o bob un o'r partneriaid allanol (Amgueddfa Cymru, Partneriaeth Ogwen, Tabernacl (Bethesda) Cyf., Antur Stiniog). Mae gan holl aelodau'r tîm prosiect hanes o lwyddiant yn natblygiad, rheolaeth a chyflawniad prosiectau adfywio economaidd cyfalaf, ac mae ganddynt oll brofiad helaeth o reolau caffael, rheoli contractau a chyflawni prosiectau.

Bydd yr holl gaffael a wneir gan Gyngor Gwynedd yn cael ei arwain gan y Rheolwr Prosiect dynodedig yn yr Adran berthnasol yn yr Awdurdod:

Hwb Dinorwig

-Parc Padarn a Gwella cysylltedd - Adran Economi a Chymuned, Tîm Parciau Gwledig. Mae gan y tîm hwn brofiad helaeth o gomisiynu gwaith sy'n gysylltiedig â rheoli Parciau Gwledig yr Awdurdod Lleol, sy'n amrywio o waith cadwraeth ar asedau hanesyddol i brosiectau isadeiledd (meysydd parcio, toiledau cyhoeddus) a dehongli.

Hwb Ogwen

-Llwybr Bethesda i Chwarel y Penrhyn - Adran yr Amgylchedd, Tîm Cefn Gwlad. Mae gan y tîm hwn brofiad helaeth o reoli prosiectau isadeiledd, yn enwedig wrth greu ac uwchraddio llwybrau aml-ddefnydd fel rhan o rwydwaith cenedlaethol o lwybrau beiciau a hawliau tramwy cyhoeddus.

Gwaith isadeiledd a chadwraeth

-Bydd yr elfennau hyn yn cael eu harwain gan yr Adran Economi a Chymuned, Tîm STB Llechi Cymru. Mae gan y tîm brofiad helaeth o reoli a chyflawni contractau sy'n gysylltiedig â phrosiectau isadeiledd ar raddfa fach, prosiectau celfyddydol a dehongli ynghyd â gwaith cadwraeth ar raddfa fach. Bydd aelodau'r Bwrdd prosiect yn cynnwys cydweithwyr o'r Adran Fwrdeistrefol, ynghyd â chydweithwyr o Cadw.

Bydd yr holl elfennau a arweinir yn allanol yn cael eu gwneud gan bartneriaid trydydd parti:

Hwb Dinorwig

-Amgueddfa Lechi Cymru - arweinir yr elfen hon gan Amgueddfa Cymru, lle mae tîm penodol wedi cael ei sefydlu i gyflawni'r wedd gyntaf hon, ac i ddatblygu'r ail wedd o greu Amgueddfa'r Gogledd.

Hwb Ogwen

-Yr Hen Bost – arweinir yr elfen hon gan Bartneriaeth Ogwen. Menter gymdeithasol sydd wedi hen ennill ei phlwyf, gyda blynyddoedd o brofiad o brynu, datblygu a rheoli asedau cymunedol yn Nyffryn Ogwen. Maent yn hynod brofiadol mewn rheolaeth grantiau a'r disgwyliadau caffael a ddaw gydag arian cyhoeddus.

-Neuadd Ogwen – arweinir yr elfen hon gan Tabernacl (Bethesda) Cyf. Mae'r fenter gymdeithasol wedi rhedeg y Neuadd a'r dafarn gyfagos ers sawl blwyddyn ac, yn yr amser hwnnw, maent wedi trawsnewid y ddau ased yn ofodau cymunedol ffyniannus. Maent hefyd yn brofiadol wrth ymdrin â phrosiectau a ariennir gan grantiau a'r gofynion caffael sy'n gysylltiedig ag arian cyhoeddus.

Hwb Ffestiniog

-22 a 23 Stryd yr Eglwys, Aelwyd yr Urdd – bydd yr elfennau hyn yn cael eu rheoli gan Antur Stiniog, menter gymdeithasol sydd wedi hen ennill ei phlwyf sydd wedi derbyn a rheoli grantiau helaeth ar gyfer prosiectau amrywiol dros y blynyddoedd diweddar. Maen ganddynt hanes o lwyddiant wrth gyflawni yn

erbyn rhaglenni grant ac maent yn brofiadol gyda gofynion caffael sy'n gysylltiedig ag arian cyhoeddus.

-Llwybr Blaenau Ffestiniog i Chwarel Llechwedd - Tîm Teithio Llesol Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru. Mae gan y tîm hwn brofiad helaeth o reoli prosiectau isadeiledd, yn enwedig wrth greu llwybrau beicio a cherdded newydd ar hyd cefnffyrdd.

8.14. A ydych yn bwriadu allanoli neu is-gontractio unrhyw waith arall ar y cynnig hwn i drydydd parti?

Nid ydym yn bwriadu is-gontractio unrhyw waith arall sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn.

8.15. Sut fyddwch yn ymgysylltu â chyflenwyr allweddol i reoli eu contractau yn effeithiol fel eu bod yn cyflawni eich deilliannau a ddymunir?

Gofynnir i bob contractwr posib gyflwyno cofrestr risg prosiect gyda'u tendrau, yn amlinellu'r risgiau a'r mesurau lliniaru posib ar gyfer eu helpen hwy o'r prosiect. Bydd hyn yn galluogi'r grŵp prosiect i asesu lefel y risg sy'n gysylltiedig â phob contractwr cyn penderfynu penodi. Bydd angen iddynt hefyd ddarparu strategaeth barhad yn y cynnig yn amlinellu'r mesurau ar gyfer parhad gwasanaeth pe byddai aelod allweddol o'r tîm ddim ar gael, bydd hyn yn lleihau'r risg i amserlen y prosiect.

Mae strwythurau talu sefydledig yn eu lle o fewn yr Awdurdod Lleol i sicrhau taliadau amserol a rheolaidd, ac i sicrhau bod yr holl wiriadau wedi cael eu gwneud cyn rhyddhau taliadau i gontractwyr.

8.16. Amlinellwch sut ydych yn bwriadu cyflawni'r cynnig

Gweler atodiad 11 am Gynllun Cyflawni'r prosiect

Cerrig Milltir Allweddol

Gellir gweld y cerrig milltir allweddol ar gyfer pob elfen o'r prosiect yn amserlen y Prosiect yn y llyfr gwaith costiaidau a chynllunio. Er bod holl elfennau'r prosiect yn gyflenwol ac yn cyfrannu at y cynnig cyflawn, nid ydynt yn rhyng-ddibynol o ran cyflawni, a gallant symud ymlaen yn annibynol o fewn amserlen gyffredinol y cynnig.

Dibyniaethau allweddol

Nodir hyd tasgau yn amserlen y prosiect, bydd pob tasg yn cael ei chwblhau o fewn rhaglen y cynnig.

Adnoddau

Bydd rheolaeth prosiect Llewyrch o'r Llechi yn seiliedig ar fodel Prince 2 lle bydd y Ddogfen Cychwyn Prosiect yn amlinellu'r briff a'r gofyn i reoli a chyflawni pob cydran yn effeithiol o fewn y prosiect cyffredinol.

Rhoddir hyn mewn Siart Gantt sy'n nodi tasgau allweddol, cerrig milltir a gofynion pob is-brosiect fydd yn bwydo i raglen prosiect ehangach. Cytunir ar hyn gan y Bwrdd Prosiect ar y dechrau a bydd yn cael ei fonitro drwy gydol bywyd y prosiect.

Rolau, Cyfrifoldebau a Strwythur Rheoli

Bydd Rheolaeth Gyffredinol o Brosiect Llewyrch o'r Llechi yn cael ei arwain gan Gyngor Gwynedd. Bydd Cyngor Gwynedd yn dod i gytundeb cyfreithiol gyda Llywodraeth y DU i gyflawni'r prosiect yn y sir ac i gydymffurfio â thelerau ac amodau'r cyllid. Bydd telerau ac amodau perthnasol yn cael eu trosglwyddo i bartneriaid trydydd parti ar ffurf cytundebau cyfreithiol.

Gweler Strwythur y Prosiect yn atodiad 12.

Ar lefel sirol, bydd Cyngor Gwynedd yn sefydlu Bwrdd Prosiect. Bwrdd rhaglen lefel uchel fydd y grŵp hwn sy'n goruchwyllo rheolaeth o'r prosiect yn ei gyfanrwydd, sy'n cynnwys cyfrifoldeb am reoli'r rhaglen waith, y rhaglen arianol, y gofrestr risg a chymryd cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau allweddol. Bydd y Bwrdd Prosiect yn cynnwys Uwch Swyddogion o sawl Adran megis Economi a Chymuned, Amgylchedd, Priffyrdd, Cyfreithiol a Chyllid. Bydd hefyd yn cynnwys cynrychiolydd o bartneriaid cyflawni allweddol, yn cynnwys Amgueddfa Cymru, Partneriaeth Ogwen, Tabernacl (Bethesda) Cyf. ac Antur Stiniog.

Ar lefel lleol, bydd tri Bwrdd Gweithredu Prosiect hefyd yn cael eu sefydlu fydd yn arwain y prosiectau yn yr hybiau unigol. Bydd y rhain yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Prosiect. Bydd y rhain hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o Adranau Cyngor Gwynedd, bydd gan y grwpiau hyn hefyd bartneriaid a chynrychiolwyr o'r gymuned, yn cynnwys Cyngorau Tref a Chymuned a Grwpiau Cymunedol.

Bydd rheolaeth dydd-i-ddydd yn dilyn egwyddor Prince 2 gyda Phennaeth Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd yn Uwch Berchennog Cyfrifol, a bydd swyddi'r Rheolwr Prosiect, y swyddog gwerthuso a'r swyddog cyllid yn cael eu hysbysebu a'u hariannu drwy'r prosiect hwn.

Strategaeth Gyfathrebu

Bydd Cynllun Cyfathrebu yn cael ei ddatblygu ar gyfer Prosiect Llewyrch o'r Llechi sy'n rheoli cyfathrebiadau a disgwyliadau gyda'r holl ran-ddeiliaid. Bydd yn diffinio sut fydd gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda thrawstoriad o unigolion, sefydliadau a chymunedau â diddordeb, ac yn cyfeirio at sefydliadau statudol, partneriaid, grwpiau cymunedol, Aelodau Etholedig a'r cyhoedd yn ehangach.

Oherwydd y diddordeb a'r brwdfrydedd ynghylch Safle Treftadaeth y Byd mwyaf newydd y DU, mae'n hanfodol bwysig rheoli cyfathrebiadau ar lefel prosiect, rhanbarthol, cenedlaethol a lleol ar gyfer tair elfen y prosiect, ac ar gyfer y prosiect yn ei gyfanrwydd.

Caniatâd Statudol

Nid oes unrhyw bryniant wedi'i gynnwys yn y prosiect, mae'r holl dir neu'r adeiladau lle buddsoddir ynddynt eisoes ym mherchnogaeth y partner cyflawni. Bydd unrhyw waith cadwraeth ar raddfa fach a wneir gan Gyngor Gwynedd yn cael ei wneud gyda chaniatâd y tiffeddiannwr, ac mae perthnasau gweithio da eisoes yn eu lle gyda'r unigolion a'r cwmnïau hynny, ac os fydd buddsoddiad yn cael ei sicrhau, bydd y gallu i weithredu ymyraethau yn cael ei wneud heb

wrthwynebiadau.

Bydd angen caniatâd statudol er mwyn gweithredu rhai o'r cynigion, gan gynnwys caniatâd cynllunio, cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu ac, mewn rhai achosion, caniatâd adeilad rhestredig neu heneb gofrestredig. Mae trafodaethau cynnar wedi'u cynnal gyda'r ddau awdurdod cynllunio, a chyda Cadw (gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru) er mwyn sicrhau bod y datblygiadau arfaethedig yn unol â pholisi presennol, ac yn cyd-fynd â'r STB, ei osodiad a'i weledigaeth.

Hwb Dinorwig:

- Ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru - angen caniatâd heneb gofrestredig
- Gwelliannau Parc Padarn – angen caniatâd heneb gofrestredig a chaniatâd cynllunio
- Gwella Cysylltedd i Chwarel Dinorwig – dim angen unrhyw ganiatâd

Hwb Ogwen:

- Yr Hen Bost – angen caniatâd cynllunio
- Neuadd Ogwen – caniatâd cynllunio yn ei le
- Gwella cysylltedd i Chwarel y Penrhyn - bydd dyluniad manwl yn pennu a oes angen caniatâd cynllunio

Hwb Ffestiniog:

- 22 a 23 Stryd yr Eglwys – angen caniatâd cynllunio
- Aelwyd yr Urdd – dim angen unrhyw ganiatâd
- Gwella cysylltedd i Chwarel Llechwedd – bydd dyluniad manwl yn pennu a oes angen caniatâd cynllunio

8.17. Dangoswch y gellir cyflawni ambell weithgaredd y cynnig yn 2022-23

Fel y dengys yn y Llyfr Gwaith Cynllunio a Chostiadau, ymgwymerir ag elfennau o'r prosiect yn ystod 2022/23. Mae'r rhain yn cynnwys:

Hwb Dinorwig

Amgueddfa Lechi Cymru:

- RIBA cam 3 a cham 4, a chyflwyno cais cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig

Gwelliannau i Barc Padarn:

- Toiledau - tendro a phenodi contractwyr, paratoi pecynnau dylunio a thendro, cyflwyno cais cynllunio - Adeilad Wardeniaid - tendro a phenodi contractwyr, paratoi pecynnau dylunio a thendro, cyflwyno cais cynllunio - Adeilad Chwarel Vivian - tendro a phenodi contractwyr, paratoi pecynnau dylunio a thendro - Gwelliannau i Adeilad Hafod Owen - tendro a phenodi contractwyr

Gwella Cysylltedd:

- Llwybr Ysbyty'r Chwarel - paratoi, dylunio a thendro pecyn, cyflwyno tendr a phenodi, paratoi safle, cloddio/lefelu'r tir

Isadeiledd a Dehongli:

- Isadeiledd canol tref a rheoli prosiect

Hwb Ogwen

Yr Hen Bost:

-Cyflwyno cais cyn cyflwyno, datblygu cynlluniau RIBA cam 3, comisiynu peiriannydd strwythurol, ymgynghorydd asbestos ac ecolegydd, cyflwyno cais cynllunio a rheolaeth adeiladu, proses dendro, penodi contractwyr, contractwyr ar safle, gwedd 1 (adnewyddu adeilad presennol) yn dechrau.

Neuadd Ogwen:

-Dylunio gwaith, penodi contractwyr a dechrau adeiladu

Cyswllt beicio a cherdded rhwng Bethesda a Chwarel y Penrhyn:

-Dyluniad ac arolygon

Isadeiledd a Dehongli:

-Isadeiledd canol tref a rheoli prosiect

Hwb Ffestiniog

22 a 23 Stryd yr Eglwys:

-Cyflwyno caniatâd cynllunio a rheoliadau adeiladu, proses dendro, penodi contractwr, dechrau gwedd adeiladu

Aelwyd yr Urdd:

-Cyflwyno caniatâd cynllunio a rheoliadau adeiladu, proses dendro, penodi contractwr, dechrau gwedd adeiladu

Llwybr beicio/cerdded Blaenau Ffestiniog i Chwarel Llechwedd:

-Dyluniad ac arolygon

Isadeiledd a Dehongli:

-Isadeiledd canol tref a rheoli prosiect

8.18. Rheoli Risg: Amlinellwch eich asesiad risg manwl

Gellir crynhoi risgiau'r prosiect fel a ganlyn: Gellir gweld mwy o fanylion am fesurau lliniaru a'r camau gweithredu a gymerwyd hyd yma yng Nghofrestr Risg y prosiect yn Atodiad 14.

HWB DINORWIG

-Mae cadw strwythurau hanesyddol yn gallu arwain at broblemau -Mae trafferthion cael caniatâd gofynnol yn arwain at fethiant i gyflawni o fewn y cynllun gwaith.

-Gwrthwynebiadau lleol i waith yn arwain at oedi

Bydd y rhain yn cael eu lliniaru drwy:

-Ymchwiliad trylwyr cyn i'r gwaith ddechrau. Cynllun wrth gefn digonol yn y gyllideb a thrwy'r arolygon cyflwr a wnaed eisoes.

-Ymgysylltu'n gynnar gydag Awdurdodau Cynllunio a Cadw -Ymgysylltu parhaus gyda'r gymuned a rhan-ddeiliaid i sicrhau cefnogaeth a dealltwriaeth

HWB OGWEN

-Trafferth cael caniatâd gofynnol -Prynu tir ar gyfer llwybr beicio/cerddwyr yn

cymryd hirach na'r disgwyl -Gwrthwynebiadau lleol i waith

Bydd y rhain yn cael eu lliniaru drwy:

-Ymgysylltu'n gynnar gydag Awdurdodau Cynllunio a Cadw -Digon o amser yn y rhaglen ar gyfer prynu tir estynedig -Ymgysylltu parhaus gyda'r gymuned a rhan-ddeiliaid i sicrhau cefnogaeth a dealltwriaeth

HWB FFESTINIOG

-Trafferth cael caniatâd gofynnol -Prynu tir ar gyfer llwybr beicio/cerddwyr yn cymryd hirach na'r disgwyl -Gwrthwynebiadau lleol i waith

Mae'r mesurau lliniaru fel a ganlyn:

-Ymgysylltu'n gynnar gydag Awdurdodau Cynllunio a Cadw -Digon o amser yn y rhaglen ar gyfer prynu tir estynedig -Ymgysylltu parhaus gyda'r gymuned a rhan-ddeiliaid i sicrhau cefnogaeth a dealltwriaeth

ISADEILEDD A CHADWRAETH

-Mae cadw strwythurau hanesyddol yn gallu arwain at broblemau annisgwyl

Bydd y rhain yn cael eu lliniaru drwy:

-Ymchwiliad trylwyr cyn i'r gwaith ddechrau Cynllun wrth gefn digonol yn y gyllideb Arolygon Cyflwr a wnaed eisoes.

RISGIAU CYFFREDINOL

-Gwrthwynebiadau lleol i waith -Trafferth cael crefftwy'r i wneud gwaith

Bydd y rhain yn cael eu lliniaru drwy:

-Ymgysylltu parhaus gyda'r gymuned a rhan-ddeiliaid i sicrhau cefnogaeth a dealltwriaeth -Sicrhau digon o amser yn y broses dendro i sicrhau crefftwy'r i gwblhau gwaith

8.19. Darparwch fanylion am eich tîm prosiect craidd a darparwch dystiolaeth o'u hanes a'u profiad o gyflawni cynlluniau o'r natur hon.

Rheoli Rhaglen

Yn gyffredinol, mae gan Gyngor Gwynedd record gref iawn o reoli a chydlynu cynlluniau aml-bartner cymhleth.

Mae'r Cyngor wedi cyflawni nifer o gynlluniau a dderbyniodd nawdd Ewropeaidd drwy Raglenni Amcan 1 (2000-2006) a Chydgyfeiriant (2007-13 a 2014-20).

Mae ganddo brofiad amlwg mewn rheoli prosiectau cyfalaf mawr megis Rhaglen Adfywio Strategol ar gyfer Blaenau Ffestiniog, Prosiect Adfywio Canol Tref Caernarfon, Prosiect Amddiffyn Arfordirol Tywyn, Academi Hwyllo Genedlaethol i Gymru ym Mhwllheli, Gwelliannau ar yr A487, Prosiect Cyrchfanau Denu Twristiaeth a Phrosiect Canolfan Rhagoriaeth Eryri. Mae gan y Cyngor hefyd brofiad o weithio ar brosiect diwylliannol mawr megis Prosiect Ein Treftadaeth a phrosiect Amgueddfa ac Oriol Gelf Storiol.

Mae'r profiad a'r sgiliau a gasglwyd o raglenni a phrosiectau blaenorol wedi sicrhau bod y profiad a'r sgiliau addas angenrheidiol yn eu lle i reoli a chydlyn-u'r rhaglen yn effeithiol wrth symud ymlaen.

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig ymrwymo adnoddau ar gyfer rheoli a llywodraethu'r prosiect yn ehangach.

Mae gan y tîm yng Nghyngor Gwynedd brofiad helaeth o gyflawni prosiectau aml-bartner cymhleth. Bydd tîm LUF penodol yn cael ei sefydlu o fewn y Cyngor, gan gynnwys Rheolwr Prosiect, swyddog monitro a gwerthuso a swyddog cyllid. Bydd yr unigolion hyn yn cael eu recriwtio i fod yn rhan o strwythur staffio presennol Cyngor Gwynedd, a bydd swydd ddisgrifiadau a phroses benodi yn sicrhau bod staff o safon uchel yn cael eu penodi.

HWB DINORWIG

Mae Amgueddfa Cymru wedi penodi tîm penodol gyda'r nod o gyflawni dwy wedd y prosiect ailddatblygu, gan gynnwys y gwaith a fanylir yn y cynnig hwn, ac ail wedd y prosiect i ddatblygu Amgueddfa'r Gogledd. Ceir Cyfarwyddwr Prosiect gyda chefnogaeth gan Weithredwr Prosiect, ynghyd â chefnogaeth tîm Amgueddfa Cymru ar lefel ehangach.

HWB OGWEN

Mae gan Bartneriaeth Ogwen brofiad helaeth o gyflawni prosiectau adnewyddu cyfalaf yn ardal Bethesda. Meleri Davies fydd yn arwain ar yr elfen hon gyda chefnogaeth y Pensaer Cadwraeth, Elinor Grey-Williams o Benseiri PegwA.

Mae gan Tabernacl (Bethesda) Cyf. brofiad mewn datblygu a chyflawni prosiectau adnewyddu cyfalaf, ar ôl cwblhau adnewyddiad cyflawn o Dafarn y Fic ym Methesda yn ddiweddar, yn ogystal â gwaith sylweddol ar Neuadd Ogwen. Bydd gan Gyfarwyddwr y Cwmni gyfrifoldeb am oruchwylio'r elfen hon o'r prosiect, gyda chefnogaeth Penseiri Wakemans.

HWB FFESTINOG

Mae Antur Stiniog yn sefydliad profiadol sydd wedi hen ennill ei blwyf, gyda hanes o lwyddiant gyda phrosiectau adeiladu cyfalaf, yn cynnwys adeiladu llwybrau beicio disgynnol a chanolfan beicio ac adnewyddu uned yng nghanol y dref yn gaffi, swyddfeydd a chanolfan wybodaeth. Bydd Ceri Cunningham yn cymryd cyfrifoldeb am yr elfennau hyn o'r prosiect, gyda chefnogaeth Penseiri Wakemans.

Mae gan Dîm Teithio Llesol Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru brofiad helaeth mewn cyflawni gwaith o greu llwybrau teithio llesol newydd.

Amlinellwch pa weithdrefnau llywodraethu fydd yn cael eu rhoi yn eu lle i reoli'r grant a'r prosiect

Mae gan Gyngor Gwynedd drefniadau cadarn o wiriadau a mantolau i sicrhau'r defnydd priodol o adnoddau. Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu sys-

tem Gabinet - mae rolau'r Cyngor, y Cabinet, Aelodau Unigol a'r Prif Swyddogion, ynghyd â chynllun dirprwyo clir, yn cael eu hamlinellu yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Ceir tystiolaeth gref o ddiwylliant lle mae'r holl aelodau a'r swyddogion yn datgan gwrthdaro buddiannau fel sy'n briodol.

Rheolaeth Ariannol

Mae Pennaeth yr Adran Gyllid (Swyddog Adran 151) yn aelod o Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ac mae ganddo dros 27 mlynedd o brofiad mewn cyllid llywodraeth leol.

Mae'n rhaid i Swyddogion Statudol (y Swyddog Monitro'r Cyngor a'r Pennaeth Cyllid) gynnig sylwadau ar unrhyw benderfyniad ffurfiol fel rhan o Gyfansoddiad cynhwysfawr a adolygir yn rheolaidd. Ceir protocolau ffurfiol yn eu lle er mwyn diogelu hawliau swyddogion statudol.

Rheolaeth Ariannol

Mae Trefniadau Fframwaith Rheolaeth Ariannol Cyngor Gwynedd yn cynnwys y dogfennau, strategaethau a'r cynlluniau a ganlyn: -

- Strategaeth Gyllideb
- Strategaeth/Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Rhaglen / Cyllideb Gyfalaf
- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys/Buddsoddi
- Cyllideb Refeniw
- Cynllun Rheoli Asedau
- Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth
- Rheoliadau Ariannol
- Rheolau Gweithdrefnau Contract
- Datganiad Cyfrifon Blyneddol

Ymgwymerir â chynllunio ac adolygu ariannol drwy Dîm Cyfrifeg a Chyllid cryf, a arweinir gan dîm profiadol o uwch gyfrifwyr sydd â'r cymwysterau priodol. Mae hyn yn cynnwys tîm penodol sy'n gyfrifol am gadw cofnod o incwm a gwariant prosiectau a arweinir gan Adran Economi a Chymuned y Cyngor.

Rheoli Risg

Ceir trefniadau cryf ar gyfer monitro ein cydymffurfiaeth â mathau penodol o risgiau gweithredol. Mae proses Risg Gorfforaethol y Cyngor yn cynnwys adolygiad parhaus, gan gynnwys adolygiadau o risgiau prosiect penodol. Ystyrir trefniadau lliniaru risg fel rhan o'r broses hon.

Archwilio Mewnol

Mae gan y Cyngor Wasanaeth Archwilio Mewnol sydd â strategaeth a chynllun archwilio blyneddol clir yn eu lle, sydd wedi cael eu hadolygu'n annibynnol drwy adolygiadau gan gymheiriaid er mwyn darparu gwasanaeth da. Mae

rhaglen waith blynyddol Archwilio Mewnol wedi'i halinio'n agos â Chofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor, ac yn cynnwys adolygiadau annibynnol o brosiectau cyfalaf a refeniw sylweddol. Mae canfyddiadau adroddiadau Archwilio Mewnol yn cael eu categorio

Mae Archwilio Mewnol bob amser yn ymwybodol o'r posibilrwydd i dwyll neu lygreddigaeth ddigwydd. Mae gan y Cyngor Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrthlygreddigaeth a Gwrth-lwgrwobrwyo yn ei lle.

Bydd y cynllun archwilio yn aros yn hyblyg i adlewyrchu unrhyw broblemau a ddaw i'r amlwg neu newidiadau i risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor, a hefyd i sicrhau iechyd a diogelwch Archwilio Mewnol a swyddogion cleient. Bydd unrhyw ddiwygiadau neu addasiadau i'r Cynllun yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn y dull arferol.

Trefniadau Llywodraethu

Ceir trefniadau yn eu lle i sicrhau bod llywodraethu yng Nghyngor Gwynedd yn cael ei gyflawni yn unol â'r diffiniad a gynhwysir yn Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith (CIPFA/Solace, 2016). Mae Trefniadau Llywodraethu a Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan grŵp sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, Swyddog Adran 151, Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Rheolwr Risg ac Yswiriant a Rheolwr Cefnogi Gwasanaeth Busnes y Cyngor.

Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

Mae gan Gyngor Gwynedd Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu effeithiol sy'n ymgymryd â'i gyfrifoldebau yn unol ag arferion priodol. Mae'r Pwyllgor yn gytbwys, gwrthrychol, gwybodus gydag agwedd annibynnol ac mae rhaglen hyfforddiant yn ei lle i aelodau'r Pwyllgor i'w galluogi i gyflawni eu rôl. Ceir tystiolaeth glir o'i weithredoedd dros nifer o flynyddoedd fod y Pwyllgor yn gefnogol o egwyddorion llywodraethu da a rheolaeth fewnol gadarn.

Mae gwaith y Pwyllgor yn cynnwys adolygu gwaith archwilio mewnol ac allanol yn fanwl, adolygu a herio cynlluniau gwariant a chraffu adolygiadau ariannol a chyllideb y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn adolygu cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac yn herio'r wybodaeth risg a gynhwysir ynddo.

Diogelwch Seibr a Diogelu Data

Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod y bydd gweithgarwch anghyfeillgar yn cynyddu ac, er gwaethaf ein hymdrechion i ddiogelu ein hisadeiledd a'n systemau rhag terfysgwyr seibr, nid yw'n bosib gwarantu 100% y gellir atal pob ymgais. Fodd bynnag, ceir trefniadau cadarn yn eu lle fel bod ein hymdrechion ar gyfer gwasanaeth gwydn yn gymysgedd o amddiffynfeydd seibr a'n gallu i adfer o sefyllfa petai ymosodiad yn torri'r amddiffynfeydd. Adlewyrchir

hyn yn y gofrestr risg gorfforaethol, lle nodir tebygolrwydd gweddol isel (2) a risg gydag effaith uchel iawn (5).

8.20. Os yw'n berthnasol, eglurwch sut fyddwch yn talu costau gweithredol am reolaeth dydd i ddydd yr ased / cyfleuster newydd unwaith y bydd wedi'i gwblhau i sicrhau bod buddion y prosiect yn cael eu gwireddu.

Mae holl elfennau'r prosiect wedi'u datblygu i fod yn gynaliadwy yn ariannol ar ôl y cyllid cychwynnol. Mae'r holl bartneriaid cyflawni yn brofiadol mewn rhedeg asedau cymunedol hunan-gynhaliol a byddant yn cymhwyso'r un egwyddorion i'r asedau sy'n derbyn buddsoddiad drwy'r Prosiect hwn.

Nod Datganiad Cenhadaeth Ddiwylliannol ar gyfer y Prosiect yw:

Cydweithio i gefnogi pobl Gwynedd a thu hwnt i gael mynediad i, i fwynhau, i gyfrannu at ac i brofi ein diwylliant a'n hiaith - er budd unigolion, y gymdeithas, yr economi a'n cymunedau. Mae'n canolbwyntio ar bedair thema allweddol -Ffyniant: addysg, sgiliau, swyddi, economi, gwirfoddoli, cyrchfannau a naws am le

-Iechyd a llesiant: diwylliant mewn iechyd a llesiant

-Cymunedau Cydlynol: adfywio drwy ddiwylliant, balchder am le

-Iaith a Diwylliant Bywiog: ansawdd uchel, cydweithio a'r Iaith Gymraeg

Nod y prosiect ymgysylltu cymunedol LleCHI STyB a sefydlwyd yw targedu sectorau o fewn cymdeithas sy'n anodd eu cyrraedd a defnyddio treftadaeth a diwylliant fel teclyn ar gyfer ymgysylltu. Bydd y gwaith hwn yn defnyddio tri hwb ac yn annog ymwelwyr newydd i ymweld. Defnyddir y strategaeth gyfathrebu hefyd i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd drwy'r prosiect, a bydd cyfrifoldeb hefyd ar bartneriaid cyflawni i annog ymwelwyr nid yn unig i ymweld â'u safle eu hunain, ond hefyd i ymweld â safleoedd partner, ac i roi theori model hybiau STyB ar waith.

HWB DINORWIG:

Amgueddfa Lechi Cymru - mae'r safle yn rhan o bortffolio Amgueddfa Cymru ac yn cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru fel ased cenedlaethol, gyda mynediad am ddim i bawb. Bydd y prosiect adnewyddu yn cynyddu nifer yr ymwelwyr i'r safle, gan arwain at fwy o wario gan ymwelwyr yn y siop a'r caffi, a rhagwelir hefyd y bydd yn arwain yn anuniongyrchol at gynnydd mewn rhoddion gan ymwelwyr. Nid oes amheuaeth o gynaliadwyedd ariannol y safle.

HWB OGWEN:

Yr Hen Bost – mae cynllun busnes yn ei le ar gyfer y prosiect, sydd eisoes wedi arwain at fuddsoddiad gan Gronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru er mwyn prynu'r adeilad. Mae gan yr adeilad sawl ffrwd incwm er mwyn sicrhau cynaliadwyedd economaidd, gan gynnwys y defnydd o uned breswyl uwchben yr ased cymunedol fydd yn dod ag incwm rheolaidd i'r fenter er mwyn ail-fuddsoddi yng ngweithgareddau'r sefydliad. Bydd cwmni'r caffi a'r unedau micro-fusnes hefyd yn cynhyrchu incwm fydd yn ariannu gweithgareddau eraill yn yr ased, ac i redeg y ganolfan dehongli.

Neuadd Ogwen – mae'r ganolfan eisoes yn gynaliadwy yn ariannol fel y dengys y cynllun busnes presennol, bydd y buddsoddiad a dderbynnir drwy'r prosiect hwn yn gwella'r ased gan alluogi'r cwmni i groesawu mwy o ddi-gwyddiadau fydd yn denu cynulleidfaoedd mwy, a chynhyrchu mwy o incwm, felly'n cyfrannu at gynaliadwyedd ariannol cynyddol y fenter yn y dyfodol.

HWB FFESTINIOG:

22 a 23 Stryd yr Eglwys – mae cynllun busnes yn ei le ar gyfer y prosiect, sydd wedi arwain at fuddsoddiad gan Gronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru er mwyn prynu'r adeiladau. Mae gan y ddau adeilad sawl ffrwd incwm ar ffurf unedau preswyl ar y llawr uchaf, ac unedau micro-fusnes ar y llawr gwaelod, a bydd y cyfan yn ariannu gweithgareddau yn y gofod creadigol cymunedol ar lefel is yr adeiladau.

Aelwyd yr Urdd – mae'r adeilad eisoes yn rhedeg fel menter gynaliadwy, bydd buddsoddi yn yr adeilad yn galluogi Antur Stiniog i gynyddu gweithgareddau ar y safle, ac felly, cynyddu'r refeniw a gynhyrchir yn yr adeilad.

Uwchlwythwch wybodaeth bellach (dewisol)

Amlinellwch gynlluniau cymesur ar gyfer monitro a gwerthuso

Bwrdd Prosiect Llewyrch o'r Llechi yn dilyn dull deul ar gyfer monitro a gwerthuso:

- Gwerthuso llwyddiannau'r prosiectau a aseswyd yn erbyn y nodau, yr amcanion a'r allbynnau gwreiddiol;
- Gwerthuso prosesau, rheolaeth a chyflawniad y prosiect a chydrannau unigol (is-brosiectau).

Llwyddiant y Prosiect

Pwrpas y Gronfa Ffyniant Bro (*Levelling Up Fund*), a Phrosiect Llewyrch o'r Llechi yn benodol, yw cyflawni cynllun adfywio diwylliannol gwerth miliynau o bunnoedd yn nyffrynnoedd llechi Gwynedd. Nod y prosiectau yw manteisio ar y statws STyB diweddar er mwyn defnyddio diwylliant a threftadaeth fel gyrrwr ar gyfer adfywiad economaidd a chynhwysiad cymdeithasol, i gynyddu balchder a hyder lleol ymhlith ein cymunedau a chreu cyrchfannau deniadol o ansawdd uchel i bobl fyw, gweithio ac ymweld.

Cyflawni Prosiectau

Mae Prosiect Llewyrch o'r Llechi yn cael ei ddatblygu a'i weithredu yn drawsadrannol o fewn Cyngor Gwynedd a thraws-sefydliadau gyda phartneriaid strategol allweddol o fewn y dirwedd llechi.

Bydd angen i'r prosiect weithredu strwythur gyflawni gadarn fydd yn cynnwys bwrdd prosiect a grwpiau gweithredu unigol ar gyfer cyflawni ar lefel leol yn y tri hwb.

Bydd angen i'r mecanweithiau cyflawni ddilyn strwythur adrodd a rheoli prosiect cryf i sicrhau bod y prosiect yn cyflawni'r deilliannau mwyaf effeithlon.

Proses Werthuso a Methodoleg

- Disgwylir i'r broses werthuso ymdrin â'r amcanion isod:
- Aliniad strategol y prosiect o ran polisiâu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol;
- Gwerthuso i ba raddau y mae'r prosiect wedi ymdrin â'r heriau presennol a wynebir gan Wynedd yn gyffredinol, ac yn enwedig y tair cymuned llechi sy'n rhan o'r Prosiect hwn;
- Archwilio'r model cyflawni ar gyfer y prosiect yn gyffredinol a chydrannau unigol;
- Asesu i ba raddau y mae gweithgarwch y prosiect wedi cyflawni'r ymrwym- iadau cyflawni a amlinellwyd yn y cais hwn, a diwallu targedau dangosyddion perfformiad allweddol;
- Gwerthuso i ba raddau y mae effaith ehangach y prosiect yn effeithio cymun- edau eraill o fewn y dirwedd llechi, ardaloedd cyfagos ac economi a chymun- edau Gwynedd yn gyffredinol;
- Archwilio profiad y boblogaeth leol, ymwelwyr a busnesau wrth ymweld â'r tri hwb a'r newidiadau i'r ffactorau hyn dros amser;

Er mwyn cyflawni'r uchod, bydd Cyngor Gwynedd yn datblygu fframwaith i fonitro a gwerthuso llwyddiant y prosiect yn effeithiol. Bydd hyn yn digwydd mewn tair gwedd:

Gwedd 1 – datblygu adolygiad gwaelodlin y tair ardal. Bydd y gwaith yn cyn- nwys ymarfer meincnodi pen desg o'r holl ddogfennau, adroddiadau a data presennol, cyn gwneud adolygiad byr, cychwynnol o'r cyd-destun economaidd lleol presennol (data meintioli ac ansoddol); Gwedd 2 - datblygu adolygiad tymor canolig fydd yn cynnwys casgliadau ac argymhellion i hysbysu cyflawn- iad parhaus y prosiect. Bydd hyn yn cynnwys cyfweiliadau gyda staff cyflawni a rhan-ddeiliaid allweddol, ynghyd ag adolygiad o'r wybodaeth gwaelodlin a gasglwyd yng Ngwedd 1. Gwedd 3 - Yr adroddiad terfynol fydd yn asesu llwyddiant y prosiect yn gyffredinol. Bydd y dulliau a ddisgrifir uchod yn cael eu gwneud eto; fodd bynnag, bydd ffocws ar asesu deilliannau ac effaith ar lefel leol a lefel prosiect ehangach. Bydd y rhain yn cynnwys cyfweiliadau ac arolygon/holiaduron (ar-lein o bosib).

Mae'r uchod yn crynhoi'r gweddau a nodwyd ar gyfer monitro a gwerthuso, er bydd disgwyl i'r ymgynghorydd Monitro a Gwerthuso a benodir adnabod ei fethodoleg a'i ffordd o fynd i'r afael â'r dasg ei hun, ynghyd â chynghori'r Bwrdd Prosiect ar y dull a ffafrir.

Sylweddolir bod meincnodi a chasglu data yn allweddol a'r mae'r hyn a ganlyn yn awgrymu esiamplau o ddulliau casglu data:

- Peiriant cyfri cerddwyr;
- Data a gasglwyd drwy'r isadeiledd digidol a'r WiFi am ddim ym mhob tref;
- Gwerthiannau tocynnau maes parcio;
- Eiddo gwag yng nghanol trefi;
- Data a gasglwyd gan bartneriaid cyflawni ar wasanaethau / cyfleusterau presennol
- Bydd angen data ansoddol hefyd a gall hyn fod ar ffurf:
- Arolygon/holiaduron (wyneb yn wyneb ac ar-lein);

-Grwpiau ffocws
-Cyfweiliadau (gydag unigolion / defnyddwyr a chyda sefydliadau sefydledig mewn trefi megis y cyngor tref / grwpiau busnes);

Wrth ddatblygu holiadur / arolwg, cynnal cyfarfodydd neu gyfweld, dyma esiamplau o gwestiynau: Mae'r holl gwestiynau yn cyfrannu at greu darlun cyflawn o'r cyfweledigion:

-Rhyw;
-Oed;
-Pa hwb
-A oes unrhyw brosiectau / mentrau yr hoffech eu gweld yn yr hwb?
-Pam eich bod yn ymweld â'r hwb yn gyffredinol (diddordeb mewn treftadaeth, hamdden, addysg, gweithgaredd diwylliannol?)
-Pa mor aml ydych yn ymweld â'r hwb?
-Sut ydych yn teithio i'r hwb fel arfer (car, trê, cerdded, beicio, bws)?
-Ar gyfartaledd, faint ydych yn ei wario fel arfer?
-Beth yw agweddau cadarnhaol yr hwb?
-Beth yw agweddau negyddol yr hwb?
-Ar gyfartaledd, pa mor hir ydych yn ymweld â'r hwb?
-A fydech yn argymhell ymweliad â'r hwb?
-A ydych yn teimlo bod y prosiect adfywio diweddar wedi gwella eich profiad a'ch mwynhad o'r hwb?

Oherwydd natur yr ardaloedd dan sylw, byddai'n hanfodol i'r gwaith ystyried yr agwedd dymhorol yn y canfyddiadau. Nod y prosiect yw ymestyn y tymor twristiaeth a bydd ymgymryd ag asesiadau ar wahanol adegau o'r flwyddyn yn bwysig.

Drwy'r prosiect, bydd Cyngor Gwynedd yn ymgymryd â phroses gaffael i benodi ymgynghorwyr proffesiynol sydd â chymwysterau priodol i wneud y gwaith monitro a gwerthuso.

Mae Cyngor Gwynedd yn y broses o ddatblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) newydd fel rhan o ddatblygu'r Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy newydd. Bydd y rhain hefyd yn darparu gwaelodlin ar gyfer buddsoddiad ac i fonitro effaith yn yr ardaloedd hyn.

RHAN 9: Datganiadau ac Atodiadau

- 9.1. Datganiad Uwch Berchennog Cyfrifol**
Uwchlwythwch brofforma 7 - Datganiad Uwch Berchennog Cyfrifol
Profforma 7.pdf
- 9.2. Datganiad Prif Swyddog Cyllid**
Uwchlwythwch brofforma 8 - Datganiad Prif Swyddog Cyllid
Profforma 8.pdf
- 9.3. Cyhoeddi**
URL y wefan lle bydd y cynnig hwn yn cael ei gyhoeddi
- 9.3. Atodiadau ychwanegol**
Atodiad ffeil ychwanegol 1
Uwchlwythwch yr atodiad

Atodiad 1 - Prosbectws Prosiect Llewyrch o'r Llechi.pdf

Atodiad ffeil ychwanegol 2

Uwchlwythwch yr atodiad

Atodiad 2 - Tabl Arian Cyfatebol.pdf

Atodiad ffeil ychwanegol 3

Uwchlwythwch yr atodiad

Atodiad 3 - Cadarnhau Arian Cyfatebol.zip

Atodiad ffeil ychwanegol 4

Uwchlwythwch yr atodiad

Atodiad 4 - Tystiolaeth o Ymgysylltiad.zip

Atodiad ffeil ychwanegol 5

Uwchlwythwch yr atodiad

Atodiad 5 - Llythyrau o Gefnogaeth.zip

Atodiad ffeil ychwanegol 6

Uwchlwythwch yr atodiad

Atodiad 6 - Cynllun Cyngor Gwynedd.pdf

Atodiad ffeil ychwanegol 7

Uwchlwythwch yr atodiad

Atodiad 7 - Cyflwr Presennol Cadwraeth.pdf

Atodiad ffeil ychwanegol 8

Uwchlwythwch yr atodiad

Atodiad 8 - Strategaeth Ddehongli STyB.pdf

Atodiad ffeil ychwanegol 9

Uwchlwythwch yr atodiad

Atodiad 9 - Ystadegau'r Ardal.zip

Atodiad ffeil ychwanegol 10

Uwchlwythwch yr atodiad

Atodiad 10 - Asesiad Economaidd o STyB.pdf.

Atodiad ffeil ychwanegol 11

Uwchlwythwch yr atodiad

Atodiad 11 - Cynllun Cyflawni.pdf

Atodiad ffeil ychwanegol 12

Uwchlwythwch yr atodiad

Atodiad 12 - Strwythur y Prosiect.pdf

Atodiad ffeil ychwanegol 13

Uwchlwythwch yr atodiad

Atodiad 13 - Dyluniadau'r Prosiect.pdf

Atodiad ffeil ychwanegol 14

Uwchlwythwch yr atodiad

Manylion y Prosiect.zip

Atodiad ffeil ychwanegol 15

Uwchlwythwch yr atodiad

Atodiad 15 - Mapiau'r Hybiau.pdf

Atodiad A

A.1. Enw Prosiect 1

Hwb Dinorwig

A.2. Rhowch ddisgrifiad byr o'r prosiect hwn

Creu prif hwb ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd trwy fuddsoddiad yn Amgueddfa Lechi Cymru i wella profiadau ymwelwyr a gofod addysg ac arddangos. Ailddefnyddio strwythurau hanesyddol ym Mharc Padarn ar gyfer defnydd modern, a gwella cysylltedd rhwng Parc Padarn, Amgueddfa Lechi Cymru a'i nodweddion, a Chwarel Dinorwig. Bydd Cyngor Gwynedd hefyd yn ymgymryd ag ymyriadau cyhoeddus ar raddfa fechan yn Llanberis er mwyn sicrhau brand treftadaeth a diwylliant cyson ac adnabyddadwy ar draws Safle Treftadaeth y Byd.

A.3. Rhowch drosolwg manylach o'r prosiect

-Creu prif Hwb STyB yn Amgueddfa Lechi Cymru trwy uwchraddio ffabrig yr adeilad, creu gofod arddangos ac addysg newydd, a datblygu dehongliad newydd ac arloesol i drosglwyddo stori STyB ac annog ymweliadau thematig. Dyma'r cam cyntaf yn y gwaith o ailddatblygu'r safle, a'r ail gam fydd creu Amgueddfa'r Gogledd, sy'n flaenoriaeth strategol i Lywodraeth Cymru.

-Ailwrpasu strwythurau hanesyddol ym Mharc Padarn i greu cyfleusterau newydd a chwrdd â gofynion presennol y defnyddwyr, gan gynnwys creu canolfan wirfoddoli a chanolfan ddeifio.

-Gwella isadeiledd ymwelwyr ym Mharc Padarn gan gynnwys cyfleusterau cyhoeddus, maes parcio, gosod raciau beiciau, adnodd golchi beiciau a phwyntiau gwefru trydan.

-Gwella cysylltedd trwy greu llwybrau newydd, agor llwybrau hanesyddol a gwella hawliau tramwy cyhoeddus.

-Gwelliannau i gyrchfannau yn Llanberis, gan gynnwys gwaith i ofod cyhoeddus, dehongli, celfi stryd a gwaith celf cyhoeddus. Bydd pob un yn cael ei ddatblygu gyda thema gyffredin 'llechi' wedi'i dylanwadu gan ddiwylliant unigryw STyB.

Mae holl elfennau'r cais wedi'u halinio gan eu bod yn darparu cam cyntaf gweithredu Cynllun Dehongli STyB, ac mae'r tri lleoliad sydd wedi'u cynnwys yn y cais hwn yn feysydd blaenoriaeth ac felly wedi'u cynnwys yn y cam cyntaf. Mae pob elfen yn cynnwys dehongli, gwell cysylltedd, ac ailddatblygu adeiladau segur neu adfeiliedig at ddefnydd cymunedol. Bydd gweithredu'r cais yn creu cynnig cydlynus ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr, fydd yn gwireddu uchelgais STyB o greu ffyniant economaidd a chynhwysiant cymdeithasol trwy dreftadaeth a diwylliant.

A.4. Rhowch ddisgrifiad byr o'r ardal ble gwneir y buddsoddiad ar gyfer y prosiect hwn

Bydd yr elfen hon yn digwydd yn Narn Cydrannol 2 STyB, gan ganolbwyntio ar Chwarel Dinorwig a chymuned gyfagos Llanberis. Bydd prosiectau'n cael

eu gweithredu ar safle Amgueddfa Lechi Cymru (Gilfach Ddu) a'r parc gwledig cyfagos a elwir yn Parc Padarn.

Gweler Atodiad 15 am y mapiau Hwb unigol.

Mae'r ardal yn gorwedd o fewn ffin Parc Cenedlaethol Eryri ac/neu o fewn Ardal Cymeriad Arbennig sy'n rhoi'r lefel uchaf o warchodaeth iddi o fewn Fframwaith Polisi Cynllunio Cymru, ac mae hefyd yn gorwedd o fewn dynodiad STyB. Nid oes unrhyw safleoedd datblygu oddi mewn i'r ardal.

Mae'r dynodiadau a ganlyn yn ymwneud â, neu'n agos at ardal y prosiect:

-Henebion Cofrestredig

-Adeiladau Rhestredig

-Coetir Hynafol Lled

-Naturiol -Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

-Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

A.5. Manylion lleoliad pellach ar gyfer y prosiect hwn

Lleoliad 1 y Prosiect

Cod post

LL55 4TY

Cyfeirnod grid

SH 58542 60248

Llwythwch ffeil GIS/map (dewisol)

% y buddsoddiad prosiect yn y lleoliad hwn

46%

Lleoliad 2 y Prosiect

Cod post

LL55 4TY

Cyfeirnod grid

SH 58506 60442

Llwythwch ffeil GIS/map (dewisol)

% y buddsoddiad prosiect yn y lleoliad hwn

9%

Lleoliad 3 y Prosiect

Cod post

LL55 4EU

Cyfeirnod grid

SH 57735 60407

Llwythwch ffeil GIS/map (dewisol)

% y buddsoddiad prosiect yn y lleoliad hwn

4%

A.6. Dewiswch yr etholaethau a gynhwysir yn y prosiect hwn

Etholaeth 1 y Prosiect

Dewiswch etholaeth

Arfon

Amcangyfrifwch ganran y prosiect pecyn hwn a fuddsoddwyd yn yr etholaeth hon

100%

A.7. Dewiswch yr awdurdodau lleol / cynghorau a gynhwysir yn y prosiect hwn

Awdurdod Lleol 1 y Prosiect

Dewiswch awdurdod lleol

Gwynedd

Amcangyfrifwch ganran y prosiect pecyn hwn a fuddsoddwyd yn yr Awdurdod Lleol hwn

100%

A.8. Faint yw cyfanswm y grant y gofynnir amdano o'r Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer y prosiect hwn?

£9,694,653

A.9. Beth yw cyfran y cyllid y gofynnir amdano ar gyfer pob un o dair thema buddsoddi'r Gronfa?

Adfywio a Chanol Trefi

0%

Diwylliannol

100%

Cludiant

0%

A.10. Cadarnhewch werth yr arian cyfatebol a sicrhawyd ar gyfer y prosiect cydrannol

£1,086,000

A.11. Rhowch fanylion yr holl ffynonellau arian cyfatebol yn eich cais ar gyfer y prosiect cydrannol hwn

Mae'r arian cyfatebol a ganlyn wedi'i sicrhau ar gyfer yr elfen hon o'r prosiect:

- Cyngor Gwynedd (ei gronfeydd ei hunan) £326,000
- Croeso Cymru, Cronfa Y Pethau Pwysig (grant) £250,000
- Llywodraeth Cymru (cyfraniad i Amgueddfa Cymru) £500,000 2022/23
- Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (grant) £10,000

Mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid cyflawni wedi ymrwymo i sicrhau cyllid ar gyfer unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r lwfans risg i bob prosiect unigol. Mae cyllideb ddyranedig o £79,045.00 (5%) wedi'i nodi fel lwfans risg ar gyfer Hwb Dinorwig.

Nid yw'r arian cyfatebol a ganlyn wedi'i sicrhau ar gyfer yr elfen hon o'r prosiect:

- Llywodraeth Cymru £5,683,000 (cais am gyfraniad wedi'i gyflwyno). Disgwylir penderfyniad ar y cais ym mis Medi 2022.
- Grant cam gweithredu o £56,667 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a fydd yn dilyn o gyllid y cam datblygu a sicrhawyd eisoes. Mae cyllid y cam gweithredu wedi'i gytuno mewn egwyddor ac mae'n amodol ar gyflawni cam gweithredu'r prosiect yn llwyddiannus. Bydd cyllid Cam Cyflawni yn ei le o 2023-28.

A.12. Gwerth am arian

Mae gan y prosiect amrediad eang o effeithiau buddiol, gan gynnwys:

- ymweliadau ychwanegol
- cyfranogiad ychwanegol mewn gweithgareddau diwylliannol
- cyfleoedd gwirfoddoli ychwanegol
- cefnogaeth i swyddi ychwanegol
- creu a gwella llwybrau
- adnewyddu ac adfer asedau treftadaeth

Yn hwb Dinorwig, mae'r buddion hyn yn sylweddol, er enghraifft bydd 45,000 o ymwelwyr ychwanegol â safle diwylliannol treftadaeth Amgueddfa Lechi Cymru, a'u heffaith economaidd, yn gadarnhaol iawn i'r rhanbarth. Mae hyn wedi'i gydbwysu gyda chynllunio atyniadau i ymestyn y flwyddyn ymwelwyr a

galluogi gwastatáu pegynau tymhorol er mwyn lliniaru effeithiau negyddol ar gymunedau lleol Llanberis.

Bydd pobl leol yn elwa o gyfleoedd helaeth ac ychwanegol i gymryd rhan a gwirfoddoli, hyfforddi a defnyddio cyfleusterau yn y safle a adnewyddwyd ac ar draws y Parc, gan gyflawni buddion llesiant sy'n ymestyn ar draws iechyd, dysgu, hyder, cyflogadwyedd a boddhad mewn bywyd.

Mae effeithiau andwyol wedi'u cyfyngu i effeithiau amgylcheddol yr adeiladu, a fydd yn cael eu rheoli'n ofalus ac yn llawn fel rhan o ffocws y prosiect ar gynaliadwyedd, ac o bosib rai cyfnodau byr o gau ar gyfer y gwaith - er mai'r cynllun presennol yw gweithio fesul cam fel bod y safleoedd yn parhau'n agored drwy'r adeg.

A.13. Cymhareb budd-cost (BCR) ac asesiad gwerth

Os nad yw'n bosib darparu cymhareb budd-cost gyffredinol ar gyfer eich cynnig pecyn, eglurwch pam isod

Cymarebau budd-cost

Cymhareb budd-cost gychwynnol

2.280

Cymhareb budd-cost addasedig

2.960

A.14. Buddion heb werth ariannol ar gyfer y prosiect hwn

Bydd gwaith hwb Dinorwig yn cynyddu balchder lleol yn y lle a hyder cymunedol yn sylweddol, yn cynhyrchu buddion iechyd yn ogystal â llesiant i bobl leol ac ymwelwyr ac yn cryfhau treftadaeth iaith a diwylliant. Yn ychwanegol, mae'r tri phrosiect hwb gyda'i gilydd yn cyfuno i gyflwyno achos strategol cryf dros fuddsoddi ar draws Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi – gyda'r buddion wedi'u cyfuno yn mynd y tu hwnt i effaith fesuradwy pob safle prosiect.

Mae'r buddion hyn wedi'u dynodi mewn ymgynghoriadau helaeth gyda chymunedau lleol fel rhan o broses arysgrifio STyB Tirwedd Llechi a chynlluniau datblygu lleol.

A.15. A yw'r prosiect hwn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer rhywfaint o wariant grant Cronfa Ffyniant Bro yn 2022-23?

Ydi

A.16. A ellid cyflawni'r prosiect hwn fel prosiect ar ei ben ei hun?

Gellid - fe ellid cyflawni'r prosiect fel prosiect ar ei ben ei hun.

A.17. Dangoswch y gellir cyflawni gweithgaredd ar gyfer y prosiect hwn yn 2022-23

Ydi, mae'r gwaith a ganlyn wedi'i amserlennu ar gyfer 2022-23.

Amgueddfa Lechi Cymru:

-RIBA cam 3 a cham 4, a chyflwyno cais cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig

Gwelliannau i Barc Padarn:

-Toiledau - tendro a phenodi contractwyr, paratoi pecynnau dylunio a thendro, cyflwyno cais cynllunio

-Adeilad Wardeiniaid - tendro a phenodi contractwyr, paratoi pecynnau dylunio a thendro, cyflwyno cais cynllunio

-Adeilad Chwarel Vivian - tendro a phenodi contractwyr, paratoi pecynnau dylunio a thendro

-Gwelliannau i Adeilad Hafod Owen - tendro a phenodi contractwyr

Gwella Cysylltedd:

-Llwybr Ysbyty'r Chwarel - paratoi pecyn dylunio a thendro, cyflwyno tendr a phenodi, paratoi safle, cloddio/lefelu'r tir

Isadeiledd a Dehongli:

-Isadeiledd canol tref a rheoli prosiect

Mae Amgueddfa Lechi Cymru eisoes wedi penodi penseiri treftadaeth a fydd yn arwain ar ddatblygiad pellach y cynlluniau ar gyfer y safle, ni fydd unrhyw oedi wrth symud ymlaen gyda'r ffrwd waith hon, a bydd yr un ymgynghorwyr hefyd yn gyfrifol am gyflwyno'r caniatadau angenrheidiol, a fydd yn digwydd cyn gynted ag y bydd camau 3 a 4 RIBA wedi'u cwblhau.

Bydd Parc Padarn a gwell elfennau cysylltedd hefyd yn gyfrifoldeb ar Gyngor Gwynedd, lle bydd unigolyn sydd eisoes yn ei swydd yn gyfrifol am baratoi'r pecyn tendro, asesu cyflwyniadau a phenodi contractwr llwyddiannus.

Bydd Cyngor Gwynedd hefyd yn gyfrifol am weithredu'r elfen isadeiledd a dehongli o'r cais, a bydd hyn hefyd yn dechrau yn ystod 2022-23.

Nid oes rheswm i gredu y bydd unrhyw oediad yn yr amserlen arfaethedig ar gyfer 2022-23.

Gall yr elfennau o'r prosiect sydd wedi'u cynnwys fel rhan o ddatblygiad yr Hwb fod yn brosiectau sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain, o fewn yr hwb a hefyd o fewn y prosiect yn gyfan gwbl. Er mai cryfder y prosiect hwn yw cwblhau tri hwb a thrwy hynny gynnig agwedd gyfannol at adfywio'r dirwedd

lechi, gellir ymgymryd ag elfennau unigol a byddent yn cyfrannu at weithio tuag at nod y prosiect drwyddo draw.

A.18. Pwerau a Chaniatadau Statudol - Rhestrwch ar wahân isod, bob pŵer/caniatâd ac ati a gafwyd ar gyfer y prosiect hwn

Mae'r prosiect wedi ei gymeradwyo gan berchnogion/gweithredwyr y meysydd ymyrraeth, Cyngor Gwynedd ac Amgueddfa Cymru.

Uwchlwythwch ddogfennau cynnwys (dewisol)

A.19. Pwerau/caniatadau statudol sydd heb eu gweithredu

Mae dyluniadau cynlluniau ar y gweill ac ymgynghorwyd â Cadw i sefydlu'r egwyddor o gefnogaeth i'r ymyriadau.

Ar ôl eu cymeradwyo, bydd y cynlluniau'n cael eu datblygu i RIBA 3 a gwneir cais am ganiatâd cynllunio ac adeilad rhestredig.

Yn gyffredinol mae'r gwaith wedi'i gyfyngu i adnewyddu ac adfer ac mae'r broses gynllunio a chaniatâd rhestredig yn cael ei hystyried yn risg isel ar hyn o bryd.

Atodiad B

B.1. Enw Prosiect 2

Hwb Ogwen

B.2. Rhowch ddisgrifiad byr o'r prosiect hwn

Creu hwb ar gyfer STyB trwy fuddsoddiad mewn eiddo yng nghanol y dref i greu canolfannau diwylliannol a chanolfan teithio gwyrdd, canolfan ddehongli, unedau microfusnes, caffi cynnyrch lleol a gofod creadigol. Creu cyswllt beicio a cherdded rhwng Bethesda a Chwarel y Penrhyn, safle'r prif atyniadau twristiaeth ac asedau hanesyddol. Bydd Cyngor Gwynedd hefyd yn ymgymryd ag ymyriadau cyhoeddus ar raddfa fechan ym Methesda er mwyn sicrhau brand treftadaeth a diwylliant cyson ac adnabyddadwy ar draws Safle Treftadaeth y Byd.

B.3. Rhowch drosolwg manylach o'r prosiect

Creu hwb STyB ar gyfer Dyffryn Ogwen yn cynnwys:

-buddsoddiad yn Yr Hen Bost, yr hen adeilad SPAR gwag ar Stryd Fawr Bethesda, i'w drawsnewid yn unedau micro-fusnes, caffi cynnyrch lleol, gofod creadigol a hyfforddi ac uned breswyl, mae'r prosiect hefyd yn cynnwys creu canolfan dreftadaeth a dehongli bwrpasol mewn estyniad modern i'r adeilad.

-Uwchraddio ffabrig Neuadd Ogwen trwy ynysu'r brif neuadd rhag sain er mwyn galluogi'r lleoliad i gynnal digwyddiadau mwy, digwyddiadau gyda'r nos a digwyddiadau newydd.

-Llwybr beicio a cherdded pwrpasol yn cysylltu Bethesda a Chwarel y Penrhyn. Chwarel y Penrhyn yw'r lleoliad ar gyfer y prif atyniadau twristiaeth o dan weithrediad Zip World, ac ar gyfer llawer o asedau hanesyddol arwyddocaol a gysylltir â'r Diwydiant Llechi.

-Gwelliannau i gyrchfannau ym Methesda, gan gynnwys gwaith i ofod cyhoeddus, dehongli, celfi stryd a gwaith celf cyhoeddus. Bydd pob un yn cael ei ddatblygu gyda thema gyffredin 'llechi' wedi'i dylanwadu gan ddiwylliant unigryw STyB.

Mae holl elfennau'r cais wedi'u halinio gan eu bod yn darparu cam cyntaf gweithredu Cynllun Dehongli STyB, ac mae'r tri lleoliad sydd wedi'u cynnwys yn y cais hwn yn feysydd blaenoriaeth ac felly wedi'u cynnwys yn y cam cyntaf. Mae pob elfen yn cynnwys dehongli, gwell cysylltedd, ac ailddatblygu adeiladau segur neu adfeiliedig at ddefnydd cymunedol. Bydd gweithredu'r cais yn creu cynnig cydlynus ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr, fydd yn gwireddu uchelgais STyB o greu ffyniant economaidd a chynhwysiant cymdeithasol trwy dreftadaeth a diwylliant.

B.4. Rhowch ddisgrifiad byr o'r ardal ble gwneir y buddsoddiad ar gyfer y prosiect hwn

Bydd yr elfen hon yn digwydd yn Narn Cydrannol 1 STyB, gan ganolbwyntio ar Chwarel y Penrhyn a chymuned gyfagos Bethesda. Bydd prosiectau yn cael eu gweithredu ar Stryd Fawr Bethesda, a hefyd rhwng Bethesda a Chwarel y Penrhyn, sy'n bellter o thua milltir ar hyd y ffordd.

Gweler Atodiad 15 am y mapiau Hwb unigol.

Mae'r ardal yn gorwedd o fewn ffin Parc Cenedlaethol Eryri ac/neu o fewn Ardal Cymeriad Arbennig sy'n rhoi'r lefel uchaf o warchodaeth iddi o fewn Fframwaith Polisi Cynllunio Cymru, ac mae hefyd yn gorwedd o fewn dynodiad STyB. Nid oes unrhyw safleoedd datblygu oddi mewn i'r ardal.

Mae'r dynodiadau a ganlyn yn ymwneud â, neu'n agos at ardal y prosiect: - Adeiladau Rhestredig -Coetir Hynafol Lled-Naturiol

B.5. Manylion lleoliad pellach ar gyfer y prosiect hwn

Lleoliad 1 y Prosiect

Cod post

LL57 3AY

Cyfeirnod grid

SH 62407 66669

Llwythwch ffeil GIS/map (dewisol)

% y buddsoddiad prosiect yn y lleoliad hwn

6%

Lleoliad 2 y Prosiect

Cod post

LL57 3AN

Cyfeirnod grid

SH 62232 66800

Llwythwch ffeil GIS/map (dewisol)

% y buddsoddiad prosiect yn y lleoliad hwn

1%

Lleoliad 3 y Prosiect

Cod post

LL57 3AY

Cyfeirnod grid

SH 62477 66571

Llwythwch ffeil GIS/map (dewisol)

% y buddsoddiad prosiect yn y lleoliad hwn

7%

Lleoliad 4 y Prosiect

Cod post

LL57 3AG

Cyfeirnod grid

SH 62267 66813

Llwythwch ffeil GIS/map (dewisol)

% y buddsoddiad prosiect yn y lleoliad hwn

4%

B.6. Dewiswch yr etholaethau a gynhwysir yn y prosiect hwn

Etholaeth 1 y Prosiect

Dewiswch etholaeth

Arfon

Amcangyfrifwch ganran y prosiect pecyn hwn a fuddsoddwyd yn yr etholaeth hon

18%

B.7. Dewiswch yr awdurdodau lleol / cynghorau a gynhwysir yn y prosiect hwn

Awdurdod Lleol 1 y Prosiect

Dewiswch awdurdod lleol

Gwynedd

Amcangyfrifwch ganran y prosiect pecyn hwn a fuddsoddwyd yn yr Awdurdod Lleol hwn

100%

B.8. Faint yw cyfanswm y grant y gofynnir amdano o'r Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer y prosiect hwn?

£4,344,153

B.9. Beth yw cyfran y cyllid y gofynnir amdano ar gyfer pob un o dair thema buddsoddi'r Gronfa?

Adfywio a Chanol Trefi

0%

Diwylliannol

100%

Cludiant

0%

B.10. Cadarnhewch werth yr arian cyfatebol a sicrhawyd ar gyfer y prosiect cydrannol

£294,243

B.11. Rhowch fanylion yr holl ffynonellau arian cyfatebol yn eich cais ar gyfer y prosiect cydrannol hwn

Mae'r arian cyfatebol a ganlyn wedi'i sicrhau ar gyfer yr elfen hon o'r prosiect:

- Tabernacl (Bethesda) Cyf (ei gronfeydd ei hunan) £34,243.00
- Cronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y DU (grant) £20,000
- Partneriaeth Ogwen (ei chronfeydd ei hunan) £20,000
- Teithio Llesol Llywodraeth Cymru (grant) £210,000
- Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (grant) £10,000

Mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid cyflawni wedi ymrwymo i sicrhau cyllid ar gyfer unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r lwfans risg i bob prosiect unigol. Mae cyllideb ddyranedig o £23,040.00 wedi'i nodi fel lwfans risg ar gyfer Hwb Ogwen.

Nid yw'r arian cyfatebol a ganlyn wedi'i sicrhau ar gyfer yr elfen hon o'r prosiect:

-Mae Partneriaeth Ogwen yn ceisio cyfraniadau grant ychwanegol ar gyfer yr elfen sy'n weddill o'u pecyn ariannu, cyfanswm o £120,300. Ceisir hyn gan gronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru, a/neu Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Os na sicrheir y pecyn ariannu llawn trwy un grant, neu gyfuniad o'r cyllidwyr a nodir uchod, bydd Partneriaeth Ogwen yn gwarantu'r swm. Mae trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda chyllidwyr, ac mae ceisiadau'n cael eu paratoi gyda'r nod o gyflwyno a chael penderfyniad cyn dyfarnu cyllid Cronfa Ffyniant Bro.

-Grant cam gweithredu o £56,667 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a fydd yn dilyn o gyllid y cam datblygu a sicrhawyd eisoes. Mae cyllid y cam gweithredu wedi'i gytuno mewn egwyddor yn amodol ar gyflawni cam gweithredu'r prosiect yn llwyddiannus. Bydd cyllid Cam Cyflawni yn ei le o 2023-28.

B.12. Gwerth am arian

Mae'r prosiect yn cyflawni gwerth rhagorol am arian gyda chymhareb budd-cost addasedig ymhell dros 3.

Yn Ogwen a Ffestiniog, ein problem allweddol yw nad oes dehongliad o STyB o fewn pentref Bethesda na thref Blaenau Ffestiniog ar hyn o bryd. Mae'r cymunedau lleol hynod weithgar wedi prynu hen eiddo masnachol a chyfleusterau diwylliannol gyda'r nod o ddatblygu canolfan ddeori busnes ffyniannus a hwb dehongli yn ogystal â gwasanaethau ieuentid a sgiliau gyda ffocws hefyd ar straeon treftadaeth pwysig yr ardaloedd a'u rhan yn STyB. Trwy integreiddio treftadaeth gydag unedau busnes a gweithgareddau ieuentid, gallai'r rhain ddod yn fodolau gweithredol cynaliadwy i gymunedau eraill eu hefelychu o fewn y dirwedd lechi.

Yn Ogwen fel yn Ffestiniog, her arall yw'r diffyg cyswllt rhwng y pentref/tref a'r chwarel a'u creodd. Trwy ddatblygu llwybrau llesiant cynaliadwy, eir i'r afael â'r broblem hon gan arwain at well cysylltedd rhwng safleoedd ac annog

ymwelwyr ag atyniadau ar gyrion y cymunedau hyn i aros yn hwy a mentro i'r cymunedau i ddysgu mwy a phrofi eu treftadaeth a'u diwylliant cryf.

Mae ar y tair ardal angen buddsoddiad yn eu treflun a bydd y prosiect hwn yn gweithio gyda'r cymunedau i feithrin balchder lle ac ymdeimlad o le yn y tair ardal. Byddwn yn gweithio gydag artistiaid a phobl greadigol i greu celf gyhoeddus fel porth i STyB yn ogystal â sicrhau bod elfennau sylfaenol y cymunedau (e.e. biniau, toiledau, celfi stryd, isadeiledd digwyddiadau ac ati) o'r safon uchaf. Bydd hyn yn arwain at fwy o gyfleoedd ar gyfer digwyddiadau cymunedol a chynnydd mewn ymdeimlad o falchder yn ein cymunedau.

Bydd Hwb Ogwen yn cynhyrchu'r buddion a ganlyn:

- ymweliadau ychwanegol
- cyfranogiad ychwanegol mewn gweithgareddau diwylliannol
- cyfleoedd gwirfoddoli ychwanegol
- cefnogaeth i swyddi ychwanegol
- creu a gwella llwybrau
- creu unedau menter

Nid ydym yn rhagweld y bydd y cynllun yn cael unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ac eithrio effeithiau amgylcheddol y gwaith a wneir, a fydd yn cael eu lliniaru gan ffocws cynaliadwyedd trwyadl wrth gynllunio a chyflawni'r gwaith.

B.13. Cymhareb budd-cost (BCR) ac asesiad gwerth

Os nad yw'n bosib darparu cymhareb budd-cost gyffredinol ar gyfer eich cynnig pecyn, eglurwch pam isod

Cymarebau budd-cost

Cymhareb budd-cost gychwynnol

2.850

Cymhareb budd-cost addasedig

3.410

B.14. Buddion heb werth ariannol ar gyfer y prosiect hwn

Bydd gwaith hwb Ogwen yn cynyddu balchder lleol yn y lle a hyder cymunedol yn sylweddol, yn cynhyrchu buddion iechyd yn ogystal â llesiant i bobl leol ac ymwelwyr ac yn cryfhau treftadaeth iaith a diwylliant. Bydd darparu llwybrau newydd o'r chwarel i'r dref yn gwella effeithiau amgylcheddol teithio presennol, ac yn cryfhau gwytnwch a bywiogrwydd canol y dref. Yn ychwanegol, mae'r tri phrosiect hwb gyda'i gilydd yn cyfuno i gyflwyno achos strategol cryf dros fuddsoddi ar draws Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi

– gyda'r buddion wedi'u cyfuno yn mynd y tu hwnt i effaith fesuradwy pob safle ymyrraeth.

Mae'r buddion hyn wedi'u dynodi mewn ymgynghoriadau helaeth gyda chymunedau lleol fel rhan o broses arysgrifio STyB Tirwedd Llechi a chynlluniau datblygu lleol.

B.15. A yw'r prosiect hwn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer rhywfaint o wariant grant Cronfa Ffyniant Bro yn 2022-23?

Ydi

B.16. A ellid cyflawni'r prosiect hwn fel prosiect ar ei ben ei hun?

Gellid - fe ellid cyflawni'r prosiect fel prosiect ar ei ben ei hun.

B.17. Dangoswch y gellir cyflawni gweithgaredd ar gyfer y prosiect hwn yn 2022-23

Ydi, mae'r gwaith a ganlyn wedi'i amserlennu ar gyfer 2022-23.

Yr Hen Bost:

-Cyflwyno cais cyn cyflwyno, datblygu cynlluniau RIBA cam 3, comisiynu peiriannydd strwythurol, ymgynghorydd asbestos ac ecolegydd, cyflwyno cais cynllunio a rheolaeth adeiladu, proses dendro, penodi contractwyr, contractwyr ar safle, gwedd 1 (adnewyddu adeilad presennol) yn dechrau.

Neuadd Ogwen:

-Gwaith dylunio, penodi contractwyr a dechrau adeiladu

Cyswllt beicio a cherdded rhwng Bethesda a Chwarel y Penrhyn:

-Dyluniad ac arolygon

Isadeiledd a Dehongli:

-Isadeiledd canol tref a rheoli prosiect

Mae Partneriaeth Ogwen wedi penodi penseiri treftadaeth a fydd yn arwain ar ddatblygiad pellach y cynlluniau ar gyfer yr adeilad, ni fydd unrhyw oedi wrth symud ymlaen gyda'r ffrwd waith hon, a bydd yr un ymgynghorwyr hefyd yn gyfrifol am gyflwyno'r caniatadau angenrheidiol.

Mae Neuadd Ogwen hefyd wedi penodi Rheolwyr Prosiect sydd wedi arwain ar y prif waith adnewyddu ar y Neuadd a byddant yn parhau â'u rôl i weithredu'r uwchraddiad sydd wedi'i gynnwys yn y cais hwn. Mae pob caniatâd perthnasol eisoes yn ei le.

Cyngor Gwynedd fydd yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r llwybr beicio a

cherdded rhwng Bethesda a Chwarel y Penrhyn; mae staff eisoes yn eu lle fydd yn arwain ar y prosiect hwn ac mae ganddynt brofiad helaeth o gyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb.

Bydd Cyngor Gwynedd hefyd yn gyfrifol am weithredu'r elfen isadeiledd a dehongli o'r cais, a bydd hyn hefyd yn dechrau yn ystod 2022–23.

Nid oes rheswm i gredu y bydd unrhyw oediad yn yr amserlen arfaethedig ar gyfer 2022-23.

Gall yr elfennau o'r prosiect sydd wedi'u cynnwys fel rhan o ddatblygiad yr Hwb fod yn brosiectau sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain, o fewn yr hwb a hefyd o fewn y prosiect yn gyfan gwbl. Er mai cryfder y prosiect hwn yw cwblhau tri hwb a thrwy hynny gynnig agwedd gyfannol at adfywio'r dirwedd lechi, gellir ymgymryd ag elfennau unigol a byddent yn cyfrannu at weithio tuag at nod y prosiect drwyddo draw.

B.18. Pwerau a Chaniatadau Statudol - Rhestrwch ar wahân isod, bob pŵer/caniatâd ac ati a gafwyd ar gyfer y prosiect hwn

Yr Hen Bost - Cyngor cyn ymgeisio – cyflwynwyd ym mis Mai 2022

Neuadd Ogwen - Caniatâd Cynllunio - caniatawyd ar 07/08/2020

Llwybr beicio/cerdded Bethesda i Chwarel y Penrhyn - ni dderbyniwyd caniatâd

Uwchlwythwch ddogfennau cynnwys (dewisol)

B.19. Pwerau/caniatadau statudol sydd heb eu gweithredu

Yr Hen Bost

-Caniatâd Cynllunio - i'w gyflwyno ym mis Awst 2022 -Caniatâd Rheoliadau Adeiladu - i'w gyflwyno ym mis Awst 2022

Neuadd Ogwen

-Dim caniatadau heb eu gweithredu

Llwybr beicio/cerdded Bethesda i Chwarel y Penrhyn

-Cytundeb tiffeddiannwr - i'w gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2023
-Caniatâd cynllunio - y dyluniad terfynol fydd yn penderfynu a oes angen caniatâd cynllunio

Atodiad C

C.1. Enw Prosiect 3

Hwb Ffestiniog

C.2. Rhowch ddisgrifiad byr o'r prosiect hwn

Creu hwb ar gyfer STyB trwy fuddsoddiad mewn eiddo yng nghanol y dref i greu gofodau diwylliannol, creadigol ac ieuenctid, unedau microfusnes, ac addasu dwy uned breswyl. Hefyd, creu cyswllt beicio a cherdded rhwng Blaenau Ffestiniog a Chwarel Llechwedd, safle'r prif atyniadau twristiaeth ac asedau hanesyddol. Bydd Cyngor Gwynedd hefyd yn ymgymryd ag ymyriadau cyhoeddus ar raddfa fechan ym Mlaenau Ffestiniog er mwyn sicrhau brand treftadaeth a diwylliant cyson ac adnabyddadwy ar draws Safle Treftadaeth y Byd.

C.3. Rhowch drosolwg manylach o'r prosiect

Creu hwb STyB ar gyfer ardal Ffestiniog:

-Buddsoddiad yn 22 a 23 Stryd yr Eglwys, dau eiddo adfeiliedig ar y Stryd Fawr. Bydd y prosiect yn eu trawsnewid yn unedau microfusnesau cychwynnol, gan adnewyddu dwy uned breswyl ar y llawr cyntaf i roi cymhorthdal i'r rhenti busnes, a chyfuno islawr y ddau adeilad i greu gofod cymunedol.

-Uwchraddio Aelwyd yr Urdd, adeilad hanesyddol arwyddocaol, er mwyn gwella ei gynnydd diwylliannol ac ehangu'r ddarpariaeth ieuenctid drwy greu gofodau hyfforddi, addysg, creadigrwydd, eiriolaeth a digwyddiadau.

-Llwybr beicio/cerdded pwrpasol yn cysylltu Blaenau Ffestiniog gyda Chwarel Llechwedd, lleoliad prif atyniadau twristiaeth sy'n cael eu rhedeg gan Zip World (gwifrau gwib, golff tanddaearol, teithiau ceudyllau), JW Greaves (llety) ac Antur Stiniog (beicio i lawr gallt), ac i asedau hanesyddol arwyddocaol sy'n gysylltiedig â'r diwydiant llechi.

-Gwelliannau i gyrchfannau ym Mlaenau Ffestiniog, gan gynnwys gwaith i ofod cyhoeddus, dehongli, celfi stryd a gwaith celf cyhoeddus. Bydd pob un yn cael ei ddatblygu gyda thema gyffredin 'llechi' wedi'i dylanwadu gan ddiwylliant unigryw STyB.

Mae holl elfennau'r cais wedi'u halinio gan eu bod yn darparu cam cyntaf gweithredu Cynllun Dehongli STyB, ac mae'r tri lleoliad sydd wedi'u cynnwys yn y cais hwn yn feysydd blaenoriaeth ac felly wedi'u cynnwys yn y cam cyntaf. Mae pob elfen yn cynnwys dehongli, gwell cysylltedd, ac ailddatblygu adeiladau segur neu adfeiliedig at ddefnydd cymunedol. Bydd gweithredu'r cais yn creu cynnydd cydlynus ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr, fydd yn gwireddu uchelgais STyB o greu ffyniant economaidd a chynhwysiant cymdeithasol trwy dreftadaeth a diwylliant.

C.4. Rhowch ddisgrifiad byr o'r ardal ble gwneir y buddsoddiad ar gyfer y prosiect hwn

Bydd yr elfen hon yn digwydd yn Narn Cydrannol 5 STyB, gan ganolbwyntio ar Chwarel Llechwedd a chymuned gyfagos Blaenau Ffestiniog. Bydd prosiectau yn cael eu gweithredu ar Stryd Fawr Blaenau Ffestiniog, a hefyd rhwng Blaenau Ffestiniog a Chwarel Llechwedd, sy'n bellter o thua milltir a hanner ar hyd y ffordd.

Gweler Atodiad 15 am y mapiau Hwb unigol.

Mae'r ardal yn gorwedd o fewn ffin Parc Cenedlaethol Eryri ac/neu o fewn Ardal Cymeriad Arbennig sy'n rhoi'r lefel uchaf o warchodaeth iddi o fewn Fframwaith Polisi Cynllunio Cymru, ac mae hefyd yn gorwedd o fewn dynodiad STyB. Nid oes unrhyw safleoedd datblygu oddi mewn i'r ardal.

Mae'r dynodiadau a ganlyn yn ymwneud ag ardal y prosiect: -Henebion Cofrestredig -Adeiladau Rhestredig.

Mae'r Llwybr Cyd-ddefnyddio arfaethedig yn ffurfio rhan o'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol a gyflwynwyd gan Gyngor Gwynedd i LIC i'w gymeradwyo. Fe'i nodir fel llwybr beicio at y dyfodol, fodd bynnag mae hyn yn amodol ar gytundeb a byddai pryniant tir LIC yn caniatáu gwelliannau pellach/defnydd ehangach o'r llwybr cyd-ddefnyddio.

C.5. Manylion lleoliad pellach ar gyfer y prosiect hwn

Lleoliad 1 y Prosiect

Cod post

LL41 3HD

Cyfeirnod grid

SH 70057 45947

Llwythwch ffeil GIS/map (dewisol)

% y buddsoddiad prosiect yn y lleoliad hwn

5%

Lleoliad 2 y Prosiect

Cod post

LL41 3DA

Cyfeirnod grid

SH 70346 45990

Llwythwch ffeil GIS/map (dewisol)

% y buddsoddiad prosiect yn y lleoliad hwn

11%

Lleoliad 3 y Prosiect

Cod post

LL41 9AL

Cyfeirnod grid

SH 70286 45843

Llwythwch ffeil GIS/map (dewisol)

% y buddsoddiad prosiect yn y lleoliad hwn

4%

C.6. Dewiswch yr etholaethau a gynhwysir yn y prosiect hwn

Etholaeth 1 y Prosiect

Dewiswch etholaeth

Dwyfor Meirionnydd

Amcangyfrifwch ganran y prosiect pecyn hwn a fuddsoddwyd yn yr etholaeth hon

100%

C.7. Dewiswch yr awdurdodau lleol / cynghorau a gynhwysir yn y prosiect hwn

Awdurdod Lleol 1 y Prosiect

Dewiswch awdurdod lleol

Gwynedd

Amcangyfrifwch ganran y prosiect pecyn hwn a fuddsoddwyd yn yr Awdurdod Lleol hwn

100%

C.8. Faint yw cyfanswm y grant y gofynnir amdano o'r Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer y prosiect hwn?

£4,791,383

C.9. Beth yw cyfran y cyllid y gofynnir amdano ar gyfer pob un o dair thema buddsoddi'r Gronfa?

Adfywio a Chanol Trefi

0%

Diwylliannol

100%

Cludiant

0%

C.10. Cadarnhewch werth yr arian cyfatebol a sicrhawyd ar gyfer y prosiect cydrannol

£310,000

C.11. Rhowch fanylion yr holl ffynonellau arian cyfatebol yn eich cais ar gyfer y prosiect cydrannol hwn

Mae'r arian cyfatebol a ganlyn wedi'i sicrhau ar gyfer yr elfen hon o'r prosiect:

-Teithio Llesol Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru (grant) £300,000

-Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (grant) £10,000

Mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid cyflawni wedi ymrwymo i sicrhau cyllid ar gyfer unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r lwfans risg i bob prosiect unigol. Mae cyllideb ddyranedig o £23,040.00 wedi'i nodi fel lwfans risg ar gyfer Hwb Ogwen.

Nid yw'r arian cyfatebol a ganlyn wedi'i sicrhau ar gyfer yr elfen hon o'r prosiect:

-Mae Antur Stiniog yn ceisio cyfraniadau grant ychwanegol ar gyfer yr elfen sy'n weddill o'u pecyn ariannu, cyfanswm o £125,061. Ceisir hyn gan Gronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. Bydd Antur Stiniog yn gwarantu'r swm. Mae trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda'r cyllidwr, ac mae cais yn cael ei baratoi gyda'r nod o gyflwyno a chael penderfyniad cyn dyfarnu cyllid Cronfa Ffyniant Bro.

-Grant cam gweithredu o £56,667 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a fydd yn dilyn o gyllid y cam datblygu a sicrhawyd eisoes. Mae cyllid y cam gweithredu wedi'i gytuno mewn egwyddor yn amodol ar gyflawni cam gweithredu'r prosiect yn llwyddiannus. Bydd cyllid Cam Cyflawni yn ei le o 2023-28.

C.12. Gwerth am arian

Yn Ogwen a Ffestiniog, ein problem allweddol yw nad oes dehongliad o STyB o fewn pentref Bethesda na thref Blaenau Ffestiniog ar hyn o bryd. Mae'r cymunedau lleol hynod weithgar wedi prynu hen eiddo masnachol a

chyfleusterau diwylliannol gyda'r nod o ddatblygu canolfan ddeori busnes ffyniannus a hwb dehongli yn ogystal â gwasanaethau ieuencid a sgiliau gyda ffocws hefyd ar straeon treftadaeth pwysig yr ardaloedd a'u rhan yn STyB. Trwy integreiddio treftadaeth gydag unedau busnes a gweithgareddau ieuencid, gallai'r rhain ddod yn fodolau gweithredol cynaliadwy i gymunedau eraill eu hefelychu o fewn y dirwedd lechi.

Yn Ogwen fel yn Ffestiniog, her arall yw'r diffyg cyswllt rhwng y pentref/tref a'r chwarel a'u creodd. Trwy ddatblygu llwybrau llesiant cynaliadwy, eir i'r afael â'r broblem hon gan arwain at well cysylltedd rhwng safleoedd ac annog ymwelwyr ag atyniadau ar gyrion y cymunedau hyn i aros yn hwy a mentro i'r cymunedau i ddysgu mwy a phrofi eu treftadaeth a'u diwylliant cryf.

Mae ar y tair ardal angen buddsoddiad yn eu treflun a bydd y prosiect hwn yn gweithio gyda'r cymunedau i feithrin balchder lle ac ymdeimlad o le yn y tair ardal. Byddwn yn gweithio gydag artistiaid a phobl greadigol i greu celf gyhoeddus fel porth i STyB yn ogystal â sicrhau bod elfennau sylfaenol y cymunedau (e.e. biniau, toiledau, celfi stryd, isadeiledd digwyddiadau ac ati) o'r safon uchaf. Bydd hyn yn arwain at fwy o gyfleoedd ar gyfer digwyddiadau cymunedol a chynnydd mewn ymdeimlad o falchder yn ein cymunedau.

Bydd Hwb Ffestiniog yn cynhyrchu'r buddion a ganlyn:

- ymweliadau ychwanegol
- cyfranogiad ychwanegol mewn gweithgareddau diwylliannol
- cyfleoedd gwirfoddoli ychwanegol
- cefnogaeth i swyddi ychwanegol
- creu a gwella llwybrau
- adnewyddu ac adfer asedau treftadaeth
- creu unedau menter

Nid ydym yn rhagweld y bydd y cynllun yn cael unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ac eithrio effeithiau amgylcheddol y gwaith a wneir, a fydd yn cael eu lliniaru gan ffocws cynaliadwyedd trwyadl wrth gynllunio a chyflawni'r gwaith.

C.13. Cymhareb budd-cost (BCR) ac asesiad gwerth

Os nad yw'n bosib darparu cymhareb budd-cost gyffredinol ar gyfer eich cynnig pecyn, eglurwch pam isod

Cymarebau budd-cost

Cymhareb budd-cost gychwynnol

2.380

Cymhareb budd-cost addasedig

C.14. Buddion heb werth ariannol ar gyfer y prosiect hwn

Bydd gwaith hwb Ffestiniog yn cynyddu balchder lleol yn y lle a hyder cymunedol yn sylweddol, yn cynhyrchu buddion iechyd yn ogystal â llesiant i bobl leol ac ymwelwyr ac yn cryfhau treftadaeth iaith a diwylliant. Bydd darparu llwybrau newydd o atyniadau'r chwarel i'r dref yn gwella effeithiau amgylcheddol teithio presennol, yn lleihau damweiniau ac oedi, ac yn cryfhau gwytnwch a bywiogrwydd canol y dref. Yn ychwanegol, mae'r tri phrosiect hwb gyda'i gilydd yn cyfuno i gyflwyno achos strategol cryf dros fuddsoddi ar draws Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi – gyda'r buddion wedi'u cyfuno yn mynd y tu hwnt i effaith fesuradwy pob safle ymyrraeth.

Mae'r buddion hyn wedi'u dynodi mewn ymgynghoriadau helaeth gyda chymunedau lleol fel rhan o broses arysgrifio STyB Tirwedd Llechi a chynlluniau datblygu lleol.

C.15. A yw'r prosiect hwn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer rhywfaint o wariant grant Cronfa Ffyniant Bro yn 2022-23?

Ydi

C.16. A ellid cyflawni'r prosiect hwn fel prosiect ar ei ben ei hun?

Gellid - fe ellid cyflawni'r prosiect fel prosiect ar ei ben ei hun.

C.17. Dangoswch y gellir cyflawni gweithgaredd ar gyfer y prosiect hwn yn 2022-23

Ydi, mae'r gwaith a ganlyn wedi'i amserlennu ar gyfer 2022-23.

22 a 23 Stryd yr Eglwys:

-Cyflwyno caniatâd cynllunio a rheoliadau adeiladu, proses dendro, penodi contractwr, dechrau gwedd adeiladu

Aelwyd yr Urdd:

-Cyflwyno caniatâd cynllunio a rheoliadau adeiladu, proses dendro, penodi contractwr, dechrau gwedd adeiladu

Llwybr beicio/cerdded Blaenau Ffestiniog i Chwarel Llechwedd:

-Dyluniad ac arolygon

Isadeiledd a Dehongli:

-Isadeiledd canol tref a rheoli prosiect

Mae Antur Stiniog wedi penodi penseiri a fydd yn arwain ar ddatblygiad

pellach y cynlluniau ar gyfer yr adeiladau ar Stryd yr Eglwys, ac Aelwyd yr Urdd, ni fydd unrhyw oedi wrth symud ymlaen gyda'r ffrwd waith hon, a bydd yr un ymgynghorwyr hefyd yn gyfrifol am gyflwyno'r caniatadau angenrheidiol.

Cyngor Gwynedd fydd yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r llwybr beicio a cherdded rhwng Blaenau Ffestiniog a Chwarel Llechwedd; mae staff eisoes yn eu lle fydd yn arwain ar y prosiect hwn ac mae ganddynt brofiad helaeth o gyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb.

Bydd Cyngor Gwynedd hefyd yn gyfrifol am weithredu'r elfen isadeiledd a dehongli o'r cais, a bydd hyn hefyd yn dechrau yn ystod 2022–23.

Nid oes rheswm i gredu y bydd unrhyw oediad yn yr amserlen arfaethedig ar gyfer 2022-23.

Gall yr elfennau o'r prosiect sydd wedi'u cynnwys fel rhan o ddatblygiad yr Hwb fod yn brosiectau sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain, o fewn yr hwb a hefyd o fewn y prosiect yn gyfan gwbl. Er mai cryfder y prosiect hwn yw cwblhau tri hwb a thrwy hynny gynnig agwedd gyfannol at adfywio'r dirwedd lechi, gellir ymgymryd ag elfennau unigol a byddent yn cyfrannu at weithio tuag at nod y prosiect drwyddo draw.

C.18. Pwerau a Chaniatadau Statudol - Rhestrwch ar wahân isod, bob pŵer/caniatâd ac ati a gafwyd ar gyfer y prosiect hwn

22 a 23 Stryd yr Eglwys - Ni chafwyd caniatâd

Aelwyd yr Urdd - Dim angen caniatâd

Cyswllt beicio/cerdded rhwng Blaenau Ffestiniog a Chwarel Llechwedd - Mae elfennau o'r llwybr Cyd-ddefnyddio o fewn y Briffordd (Tir sy'n eiddo i LIC) yn cael eu symud ymlaen drwy Ddeddf Priffyrdd 1980.

Uwchlwythwch ddogfennau cynnwys (dewisol)

C.19. Pwerau/caniatadau statudol sydd heb eu gweithredu

22 a 23 Stryd yr Eglwys - Caniatâd cynllunio - i'w gyflwyno ym mis Tachwedd 2022

Aelwyd yr Urdd - Dim angen caniatâd

Cyswllt beicio/cerdded rhwng Blaenau Ffestiniog a Chwarel Llechwedd - Mae elfennau o'r Gwelliannau Llwybr Cyd-ddefnyddio y tu allan i'r Briffordd oedd angen tir trydydd parti yn cael eu symud ymlaen drwy Femorandwm Cytundeb (MOA) rhwng LIC a'r tiffeddiannwr.

Caniatâd cynllunio - y dyluniad terfynol fydd yn penderfynu a oes angen caniatâd cynllunio.